# Adroddiad Blynyddol Gofal Cymdeithasol Conwy 2022-23

Jenny Williams
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg
gofal.cymdeithasol@conwy.gov.uk



This document is also available in English

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fod yn ddiogel, yn iach ac yn annibynnol**

**Conwy County, the right environment to be safe, healthy and independent**

# Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................................................3

Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr.................................................................................4

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud: .....................................................................................5

Safon Ansawdd 1: Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ....................................................................11

Safon Ansawdd 2: Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys, sy'n cael cefnogaeth ac sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir. ..................................................19

Safon Ansawdd 3: Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl. ...................................26

Safon Ansawdd 4: Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas .......................................................................31

Safon Ansawdd 5: Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu deilliannau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl ...........................................................................40

Safon Ansawdd 6: Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal.......................................................................................46

Safon Ansawdd 7: Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed ........................................................................................................................53

Safon Ansawdd 8: Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau hysbys eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gymaint â phosibl. ..............58

Sut rydym yn cyflawni ein gwaith .....................................................................................63

Fframwaith Rheoli Perfformiad .......................................................................................74

Edrych ymlaen at 2023-24 a thu hwnt.................................................................................76

Cael rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol ....................................................................78

Pryderon am unigolyn.................................................................................................79




# Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae angen i Gyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad i nodi taith yr awdurdod lleol tuag at welliant wrth ddarparu gwasanaethau i drigolion Conwy. Mae'n dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles ac wedi ystyried darparu safonau lles. Mae'n rhoi gwybod am feysydd lle mae datblygiadau newydd, yn hytrach na phob agwedd ar ein gwaith, ac yn arfarnu ein perfformiad mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau Gofal Cymdeithasol. Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyhoeddi adroddiad blynyddol. Lluniwyd yr adroddiad ar gyfer y cyhoedd, ond bydd hefyd yn rhoi cipolwg ar ein taith tuag at welliant i amrywiaeth helaeth o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys Cynghorwyr, ein partneriaid, y cyrff sy'n ein rheoleiddio a Llywodraeth Cymru.

Mae blaenoriaethau ein gwasanaeth wedi cael eu halinio i'r wyth safon ansawdd sy'n cynrychioli lles pobl dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt



Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir



Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bobl



Mae cydnerthedd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.



Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl.



Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu ei gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal.



Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed.



Mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl.

# Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr



Croeso i Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, lle byddwn yn edrych yn ôl ar 2022/23. Rydym yn parhau i arddangos brwdfrydedd ac arloesedd yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaeth, er gwaethaf cyfnod heriol iawn o ran y gyllideb.

Cafwyd rhai datblygiadau arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi cyfrannu at ein cyfeiriad strategol ac mae gennym ardystiad da iawn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n rhoi adborth parhaus i ni, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae cwynion wedi gostwng, ond rydym yn parhau i ddysgu ohonynt, a chawsom dros 100 o ganmoliaethau hefyd sy'n dangos y gwerthfawrogiad sy'n bodoli am yr hyn yr ydym yn ei gynnig yn y sir.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda'n dull i fod yn gynhwysol, heb stigma, ac rydw i'n falch iawn o weld y newid i ddefnyddio iaith y mae pobl ifanc yn ddweud wrthym sy'n fwy parchus ac yn cyd-fynd â'r ffordd maen nhw'n ystyried eu hunain. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys peidio â defnyddio termau traddodiadol a defnyddio 'children looked after' yn fersiwn Saesneg pob dull o gyfathrebu.

Rydym wedi cynyddu'r hyn yr ydym yn ei gynnig i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia ac wedi meithrin ethos o dîm o amgylch y person a effeithiwyd, gan ystyried yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw. Mae hyn yn rhan allweddol o'n cefnogaeth ar gyfer oedolion, wrth i ni weld cynnydd wrth gydnabod dementia'n gynnar a sut gall ymyrraeth a chefnogaeth gynnar fod yn hynod effeithiol ar ôl hynny.

Mae'r hyn yr ydym yn ei gynnig i'r rhai sy'n gadael gofal wedi gwella ac mae'r tîm yn cymryd rhan mewn ymchwil arloesol i ystyried modelau arfer arloesol a sut y gellir datblygu hyn i becyn hyfforddiant cenedlaethol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r cynllun peilot i'r rhai sy'n gadael gofal i gael incwm sylfaenol a sut gall y ffynhonnell incwm hon wneud gymaint o wahaniaeth.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gweithio'n galed i ddatblygu model ymyrraeth cynnar cefnogol ac effeithiol, gan fireinio swyddogaethau ac hefyd gweithio ar strwythur lywodraethu well. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn hynod falch o lansio'r Coleg Adfer Lles Meddyliol, dull sydd wedi bod yn ddyhead ers tro. Mae grant ychwanegol bellach wedi'n galluogi ni i ddatblygu hyn, ac mae gennym gynlluniau ar y gweill i wella'r cynnig ymhellach dros y flwyddyn nesaf.

Nid ydym yn aros yn llonydd ac mae gennym raglen waith uchelgeisiol iawn o'n blaenau. Rydym yn parhau i wneud ymdrech i sicrhau bod ein gwasanaethau cyn effeithiol â phosib, fodd bynnag, gall hyn effeithio ar ansawdd, wrth i adnoddau gael eu cywasgu. Fodd bynnag, rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein cynlluniau a bydd y rhaglen waith fwyaf sylweddol o'n blaenau yn trawsnewid profiadau gofal plant, yn enwedig y rheiny mewn lleoliadau â chostau uchel.

Hoffwn ddiolch i'r staff unwaith yn rhagor am flwyddyn gynhyrchiol er gwaethaf y pwysau a'r heriau. Rydw i'n hynod falch o arwain y gwasanaeth ac rydw i'n edrych ymlaen at y bennod nesaf.

*Jenny Williams*

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

## Tîm Integredig Teuluoedd Lleol

Y llynedd, fe soniom am y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT), sy'n cynnwys staff o Gonwy, Dinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r tîm yn helpu teuluoedd i reoli ymddygiad heriol plant a phobl ifanc yn y cartref. Bu'n hollol weithredol ers blwyddyn bellach, ac yn rhoi gwasanaeth i'r ddwy sir, gyda thîm o staff yn darparu cefnogaeth seicolegol, ymddygiadol ac ymyrraeth.

Yn bennaf, mae atgyfeiriadau Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol wedi'u derbyn gan unigolion gyda ASD, ADHD neu nodweddion anhwylder ymlyniad. Mae aelodau'r tîm wedi cael Therapi Cyfathrebu Awtistiaeth Pediatreg, Arweiniad Rhyngweithiol Fideo a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyd, sy'n cefnogi rhieni i reoli ymddygiad heriol.

Erbyn mis Rhagfyr 2022, roedd y tîm wedi cael 175 o atgyfeiriadau felly mae'r galw am gefnogaeth yn amlwg.

## Creu Canolfan Asesu Plant Bwthyn y Ddôl

Oherwydd arafu gwaith adeiladu Bwthyn y Ddôl, yn ôl y cynlluniau a rannwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r tîm yn dal i weithio yn swyddfeydd y Cyngor ym Mae Colwyn. Mae'r tîm wedi cytuno ar lwybr atgyfeirio ac asesu ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych ac mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda.

Mae'r aelodau hynny o staff oedd yn wreiddiol yn gweithio yn ein cartref plant, Glan yr Afon, wedi trochi eu hunain yn y tîm amlasiantaethol ac wrthi'n dysgu dulliau therapiwtig newydd o weithio â phlant. Rydym wedi bod yn recriwtio gweithwyr i'r elfen breswyl o'r gwasanaeth ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn recriwtio staff ar yr un pryd,

Erbyn mis Rhagfyr 2022 roedd y tîm wedi gweithio â saith o deuluoedd ledled Conwy a Sir Ddinbych ac arbed 1,061 o wythnosau o fod mewn gofal.

Rydym wedi dethol cynigydd a ffefrir ar gyfer y prosiect i adeiladu'r ganolfan asesu newydd ac rydym wrthi'n gweithio ar ddyfarnu'r contract gyda'r nod o gymeradwyo'r dyluniad a'r costau targed.

Unwaith y pennir y costau a'r cyllid, disgwyliwn y bydd y datblygiad yn para tua 70 o wythnosau, gan ddechrau ym mis Mai 2023 a dod i ben ym mis Awst 2024. Byddwn, wrth gwrs, yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

## Gweithio â Clwyd Alyn i ddarparu llety yn Llanrwst

Fel y soniwyd yn adroddiad y llynedd, buom yn cydweithio â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn wrth ddatblygu tri o fflatiau ag un ystafell wely yn Llanrwst. Neilltuwyd dau ohonynt ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau i Bobl Anabl, a'r llall i'r Tîm Pobl Agored i Niwed. Bu'r ddau wasanaeth yn cydweithio i ddod o hyd i dri o denantiaid a fyddai'n medru cyd-fyw â'i gilydd. Roedd gan bob un ohonynt anghenion cymorth ysgafn a ofynnai am gefnogaeth rhwng dwy a phump awr bob wythnos.

Gorffennwyd y fflatiau i safon uchel iawn ac roeddent yn barod erbyn diwedd mis Awst 2022. Rydym yn falch o ddweud y symudodd y tenantiaid i mewn yn fuan wedi hynny.

## Mynd i'r afael â'r heriau staffio yn y Gwasanaeth Pobl Hŷn

Fel y soniwyd y llynedd, mae ein Gwasanaeth Pobl Hŷn yn dal i wynebu galw digynsail a phrinder staff. Mae gan bob un o'r Timau Adnoddau Cymunedol restr aros hirfaith o achosion i'w hasesu gan Weithiwr Cymdeithasol neu Therapydd Galwedigaethol. Ar hyn o bryd ni fedr y tîm ond dyrannu achosion a bennir yn rhai brys, ac mae rheolwyr yn brysbennu pob cais arall am asesiad gan anfon llythyr i roi gwybod y bydd oedi. Mae'r timau bellach yn ymdrin yn fynych ag achosion cymhleth dros ben sy'n aml wedi dod yn argyfwng, wrth reoli hefyd yr anawsterau ychwanegol pan mae angen comisiynu pecynnau gofal.

Ar hyn o bryd mae gennym werth mwy na chant o oriau o ofal cartref na fedrwn ei gomisiynu. Yn sgil hynny mae pobl agored i niwed yn cael eu rhoi mewn cartrefi gofal, neu'n derbyn gofal gartref gan eu teuluoedd neu ofalwyr digyflog, ac mae rhai o'r rheiny'n ei chael hi'n anodd cyflawni eu gwaith gofalu gan nad oes pecynnau gofal ar gael i'w cefnogi. Er gwaethaf yr holl wasgfeydd rydym bob amser yn gwneud ein gorau glas i roi blaenoriaeth i ryddhau pobl o'r ysbyty ac rydym yn gyson wedi cadw lefelau oedi wrth drosglwyddo gofal yn isel yng Nghonwy.

Yn ein timau Gwaith Cymdeithasol rydym wedi bod yn defnyddio staff locwm a staff asiantaethau i ymdrin â rhywfaint o'r llwyth gwaith, ond oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â hynny, nid dyma'r dewis rydym yn ei ffafrio. Mae ein partneriaid allanol yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff, ac o ganlyniad bu'n rhaid iddynt ddychwelyd pecynnau gofal na fedrent eu darparu. Mae ein timau mewnol wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y rhain, ond maent hwythau'n cael trafferth recriwtio staff.

Drwy ddefnyddio rhywfaint o Gyllid Integreiddio Rhanbarthol rydym wedi cyflogi asiantaeth recriwtio/staffio wrth sefydlu tîm peripatetig. Mae hynny wedi ein galluogi i ryddhau rhywfaint o staff mewn un ardal Tîm Adnoddau Cymunedol; rydym wedi llwyddo i helpu pedwar o bobl i ddychwelyd adref o gartref gofal a galluogi un gofalwr anffurfiol i fynd yn ôl i'r gwaith. Bydd tri chant o oriau gofalu ychwanegol ar gael o ganlyniad i'r gwaith hwn.

Llwyddom i sicrhau rhywfaint o gyllid ychwanegol ar sail achos busnes y llynedd i recriwtio pump o staff Gwaith Cymdeithasol ychwanegol: un ymhob Tîm Adnoddau Cymunedol er mwyn ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau.

Rydym hefyd wedi dechrau defnyddio gwahanol ddulliau o ddenu a recriwtio aelodau newydd o staff i'n timau cefnogaeth cymunedol, ac mae rheolwyr yn mynd i amryw ddigwyddiadau cymunedol a ffeiriau swyddi er mwyn hyrwyddo gyrfaoedd yn ein gwasanaethau. Mae hyn wedi cael effaith ac wedi arwain at recriwtio aelodau newydd o staff.

Mae cadw ein staff presennol a diogelu eu lles, a hwythau oll yn gweithio dan bwysau aruthrol, yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth a thrwy drafod â chydweithwyr Adnoddau Dynol a staffio rydym wedi llwyddo'n ddiweddar i drefnu sesiwn i helpu staff i ddeall effaith trawma eilaidd, a chael eglurhad o 'anafu moesol' ac effaith hynny ar staff.

Cynhaliom adolygiad canol blwyddyn o daliadau ym mis Hydref 2022 gyda'r nod o gynyddu ffioedd y darparwyr er mwyn iddynt fedru codi cyflogau staff. Gobeithiwn hefyd y bydd gweithredu'r dull newydd o gomisiynu gofal cartref yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i gyflawni yn y sector gofal cartref yng Nghonwy.

**Os oes diddordeb gennych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, mewn gyrfa ym maes Gofal Cymdeithasol, ewch i Gofalwn.Cymru neu wefan swyddi Conwy**

## Ymgartrefu yng Nghanolfan Ffordd Douglas

Wedi adnewyddu hen ysgol Fictoraidd ynghanol Bae Colwyn rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n ffonio neu'n galw heibio i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth a nifer y gwasanaethau eraill yn yr Awdurdod Lleol a'r trydydd sector sy'n defnyddio'r cyfleusterau i feithrin cyswllt â theuluoedd yn nes at adref. Mae'r rhain yn cynnwys:

- GIFT, sy'n darparu gweithgareddau gwyliau i bobl ag anableddau.
- Yr Uned Diogelwch Trais Teuluol, sy'n darparu cyngor a chefnogaeth, cyfarfodydd un-i-un a mynediad at raglenni fel '*Freedom*' ac '*Own My Life*', yn ogystal â'r rhaglen '*STAR*' i blant sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig.
- Canolbwynt Cyflogaeth Conwy, sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i gael mynediad at addysg a gwaith. Maent wedi dod i'r ganolfan i gynnal sesiynau coginio a bwyta.

- Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, sy’n darparu gwaith grŵp sy’n ymdrin â lles wedi’i dargedu at bobl ifanc dan un ar bymtheg oed, gan gynnwys sesiynau coginio un-i-un.
- Cymraeg i Blant, sy’n cynnal sesiynau canu yn Gymraeg i rieni a rhoi blas ar yr iaith i aelwydydd di-Gymraeg.
- STAND, sesiynau grŵp i blant dan bump ag anableddau a’u rhieni, gweithdai cynghori ar fagu plant, a’r rhaglen *PEEP* sy’n datblygu sgiliau rhifo cynnar drwy chwarae.
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru, sy’n galluogi oedolion a phlant i alw heibio am gefnogaeth.
- Y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol, sy’n cefnogi teuluoedd i reoli ymddygiad heriol ar yr aelwyd.
- Y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, sy’n trefnu apwyntiadau cyn ymgynghori ar gyfer pobl ifanc ar y rhestr aros am wasanaethau niwroddatblygiadol.
- Uwch-ymarferydd Nyrsio sy’n gofalu am iechyd plant a phobl ifanc rhwng pedair a deunaw oed.
- Grŵp cefnogi bwydo ar y fron gyda bydwraig Dechrau’n Deg.

Roedd hi’n anodd meithrin cyswllt â phobl dan gyfyngiadau Covid-19, ond unwaith y cawsom agor ein drysau i’r cyhoedd a chychwyn y grwpiau, bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl oedd yn galw heibio.

Nid oedd sefydliadau’n gwybod am y cyfleusterau oedd ar gael iddynt yng Nghanolfan Ffordd Douglas ac felly estynnom wahoddiad iddynt ddod i weld y lle. Mae GIFT, yn enwedig, yn defnyddio’r ganolfan yn rheolaidd er mwyn elwa ar y cyfleusterau i bobl anabl.

Byddwn yn dal i weithio â’r gymuned a’n partneriaid lleol wrth ddatblygu darpariaeth i deuluoedd sydd wedi’i theilwra yn ôl yr anghenion sy’n bodoli yn ardal ganolog Conwy.



# Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Mae gofyn i'r bobl rydym ni'n eu helpu am yr hyn sy'n bwysig iddynt yn rhan allweddol o ddatblygu ein gwasanaethau, ac mae'r adborth y byddwn yn ei gael yn ein galluogi i weld lle mae angen gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Eleni, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar adfer yn dilyn pandemig Covid-19, felly nid ydym wedi gallu ymgynghori gydag unigolion cymaint ag yr hoffem ei wneud. Fodd bynnag, fe welwch enghreifftiau o adborth ac arolygon drwy'r adroddiad, dan y safon ansawdd perthnasol.

## Cwynion am ein gwasanaethau

Mae'r rhain yn rhoi adborth uniongyrchol i ni gan bobl sy'n cael ein gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Maent yn tynnu sylw at feysydd lle rydym yn gwneud yn dda, a hefyd lle gallwn ni wella ein harferion. Mae cael cwynion yn golygu y gallwn:


- Eu cydnabod yn gyflym pan rydym yn gwneud camgymeriadau
- Eu hunioni ac ymddiheuro lle bo'n briodol
- Sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion

Oherwydd y ffordd rydym yn adrodd ar gwynion a chanmoliaethau ym maes Gofal Cymdeithasol, rydym yn rhoi crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2021-22 i chi.

Er mwyn deall y cyfanswm o gwynion mewn perthynas â'r nifer, ar gyfartaledd, o achosion oedd yn agored yn yr adran, roedd y cyfanswm fel a ganlyn:

- Cafwyd 12 cwyn am Wasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig allan o tua 3,400 o bobl a gafodd wasanaethau (0.35%)
- Cafwyd 5 cwyn am y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu allan o tua 900 o blant a phobl ifanc a gafodd wasanaethau (0.55%)
- Cyrhaeddodd cyfanswm o 17 cwyn swyddogol yn ystod y flwyddyn adrodd 2021-22, a chawsont eu cau yn ystod yr un cyfnod.

Roedd yr effaith ariannol ar Gonwy fel Awdurdod Lleol yn £5,426, sy'n uwch na ffigwr y flwyddyn flaenorol sef £4,710. Roedd hyn yn cynnwys penodi ymchwilwyr annibynnol neu bobl annibynnol i gwblhau proses archwilio Cam 2, roedd un ohonynt wedi cael ei wneud yn 2020-21 ond cafodd ei godi eto yn ystod y flwyddyn wedyn. Mae'r graff isod yn nodi cyfanswm y cwynion ar draws yr adran dros y 5 mlynedd diwethaf:



Mae’r tuedd dros y pum mlynedd ddiwethaf yn dangos dirywiad yn y cyfanswm o gwynion swyddogol a gafwyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, fodd bynnag, cafwyd cyfanswm o 17 cwyn yn 2021-22, cynnydd o un o’r flwyddyn adrodd flaenorol. Bu gostyngiad yn nifer y cwynion ffurfiol a gafwyd mewn perthynas â Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu, gyda chynnydd yn y cwynion mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig

O’r 17 cwyn a gafwyd, cafodd 15 eu datrys yng Ngham 1 a’r ddau arall yng Ngham 2. Mae hyn yn amlygu’r ymdrech yr ydym yn ei wneud i ddatrys cwynion yn fuan a chyflawni datrysiad mewnol. Cafwyd wyth cwyn am Wasanaethau Gwaith Cymdeithasol Pobl Hŷn ac Ysbyty, fodd bynnag, mae ganddynt y nifer uchaf o achosion agored yn yr adran i gyd hefyd, felly mae hyn yn parhau i fod yn ffigwr isel o ran y canran cyffredinol.

Anfonwyd llythyr neu e-bost at yr achwynydd o fewn dau ddiwrnod gwaith yn achos 100% o gwynion Cam 1.

Cwblhawyd 60% o gwynion Cam 1 o fewn y terfyn amser o 15 diwrnod gwaith, sy’n ddirywiad bychan mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol. Roedd y rheiny na fodlonodd y terfyn amser naill ai’n gymhleth iawn, neu roedd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal dros gyfnod y Nadolig pan roedd y staff ar eu gwyliau.

Cafodd 76% o gwynion eu cyflwyno gan aelodau’r teulu, ac roedd y themâu yn amrywio rhwng trefniadau’r cartref gofal neu ofal gartref, cyfathrebu gwael (neu ddiffyg cyfathrebu), diffyg darpariaeth o gefnogaeth neu ddiffyg gweithredu gan staff.

Dyma’r gwersi mwyaf arwyddocaol a ddeilliodd o’r cwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Mae cyfathrebu’n allweddol ar gyfer pobl sy’n cael gwasanaethau a’u teuluoedd; ac mae rhoi gwybod iddynt yn effeithiol am unrhyw newid mewn amgylchiadau. Mae dychwelyd galwadau ffôn neu’n syml galw pan fo galwad wedi’i gynllunio yn hynod bwysig i sicrhau perthynas waith dda.
- Dilyn i fyny ar gamau gweithredu a gytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu mewn modd clir a gohebiaeth ysgrifenedig yn dilyn hynny.
- Sicrhau bod cyswllt yn cael ei drefnu pan fo perthynas rhieni’n chwalu.
- Dylai unigolion gael y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â’u gofal a’r gefnogaeth maen nhw’n ei chael.
- Sicrhau bod dinasyddion yn deall y wybodaeth sy’n cael ei darparu a rheoli disgwyliadau.

## Canmoliaeth am ein gwasanaethau

Yn ystod 2021-22, cawsom 122 o ganmoliaethau am Wasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig, a 15 am Wasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu. Bydd natur y gwasanaethau gwahanol yn dylanwadu ar niferoedd, ond mae’n dda nodi bod mwy o ganmoliaethau na chwynion yn cyrraedd! Y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Pobl Hŷn ac Ysbyty gafodd tua hanner y canmoliaethau.

Rydym yn croesawu canmoliaethau fel ffordd o ddysgu arferion da, ac maent yn ein sicrhau ein bod ar y trywydd cywir.

## Newid terminoleg ein Gwasanaethau Plant

Fe sylwch, yn fersiwn Saesneg yr adroddiad hwn, ein bod yn cyfeirio at ‘Children Looked After’, ond yn y blynyddoedd blaenorol, roeddem yn arfer defnyddio’r term ‘Looked After Children’. Mae hyn yn rhan o newid i beidio â defnyddio iaith ‘oeraidd’ oedd yn cael ei ddefnyddio gan bawb o weithwyr cymdeithasol i weision sifil wrth gyfeirio at blant a phobl ifanc yn ein gofal. Yng Nghonwy, mae’r newid hwn wedi cael ei groesawu gan bawb o’r Prif Weithredwr i gydweithwyr sy’n gweithio gyda phlant sy’n derbyn gofal, a’r plant a’r bobl ifanc eu hunain.

Bydd y newid tôn hwn yn berthnasol i sawl agwedd ar ofal a chefnogaeth plant, gan gynnwys lleoliadau, cyswllt gyda rhieni a gwarcheidwaid, a chyfnodau seibiant. Yn hytrach, bydd termau plaen a syml, mewn iaith bob dydd yn cael eu defnyddio, gan gyfeirio at y cartref, amser teulu a seibiannau byr neu gysgu dros nos. Byddwn yn gwneud ymdrech i ymgorffori’r newidiadau hyn yn ein gwaith papur, sgyrsiau a chyfarfodydd.

Edrychwch ar y fideo a grëwyd gan elusen plant Llais Pobl Ifanc mewn Gofal, sy'n egluro'r rhesymau dros y newid iaith yma.




## Ymgysylltu gyda phreswylwyr cartrefi gofal

Eleni, mae ein Swyddog Cyfranogi wedi cysylltu gyda phreswylwyr pedwar cartref preswyl, teuluoedd un cartref nyrsio a thenantiaid y pedwar prosiect tai gofal ychwanegol y mae cymdeithas dai yn berchen arnynt yng Nghonwy. O ganlyniad i'r cyswllt hwn yn y lleoliadau tai gofal ychwanegol, fe wnaethom nodi gwelliannau yn lles nifer o bobl sy'n byw yno, ar ôl y cyfyngiad ar gyswllt cymdeithasol ac ynysu drwy gydol y pandemig. Rhannwyd canfyddiadau gyda'n cydweithwyr Swyddog Cefnogi Partneriaeth, oedd yn gallu sicrhau bod y materion a godwyd gan y preswylwyr mewn un cartref gofal yn cael eu datrys.

### Beth oedd yr heriau?

Nid yw pob preswylydd eisiau neu'n gallu cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori, felly rydym yn gofyn i leoliadau fel cartrefi nyrsio ysgrifennu at y teuluoedd i gael eu cefnogaeth. Mewn cartrefi gofal ychwanegol, nid yw pobl sy'n byw mewn fflatiau'n hyderus am y broses, felly mae'r Swyddog Cyfranogi yn ceisio tawelu eu meddwl drwy bwysleisio ei bod yn ddiduedd.

### Beth nesaf?

Yn 2023, byddwn yn parhau gyda'n gwaith ymgysylltu a chyfranogiad gyda chartrefi gofal yng Nghonwy i sicrhau bod preswylwyr yn cael dweud eu barn am yr hyn sy'n bwysig iddynt.  Rydym hefyd yn cefnogi datblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed drwy gynnwys preswylwyr cartrefi gofal a gwirfoddolwyr mewn prosiect therapi hel atgofion newydd.

# Pobl

Safon Ansawdd 1: Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw

## Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid / Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Mae'r broses Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn parhau er bod y newid cenedlaethol i Drefniadau Amddiffyn Rhyddid yn parhau i gael ei ragweld yn y dyfodol. Nid oes dyddiad cychwyn wedi cael ei gadarnhau eto.

Erbyn hyn, mae'r tîm DoLS bron yn ôl i'w gryfder llawn yn dilyn cyfnod o newid, a defnyddiwyd staff asiantaeth ychwanegol i reoli'r rhestr aros. Gan fod y rhan waethaf o bandemig Covid wedi pasio erbyn hyn, bu modd i ymarferwyr ddychwelyd i ymweliadau wyneb yn wyneb yn hytrach nag asesiadau dros y we. Mae'r tîm yn parhau i ddatblygu perthnasau gwaith cadarnhaol gyda gwasanaethau eirioli ac asiantaethau partner eraill. Mae adborth yn awgrymu bod gan y tîm DoLS enw da o ran eiriolaeth.

Drwy ymgynghori a hyfforddiant grŵp am achosion unigol, mae ymarferwyr DoLS (Aseswyr Budd Pennaf) yn parhau i gefnogi staff rheng-flaen (timau gwaith cymdeithasol a chartrefi gofal) i wella'r ffordd y defnyddir y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er budd yr unigolyn. Maen nhw hefyd wedi bwydo mewn i'r broses ymgynghori cenedlaethol mewn perthynas â Chôd Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol newydd (sy'n ymgorffori'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid sydd i ddod.

### Pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i bobl?

Mae gweithredu'r broses DoLS yn golygu bod hawliau nifer gynyddol o unigolion wedi'u diogelu, mae haen ychwanegol o graffu dros eu trefniadau gofal, mynediad at eiriolaeth, ac yn gallu dod â her i'r llys petaent yn dymuno gwneud hynny. Mae'r DoLS yn helpu sicrhau bod cynllunio gofal yn gyfreithlon ac yn cael ei gyflawni yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol sef er budd pennaf yr unigolyn a'r opsiwn gyda'r lleiaf o gyfyngiadau. Mae hyn yn cynnwys cynllunio mwy cadarn, ymgynghori a dogfennau mewn perthynas â materion fel eiriolaeth, teilwra lleoliadau, mynediad i'r gymuned, y defnydd o feddyginiaeth cudd a gwrth-seicotig a gweithgareddau dyddiol ystyrlon.

### Beth oedd yr heriau?

Mae yna restr aros hir ar gyfer atgyfeiriadau. Mae'r nifer uchel o bobl hŷn a chartrefi gofal yn yr ardal o ganlyniad i nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid adnewyddu awdurdodiadau DoLS bob deuddeg mis o leiaf ac mae'r asesiadau'n hir ac yn gyfreithiol gymhleth. Mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar y rhestr aros. O ganlyniad i hyn, mae risg i bobl gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon, nid oes ganddynt fynediad llawn at eu hawliau ac efallai nad ydynt yn y sefyllfa o'r budd pennaf iddynt, neu sy'n cynnwys gormod o gyfyngiadau.

Rydym yn disgwyl am ddyddiad cychwyn cyflwyno Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, ond rydym yn gwybod y bydd rhai o'r cyfrifoldebau dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn trosglwyddo o'r tîm DoLS i ymarferwyr gwaith cymdeithasol rheng-flaen. Bydd angen gwaith paratoi sylweddol ar gyfer hyn yn ogystal â hyfforddiant digonol yn y timau hynny. Gan nad ydym yn gwybod dyddiad na ffurf derfynol y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, mae'n ei gwneud yn anodd cynllunio a datblygu model cyflawni gwasanaeth.

### Beth nesaf?

Bydd y tîm DoLS yn parhau i reoli a blaenoriaethu'r rhestr aros. Bydd hyfforddiant o'r newydd a hyfforddiant gloywi cyfreithiol o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i staff newydd a chyfredol, mewn perthynas â Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a Threfniadau Amddiffyn Rhyddid, er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau mewn arferion. Bydd Aseswyr Budd Pennaf (ymarferwyr DoLS) yn paratoi i drosglwyddo i swyddogaeth Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

Fodd bynnag, ni all hyn ddigwydd nes bod sefydliadau hyfforddiant achrededig a gofynion trawsnewid y swydd hon wedi cael ei chyhoeddi.

## Loud Voices



Grŵp i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol sy'n cael ei hwyluso gan y Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol yw Loud Voices. Bwriad Loud Voices yw gwrando ar brofiadau a barn plant a phobl ifanc i sicrhau bod ganddynt lais. Mae hyn yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddysgu am yr hyn sy'n mynd yn dda, a'r hyn allwn ni fel gweithwyr proffesiynol ei wneud yn wahanol.

Yn dilyn terfyn pandemig Covid, rydym wedi ailddechrau'r grŵp hwn. Mae'r sesiynau'n cael eu cynllunio bob amser er mwyn sicrhau bod plant yn cael amser i gael hwyl yn ogystal â chymryd rhan mewn ymgynghoriad gyda'r oedolion sy'n bresennol.

## Datblygu ein gwasanaethau dementia

Rydym wedi sefydlu Fforwm Gwasanaethau Dementia Conwy i gefnogi datblygiad a darpariaeth gwasanaethau dementia yn lleol. Grŵp gweithredol yw hwn sydd â'r bwriad o ennyn trafodaethau agored a chydweithredol rhwng y rhai sy'n ymwneud â datblygu, gweithredu ac adrodd ar ofal dementia yng Nghonwy. Bydd y grŵp hefyd yn datblygu ac yn goruchwylio gweithredu a chyflawni'r Strategaeth Dementia arloesol yn y Sir. Mae cynrychiolwyr o'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector yn rhan o'r fforwm.

Mae swyddogion o Ofal Cymdeithasol i Oedolion wedi sefydlu gweithgor gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth o wahanol adrannau yn y Cyngor i'n cefnogi ni gyda llwyddo i gael cydnabyddiaeth gan Gymdeithas Alzheimer fel sefydliad sy'n deall dementia. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar gynllun gweithredu i gefnogi cadw'r statws hwnnw. Mae hyn wedi cael ei gydnabod yng Nghynllun Corfforaethol Conwy bellach.

Rydym yn cymryd rhan weithgar mewn amrywiaeth o grwpiau tasg a gorffen newydd a reolir gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol mewn perthynas â chefnogi gweithredu 'Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan'. Mae'r rhain wedi cael eu llunio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda dros 1800 o bobl, yn amrywio o'r rheiny sy'n byw gyda dementia i sefydliadau sector gwirfoddol ac ymarferwyr ledled Cymru a'r DU yn rhan o'r gwaith. Gwelliant Cymru fu'n arwain ar y gwaith hwn fel rhan o'r Rhaglen Gofal Dementia, gyda gofynion Cynllun Gweithredu Dementia ar gyfer Cymru yn llywio'r gwaith, a Grŵp ar Oruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia Llywodraeth Cymru yn goruchwylio'r gwaith.

Mae 20 o safonau (wedi'u crynhoi o dros 100 o ddarpar safonau), ac maen nhw'n nodi'r manylion y mae pobl yn credu a fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal dementia yng Nghymru.

Yn yr Adran Gofal Cymdeithasol, rydym hefyd wedi defnyddio arian y Gronfa Integreiddio Ranbarthol i benodi Gweithiwr Cefnogi Dementia ym mhob un o'n pum tîm ardal. Maen nhw'n cefnogi staff Gofal Iechyd a Chymdeithasol sy'n gweithio yn y Timau Adnoddau Cymunedol, gan wella ein dull aml-ddisgyblaethol i gefnogi pobl i fyw'n dda gyda dementia ac aros yn eu cartrefi eu hunain. Yn ei dro, mae hyn yn cefnogi datblygu'r tîm o amgylch y dull unigol y cyfeirir ato yn y Cynllun Gweithredu Dementia ac yn darparu gofal wedi'i gydlynu ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chefnogaeth a thriniaeth fel bo angen. Mae'r Gweithwyr Cefnogi Dementia yn darparu man cyswllt allweddol i deuluoedd i'w helpu gyda chymhlethdodau'r system Gofal Cymdeithasol, ac hefyd yn rhoi:

- Cefnogaeth estyn allan hyblyg a phersonol, gan ddefnyddio dull gweithredu 'tîm o amgylch yr unigolyn' o'r diagnosis cyntaf.
- Cyfeirio cymunedol (cyfeirio pobl at wasanaethau eraill) a chefnogaeth eirioli ar gyfer pobl gyda dementia a'u gofalwyr.

- Cefnogaeth sy’n ymateb i angen, yn hytrach na chefnogaeth yn dibynnu ar amserlenni.
- Cefnogaeth i gael mynediad at wasanaethau seibiant dros nos ac yn y dydd yng nghartref gofal Llys Elian fel bo anghenion yn dwysáu.
- Cefnogaeth ychwanegol i’r rhai lle bydd gofal cartref traddodiadol yn methu, a bod angen cefnogaeth mwy hyblyg i gynnal annibyniaeth.
- Cefnogaeth a hyfforddiant i deuluoedd a gofalwyr, gan gynnwys hyrwyddo technoleg ddigidol;
- Cysylltiadau gyda nyrsio ardal o ran gofal diwedd bywyd a’r Tîm Adnoddau Cymunedol ehangach.

Drwy’r Tîm Cefnogi Dementia (a ariennir drwy’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol hefyd) rydym wedi gallu profi’r cysyniad o gael ffordd fwy hyblyg i ddarparu gofal a chefnogaeth yn y gymuned ar gyfer pobl sy’n byw gyda dementia, a’u gofalwyr di-dâl.

Mae’r tîm wedi galluogi pobl sy’n byw gyda dementia i gynnal eu hannibyniaeth ac aros gartref, ac osgoi gorfod anfon pobl i’r ysbyty neu i ofal preswyl yn ddiangen, neu ohirio’r angen am wasanaethau o’r fath. Maen nhw hefyd wedi lleihau’r oedi pan fo angen anfon rhywun adref o’r ysbyty. Yn y cyd-destun lleol, mae hyn yn golygu llai o achosion Oedi wrth Drosglwyddo Gofal o’r ysbyty seiciatrig, a defnyddio llai o leoliadau y tu allan i'r dalgylch, ac felly amharu llai ar deuluoedd ac achosi llai o boen meddwl iddyn nhw, yn ogystal â’r arbedion ariannol o ran costau lleoliadau. Credir y bydd y gefnogaeth fwy effeithiol hon ar gyfer gofalwyr pobl gyda dementia yn effeithio’n gadarnhaol ar wytnwch gofalwyr a bydd yn lleihau achosion argyfyngus. Yn anffodus, mae recriwtio i’r tîm wedi parhau i fod yn heriol iawn, ac nid ydym wedi gallu penodi i bob swydd erioed.

Oherwydd pwysau’r gwasanaeth, nid yw’n cynlluniau i dreialu gwasanaeth mwy hyblyg yn ein cartref preswyl i’r Henoed sydd â Salwch Meddyliol (Llys Elian) a’i gysylltu gyda gwaith y tîm hwn wedi gallu mynd rhagddo hyd yn hyn. Roeddem wedi gobeithio y gallai’r tîm ddefnyddio gwasanaethau seibiant Llys Elian dros nos ac yn ystod y dydd, wrth i anghenion pobl ddwysáu, ond oherwydd cyfyngiadau Covid a materion yn ymwneud â chynhwysedd ar draws y sector cartrefi gofal, nid ydym wedi gallu bwrw ymlaen gyda hyn o gwbl. Heb ystyried hyn, mae’r tîm ei hun wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau rhai unigolion.

## Mae’r astudiaeth achos a ganlyn yn dangos sut mae’r Tîm Dementia yn gweithio’n agos gydag unigolion a’u hanwyliaid i greu’r canlyniadau gorau posib.

Cyn i ni fod yn rhan o’r gofal, roedd M yn byw yn annibynnol gartref, gyda chefnogaeth ei lys-ferch ofalgar. Yn dilyn ein ddiagnosis dementia, fe wnaeth ein Tîm Ail-alluogi ei gefnogi yn ystod cyfnod asesu cychwynnol ac yna cawson nhw eu disodli gan Dîm Dementia oedd yn galw bedair gwaith y diwrnod ar gyfer gofal personol, prydau bwyd a meddyginiaeth. Mae M yn ŵr bonheddig dymunol sydd fel arfer yn derbyn y gofal, ond ar brydiau, ni fydd yn derbyn cymorth i wisgo’n barod am ei wely. Roedd hyn yn her ar y dechrau, gan fod ei lys-ferch yn pryderu nad oedd o’n mynd i’w wely yn y nos gan nad oedd hi’n edrych fel bod unrhyw un wedi cysgu yn y gwely. Roeddem yn pryderu, ymhen amser, y byddai’n datblygu briwiau pwyso, felly fe wnaethom weithio gyda M i sefydlu trefn gyda’r nos, a chafwyd amrywiaeth o lwyddiant gyda hyn.

Pan fo hi’n braf, bydd M yn hoffi cerdded i’r siop leol, ac nid yw gartref weithiau pan fo rhywun yn galw amser cinio. Rydym yn gweithio gyda M a byddwn yn mynd yn ôl ato yn ddiweddarach.

Rydym hefyd yn gweithio’n agos gyda llys-ferch M, sy’n mynd ag o i’w apwyntiadau iechyd i gyd ac yn rhoi gwybod i’r tîm am unrhyw wybodaeth berthnasol. Rydym yn gweithio gyda’n gilydd ar hyn o bryd i wella deiet M oherwydd ei fod wedi colli pwysau a bod ganddo ffigwr platennau isel drwy gwblhau siartiau bwyd a diod. Mae ei bwysau’n cael eu monitro yn y clinig.

Mae M yn parhau i fyw’n dda gyda dementia yn y gymuned gyda phedwar galwad y diwrnod.

## Beth oedd yr heriau?

Mae sicrhau bod unigolion sy'n byw gyda dementia a'u hanwyliaid yn cael eu cynnwys ar y Fforwm Gwasanaethau Dementia wedi bod yn heriol, felly rydym yn treialu dull gweithredu gwahanol i ymgysylltu ac ymgynghori ag unigolion sy'n defnyddio'r Ganolfan Dementia, a reolir gan Cynnal Gofalwyr. Drwy drafod materion gwasanaeth a phynciau llosg yn rheolaidd, bydd y llwybr hwn yn golygu bod modd i ni hysbysu datblygu gwasanaeth a'i gyflawni.

Roedd y Gweithwyr Cefnogi Dementia yn swydd newydd i ni, ac ar y dechrau, nid oeddem yn rhy siŵr beth fyddai'r swyddogaeth yn gynnwys. Fodd bynnag, mae'r swydd wedi newid dros amser, ac erbyn hyn, teimlir bod deiliaid y swydd yn rhan annatod a gwerthfawr iawn o'r Timau Adnoddau yn Cymunedol.

## Beth nesaf?

Byddem yn hoffi cynyddu nifer y swyddi Gweithiwr Cefnogi Dementia sydd gennym gan fod y swydd wedi dod yn allweddol i alluogi'r Tîm Adnoddau Cymunedol i gefnogi unigolion sy'n byw â dementia yn eu hardal. Petai arian pellach ar gael i ni, mae'n bendant yn adnodd y byddem yn hoffi ei ddatblygu oherwydd y newid cadarnhaol maen nhw'n ei gyflawni.
Dros y deuddeg mis nesaf, rydym yn gobeithio cynyddu ein cynlluniau i feithrin cysylltiadau rhwng y tîm dementia a'r adnoddau sydd ar gael yng nghartref preswyl Llys Elian.

# Ymgysylltu gyda rhaglen ymchwil y rhai sy'n gadael gofal

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi llwyddo gyda chais am £234,000 gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gynnal darn o ymchwil dros ddwy flynedd sy'n edrych yn benodol ar ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ar hyn o bryd, mae cais moeseg wedi cael ei gyflwyno ac mae'r adnoddau llenyddiaeth ar y gweill.

## Beth oedd yr heriau?

Ffactor fawr oedd cael arian ar ei gyfer yn ystod pandemig Covid-19. Yr ymchwil hwn oedd yr unig gais llwyddiannus yng Ngogledd Cymru, ac er mwyn cryfhau'r cais, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill ledled Cymru i sicrhau bod dull cenedlaethol i'r ymchwil a'r ffordd y bydd yn cael ei rannu.

Mae'r ymchwil ei hun yn canolbwyntio ar gyswllt gwael rhwng pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal a gwasanaethau, a gall hyn greu her wrth symud ymlaen.

## Beth nesaf?

Nod yr ymchwil yw:

- Datblygu model ymarfer newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Mae'r bwrdd rheoli prosiect wedi cael ei sefydlu a holwyd pobl ifanc ledled Cymru i gymryd rhan yn yr ymchwil.
- Bydd yr ymchwil yn cael ei rannu drwy greu podlediad, TikTok a phecynnau hyfforddi ar gyfer bob Awdurdod Lleol.

# Bws Profiad Realaeth Awtistiaeth

Comisiynodd Conwy Fws Profiad Realaeth Awtistiaeth yn ystod hydref a gaeaf 2022-23. Mae'r Profiad Realaeth Awtistiaeth yn sesiwn hyfforddiant arloesol, ddwys ac ymarferol sydd wedi'i datblygu i roi profiad rhithiol i bobl nad ydynt yn awtistig o fyw gydag awtistiaeth. Mae hwn yn brofiad ymarferol iawn sy'n rhoi gwell dealltwriaeth i gyfranogwyr o awtistiaeth ac sy'n eu helpu i ddechrau gweld y byd o safbwynt rhywun awtistig.

Mae'r Bws yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r anawsterau prosesu synhwyraidd y mae pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn eu hwynebu. Gan fod hwn yn faes pwysig o ran codi ymwybyddiaeth ar draws yr Awdurdod Lleol, mae'r profiad ar gael i bob gwasanaeth sy'n delio â'r cyhoedd ar draws Conwy, gan gynnwys Tai, Gwasanaethau Hamdden, Llyfrgelloedd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg wrth gwrs. Anfonwyd gwahoddiad at benseiri lleol sy'n gweithio gyda'r Awdurdod Lleol; roedd eu hadborth yn gadarnhaol o ran eu

dealltwriaeth o sut gall yr amgylchedd gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolyn ag anawsterau prosesu synhwyraidd.

Dyma beth ddysgodd cyfranogwyr o'r profiad:

Mae wedi gwneud i mi feddwl mwy am sut mae unigolyn ag awtistiaeth yn meddwl a gweld pethau o'u hamgylch, a'u ffordd o ryngweithio yn eu hamgylchedd.

Bod yn fwy ymwybodol o ran cyfathrebu a bod yn ymwybodol o'r amgylchedd ac unrhyw sŵn cefndirol cyn gofyn cwestiynau neu roi cyfarwyddiadau. Roeddwn i wedi bod yn ymwybodol o hyn o'r blaen, ond llwyddodd y Bws Awtistiaeth i ddod â hyn yn fwy byw a'i wneud yn fwy greddfol.

Bod yn fwy ymwybodol o pa mor llethol all mewnbwn synhwyraidd fod wrth ofyn i unigolyn gwblhau tasg neu ddilyn trefn ddyddiol.

Gallwch ddarllen llyfrau neu fynychu hyfforddiant arall, ond roedd hyn yn cynnig mwy o lawer o ddealltwriaeth a dangosodd yn glir faint o effaith mae awtistiaeth yn ei chael ar fywyd bob dydd yr unigolion rydym ni'n eu cefnogi a beth allent orfod delio ag ef bob dydd. Nid oeddwn i wedi sylweddoli pa mor anodd yw hi.

### Beth oedd yr heriau?

Mae codi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod hyn yn berthnasol ar lefel drawsbynciol i bob adran wedi bod yn her. Rydym hefyd yn ymwybodol o flaenoriaethau eraill o ran pa hyfforddiant ddylai fod yn orfodol, yn enwedig o ystyried capasiti pobl i gwblhau popeth sy'n ofynnol ohonynt.

### Beth nesaf?

Byddwn ni'n parhau i gomisiynu'r Bws Profiad Realaeth Awtistiaeth, ar sail yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan gyfranogwyr. Roedd yr adborth yn awgrymu y byddai hyn o fudd i rieni plant ag anawsterau prosesu synhwyraidd hefyd.

Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi lansio 2 fodiwl newydd:

- Modiwl 1: Deall Awtistiaeth (hoffem i hwn fod yn orfodol ar draws yr Awdurdod Lleol)
- Modiwl 2: Deall cyfathrebu effeithiol ac Awtistiaeth

Rydym wedi comisiynu Hyfforddiant Prosesu Synhwyraidd arbenigol ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol, Cynorthwywyr Therapi Galwedigaethol a staff cefnogi mewnol yn y Gwasanaeth Anableddau.

## Plant a phobl ifanc yn cael mynegi eu barn trwy ap Mind of My Own

Mae Mind of My Own yn system ar y we er mwyn i blant a phobl ifanc gyfathrebu â'r gweithwyr proffesiynol yn eu bywydau. Yn strategol, y nodau yw annog lefelau uwch o gyfranogiad mewn adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynadleddau Amddiffyn Plant fel bod barn a dewisiadau'r plentyn yn fwy amlwg. Mae sesiynau hyfforddiant misol wedi'u darparu ac mae pob tîm yn y Gwasanaethau Plant wedi dechrau defnyddio'r apiau gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r apiau'n caniatáu i bobl ifanc rannu newyddion da gyda'u gweithwyr, a chreu proffiliau un dudalen gan ddefnyddio'r nodwedd "This is me" yn yr ap, ymhlith llawer o ddewisiadau eraill. Mae dwy fersiwn o'r ap, mae un wedi'i dylunio ar gyfer plant iau a rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff ffeithlun misol ei rannu gyda thimau, i annog rhannu enghreifftiau o arfer da, ac i annog rhagor o staff i ddefnyddio'r system newydd werthfawr hon fel rhan o'u pecyn gwaith cyffredinol.

Cynhaliwyd archwiliad ar ddiwedd haf 2022 i ganfod ansawdd "llais y plentyn" mewn adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Dangosodd yr archwiliad ddarlun cadarnhaol iawn. O'r 20 o achosion a archwiliwyd, barnwyd bod 16 yn 'Dda', 3 yn 'Rhagorol' ac 1 yn 'Ddigonol'. Mae hyn yn dystiolaeth dda ein bod ni fel adran yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn dda iawn, a bod Mind of My Own yn cyfrannu at y llwyddiant hwnnw.

Mae adborth o'r grŵp "Lleisiau Uchel" yn awgrymu nad yw'r mwyafrif o bobl ifanc yn dymuno mynychu eu hadolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn bersonol, felly mae Mind of My Own yn ffordd wych iddynt roi gwybod i bobl beth sy'n bwysig iddyn nhw, yn eu geiriau eu hunain, yn eu hamser eu hunain.



## Beth oedd yr heriau?

Mae gweithredu system newydd fel Mind of My Own yn cymryd amser, ac mae wedi bod yn heriol ar ôl y pandemig, a thrwy gyfnod lle'r oedd llwythi achosion staff yn uchel oherwydd problemau staffio.

Mae gan staff ddulliau a dewisiadau presennol ar gyfer dulliau cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc, ac mae'n bosibl y bydd rhai grwpiau (hŷn) o bobl ifanc wedi gweld yr apiau a chredu eu bod yn fwy addas ar gyfer plant iau.

Mae llawer o ofalwyr maeth wedi croesawu'r system newydd gan ddweud bod y plant yn eu gofal wedi mwynhau ei defnyddio. Mae rhai wedi'i chael yn anodd delio â'r agweddau technoleg, ac mae sesiynau ac arddangosiadau ychwanegol wedi'u darparu. Mae sesiynau wedi'u darparu ar gyfer Asiantaethau Maethu Annibynnol hefyd.

Yr her wrth symud ymlaen fydd hyrwyddo defnydd parhaus o'r ap ochr yn ochr â ffyrdd ystyrlon eraill o ymgysylltu ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

## Beth nesaf?

Mae Mind of My Own wedi'i ariannu ar gyfer y tair blynedd nesaf, sy'n cynnig cyfle gwych i barhau i gynyddu buddion y system. Rydym yn parhau i ddarparu sesiynau hyfforddiant misol i staff, a chefnogi gofalwyr maeth

trwy fynychu eu boreau coffi bob deufis. Mae'r tîm maethu yn addasu eu 'blychau croeso' i gynnwys deunyddiau i gefnogi defnyddio Mind of My Own, yn enwedig pan fydd plant yn dod i mewn i'r system ofal am y tro cyntaf. Mae'r Canolfannau Teuluoedd yn dechrau ei ddefnyddio hefyd.  Yng Nghonwy, byddwn ni'n parhau i ddefnyddio Mind of My Own er mwyn annog plant a phobl ifanc i rannu eu llais, er mwyn eu cadw'n ddiogel, gwirio eu lles a gwella ein gwasanaethau iddyn nhw'n barhaus.

## Swyddog Arweiniol Awtistiaeth Conwy a Sir Ddinbych

Yn 2020-21, cytunodd Grŵp Budd-ddeiliad Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Conwy a Sir Ddinbych i gefnogi cynnig i gyflogi Arweinydd Awtistiaeth i weithio ar draws y ddau Awdurdod Lleol. Cychwynnodd swyddog newydd ym mis Mawrth 2023, a bydd yn arwain ar yrru gweithrediad Cod Ymarfer Sbectrwm Awtistig Llywodraeth Cymru ar draws Conwy a Sir Ddinbych. Byddant hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Budd-ddeiliad i ddatblygu cynllun gweithredu lleol ar y cyd a fydd yn adeiladu ar Gynlluniau Gweithredu Cod Ymarfer yr Awdurdod Lleol a chael ei gyd-gynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad go iawn. Byddan nhw'n gweithio ochr yn ochr â'r swyddog Cydweithio Rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb dros gydlynu gweithredu'r Cod yn rhanbarthol.

### Beth oedd yr heriau?

Ar hyn o bryd, mae Awtistiaeth yn effeithio ar 1-2% o boblogaeth y DU; sef 1 o bob 100 o blant a 2 o bob 100 o oedolion. Ar sail y boblogaeth bresennol o 118,184 a bod 16.7% rhwng 0 a 15 oed, byddwn yn amcangyfrif bod 198 o blant ag Awtistiaeth yng Nghonwy a 2,359 o oedolion (dogfen ymchwil proffil poblogaeth Conwy Hydref 21). Poblogaeth Sir Ddinbych yw 98,800, ac mae 16.5% dan 16 oed, felly mae tua 163 o blant ag Awtistiaeth a thua 1,973 o bobl ag Awtistiaeth. Ar draws y ddau Awdurdod Lleol, mae hon yn boblogaeth bosibl sylweddol (4,963) i ddarparu cefnogaeth iddynt o ran bwriad y Cod Ymarfer ar gyfer darparu Gwasanaethau Awtistiaeth. Ni fydd angen cefnogaeth Gofal Cymdeithasol ar lawer ohonynt, ond bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried eu hanghenion fel dinasyddion lleol sy'n cael amrywiaeth eang o wasanaethau gan y Cyngor.

Bydd angen i'r Arweinydd Awtistiaeth ystyried sut mae angen i bolisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol gael eu haddasu neu eu diwygio i sicrhau eu bod yn ystyried anghenion amrywiol pobl ag Awtistiaeth a chyflyrau niwroddatblygol, gan wneud argymhellion fel bo'n briodol. Lle bo angen, mae'n bosibl y bydd angen i'r Arweinydd Awtistiaeth weithio gyda swyddogion i greu polisïau a gweithdrefnau newydd sy'n benodol i anghenion pobl ag Awtistiaeth.  Er enghraifft, mae'r Bwrdd Diogelu wedi drafftio polisi 'Arfer Diogelu gyda Phobl Awtistig' yn ddiweddar y bydd angen ei weithredu yng Nghonwy a Sir Ddinbych a gallai effeithio ar bolisïau a gweithdrefnau presennol yr Awdurdod Lleol. Gallai hyn hefyd gynnwys polisïau corfforaethol, er enghraifft mewn perthynas â derbynfeydd a chyngor am gyfathrebu effeithiol gyda chwsmeriaid sy'n Awtistig neu sydd â Chyflyrau Niwroddatblygol. Byddai angen i ni ystyried sut mae angen addasu ein ffurflenni a'n systemau gwybodaeth hefyd er mwyn diwallu anghenion amrywiol dinasyddion Conwy.

### Beth nesaf?

Bydd angen i'r Swyddog Arweiniol gymryd cyfrifoldeb dros weithredu cynlluniau gweithredu lleol Awtistiaeth mewnol unigol Conwy a Sir Ddinbych. Mae strwythurau mewnol Conwy a Sir Ddinbych wedi'u trefnu'n eithaf gwahanol, a bydd angen i'r Arweinydd ymgyfarwyddo â'r ddau er mwyn gweithredu'r cynlluniau'n effeithiol. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar

- Godi ymwybyddiaeth o Gyflyrau'r Sbectrwm Awtistig ymhlith staff
- Sicrhau bod llwybr atgyfeirio di-dor rhwng Conwy a Sir Ddinbych
- Nodi bylchau o ran darpariaeth a chomisiynu'n briodol i fynd i'r afael â nhw
- Creu Cynllun Gweithredu Cyflyrau'r Sbectrwm Awtistig Conwy a Sir Ddinbych mewn partneriaeth ag amrywiaeth o wasanaethau a phartneriaid
- Cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau i gefnogi pobl ag amrywiaeth o gyflyrau niwroddatblygol

## Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mae gennym brosesau a gweithdrefnau diogelu mewn grym i gefnogi plant a phobl ifanc i'w dysgu sut i wneud dewisiadau. Credwn fod hyn yn rhan hanfodol o'u datblygiad. Rydym yn ceisio'n barhaus i roi'r rhyddid iddynt wneud penderfyniadau am leoliadau, pwy sy'n rhan o gyfarfodydd a chynlluniau ymyrraeth er mwyn meithrin eu hyder. Rydym yn deall a chydnabod y gallai pobl ifanc â hanes o drawma ei chael hi'n heriol gwneud dewisiadau. Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc i ganfod eu dewisiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas.

Mae ein hymyrraeth wedi'i threfnu yn cefnogi ac annog cyfranogiad teuluoedd a gofalwyr ym mhob agwedd ar ein gwaith hefyd, pan fo'n ddiogel a phriodol i wneud hynny. Trwy ein hymyrraeth wedi'i threfnu a systemau adborth, rydym yn cefnogi teuluoedd i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'w gilydd, a gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu newid cadarnhaol. Ar hyn o bryd, rydym yn eirioli dros greu Swyddog Rhianta yn y gwasanaeth i ddatblygu'r agwedd hon o waith ymhellach.

### Dull gweithredu plentyn yn gyntaf a nodi trawma

Fel gwasanaeth, rydym wedi mabwysiadu a gweithredu dulliau sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o drawma wrth ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar greu perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr drwy ddarparu diogelwch, ymddiriedaeth, dewis, cydweithrediad a grym.

Trwy'r dull sy'n ystyriol o drawma, rydym wedi cefnogi ymarferwyr i fabwysiadu'r arfer hon ar gyfer yr holl waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### Pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud?

Trwy weithredu'r dull hwn, rydym wedi gallu:

- Cyflwyno prosesau a gweithdrefnau diogelu i gefnogi plant a phobl ifanc i'w dysgu sut i wneud dewisiadau a fydd, yn ei dro, yn meithrin eu hannibyniaeth. Rydym yn cydnabod y gallai pobl ifanc â hanes o drawma ei chael hi'n heriol gwneud dewisiadau.
- Canfod barn a dewisiadau y bobl ifanc rydym ni'n gweithio gyda nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas. Teimlwn fod hyn yn eu cefnogi i ddatblygu hunan-barch a hyder.
- Sicrhau ein bod yn cydweithio. Mae cydweithio yn rhan o bob math o ryngweithio byddwn ni'n ei wneud fel gwasanaeth, gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni, gofalwyr, asiantaethau partner a chydweithwyr.
- Cynnwys prosesau sy'n sicrhau ein bod yn cwrdd yn rheolaidd ac adolygu cynlluniau ymyrraeth a chefnogaeth, a chynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau am eu cynlluniau ymyrraeth a chyswllt.
- Annog a rhoi cyfle i ymarferwyr ddod i adnabod pobl ifanc, a dangos ein bod yn malio fel gwasanaeth trwy annog ethos sy'n dangos ein bod yn gweithio gyda nhw, nid arnyn nhw.
- Hyrwyddo'r defnydd o iaith gadarnhaol gyda phobl ifanc ac eirioli ar eu rhan. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu gan adborth gan bobl ifanc a theuluoedd a gaiff ei gasglu trwy ein prosesau adborth.
- Targedu cyfranogiad rhieni a gofalwyr. Rydym wedi darparu ymyrraeth wedi'i threfnu i gefnogi ac annog cyfranogiad teuluoedd a gofalwyr ym mhob agwedd ar ein gwaith, pan fo'n ddiogel a phriodol i wneud hynny.

### Beth oedd yr heriau?

Bu nifer o heriau wrth weithredu'r dull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf ac sy'n ystyriol o drawma. Ers pandemig Covid-19, bu angen i ni ailsefydlu trefniadau cyswllt a pherthnasoedd gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Safon Ansawdd 2: Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys, sy'n cael cefnogaeth ac sy'n gweithio tuag at weledigaeth a rennir.

## Ymyrraeth Gynnar - Ffiniau Gofal

Mae'r Tîm Cryfhau Teuluoedd yn arwain ar Baneli Ffiniau Gofal, Ymyrraeth Gynnar a'r Cham-drin Domestig. Pwrpas y paneli amlasiantaethol hyn yw rhannu gwybodaeth a chynllunio ar gyfer cefnogaeth amserol, wedi'i thargedu i gynyddu diogelwch, lleihau risgiau a gwella swyddogaeth a lles teuluoedd.

Mae'r Panel Ffiniau Gofal yn ymgynnull yn wythnosol ac yn cynnwys mynychwyr o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) Cynadledda Grŵp Teulu, Gwasanaethau Ieuenctid, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a Gofalwyr Ifanc fel aelodau hirsefydlog. Mae'n gyfarfod deinamig lle mae dull Arwyddion Diogelwch yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ystyried dangosyddion diogelwch o fewn teulu. Mae cynllun yn cael ei drafod ac adnoddau'n cael eu dyrannu, os oes angen, i helpu sefydlogi a chryfhau sefyllfa'r plentyn a'r teulu.

Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2022, trafodwyd cyfanswm o 57 o deuluoedd yng nghyfarfodydd y Panel Ffiniau Gofal. Trafodwyd 23 teulu pellach yng nghyfarfodydd y Panel Ymyrraeth Gynnar.

## Y Prosiect Turnaround

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych wedi bod yn paratoi i ddarparu Prosiect Turnaround y Weinyddiaeth Gyfiawnder o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r rhaglen wedi cael ei dylunio drwy ddefnyddio dull Cymorth Cynnar er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i wella canlyniadau i blant ar ymylon y system gyfiawnder. Nod pennaf y rhaglen yw atal pobl ifanc rhag troseddu neu ail-droseddu drwy:


- Gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant, gyda'r nod o'u hatal rhag troseddu
- Adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i gynnal i sicrhau fod plant sydd ar ffin y system gyfiawnder ieuenctid yn cael cynnig asesiad o anghenion yn rheolaidd, yn ogystal â'r cyfle am gefnogaeth.
- Gwella iechyd meddwl a lles cymdeithasol-emosiynol plant
- Gwella integreiddiad a gwaith partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a gwasanaethau statudol eraill i gefnogi plant.

Bydd y model darpariaeth Turnaround yn defnyddio dull gweithredu Cymorth Cynnar sydd wedi bod yn llwyddiant gyda rhaglenni ymyrraeth gynnar tebyg, megis Cefnogi Teuluoedd. Mae dadansoddiad o effaith pum mlynedd o raglen ymyrraeth gynnar Cefnogi Teuluoedd yn dangos gostyngiad o 38% mewn dedfrydau o garchar ymysg yr ifanc, a gostyngiad o 15% mewn euogfarnau ymysg yr ifanc o fewn y cohort.

## Beth nesaf?

Fel gwasanaeth, bydd disgwyl i ni weithio gyda 38 o bobl ifanc bob blwyddyn. Byddwn yn darparu cefnogaeth Cymorth Cynnar wrth asesu a mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol a ffactorau risg sydd efallai wedi dod â'r plentyn i gyswllt gyda'r system gyfiawnder, gyda'r nod o ddarparu datblygiad cadarnhaol. Disgwylir mai'r heddlu a'r llysoedd fydd yn gwneud atgyfeiriadau'n bennaf i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ond gall unrhyw ymarferydd sydd wedi cael cyswllt gyda'r plentyn, yn ogystal â rhieni'r plant wneud hefyd.

Mewn ymateb i'r fenter ddwy flynedd newydd hon, cafodd dwy swydd cyfnod penodol newydd eu creu o fewn y gwasanaeth, ac rydym yn y broses o recriwtio i'r swyddi hyn ar hyn o bryd.



## Ehangu'r Tîm Lles Meddyliol

Roedd y Tîm Lles Meddyliol y bwriadu ehangu eu cefnogaeth ers ei gychwyn yn ystod y pandemig, ac mae eu cynlluniau wedi bod yn llwyddiannus. Rydym wedi recriwtio i swydd Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, sy'n ddarpariaeth statudol, ofynnol gan Awdurdodau Lleol, ac sy'n rôl broffesiynol, arbenigol. Cyfrifoldeb allweddol Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yw gwneud ceisiadau ar gyfer cadw unigolion yn yr ysbyty, gan sicrhau bod y Ddeddf Iechyd Meddwl a'i Chod Ymarfer yn cael ei ddilyn.

### Pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud?

Mae'r data rydym yn ei gasglu am y gwasanaeth hwn (a ddarperir yn ystod oriau swyddfa) yn dangos cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy ers y pandemig; gyda 292 atgyfeiriad yn cael eu cofnodi yn 2022, 15 yn fwy na llynedd. Mae'r tîm wedi cefnogi myfyriwr sy'n astudio i gymhwyso fel Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ystod y flwyddyn hefyd, ac wedi nodi bod y mwyafrif o Weithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy nawr wedi'u hyfforddi mewn Rheolaeth Ymddygiad Cadarnhaol i gynorthwyo gwaith gydag unigolion sydd o bosib yn dreisgar.

Fe wnaethom benodi Gweithiwr Cymdeithasol Adran 117 sy'n gyfrifol am gefnogi'r broses ôl-ofal ar gyfer unigolion sydd wedi cael eu hanfon i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chael eu hanfon o'r ysbyty wedi hynny. Mae oddeutu 298 o bobl yng Nghonwy sy'n gymwys am gymorth A117, ac mae cael gweithiwr cymdeithasol ymroddedig a phrofiadol yn y swydd hon yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol ac yn gymesur, a bod eu llais yn cael eu clywed, eu bod yn cael eiriolaeth, ac i ddarparu adolygiad parhaus i osgoi methiant mewn lleoliadau.

Yn ogystal â hynny, gan ddefnyddio cyllid gan y Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal, fe wnaethom recriwtio Gweithiwr Ymyrryd a Gweithiwr Cefnogaeth Gymunedol ychwanegol a fydd yn darparu cefnogaeth ddwys am gyfnod byr, wedi'i llunio i helpu unigolion mewn ffordd strwythuredig, dan arweiniad yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar adfer ac osgoi argyfwng lle bo hynny'n bosibl a helpu'r unigolyn i adennill sefydlogrwydd. Yn y pendraw, byddai'n fuddiol petai'r swydd hon yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n cofrestru gyda'r Coleg Adfer, i hwyluso'r cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar adfer, ac i'w helpu i gyrraedd eu nodau a'u dyheadau o fewn y lleoliad hwnnw.

### Beth oedd yr heriau?

Ar gyfer y gwasanaeth Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, mae'r gwaith ei hun yn heriol iawn, sef ymdrin â phobl sâl iawn yn y gymuned. Serch hynny, mae'r prif heriau o ran darpariaeth y gwasanaeth yn parhau i fod yn systemig yn nhermau diffyg argaeledd Meddygon Adran 12(2) cymeradwy (a all argymell derbyniad gorfodol ar gyfer asesiad neu driniaeth dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983), oedi wrth i ambiwlansys gyrraedd i gludo'r unigolyn i'r ysbyty, a diffyg cyffredinol o ran gwlâu priodol. Mae hyn yn golygu y gall asesiad llawn gymryd hyd at 15 awr, ac yn aml, mae'n rhaid derbyn yr unigolyn tu allan i'r sir.

### Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, yn ogystal â siwrnai adfer yr unigolyn. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth ymatebol ac yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i ddatblygu strategaethau i oresgyn y problemau gyda'r broses, sy'n creu rhai o'n heriau.

## Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol o fewn Gwasanaethau Anableddau

Mae Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol yn ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gefnogi pobl ag anabledd dysgu, yn enwedig os ydynt wedi'u haflonyddu, ac mewn perygl o niweidio eu hunain. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar weithio gyda phobl a'u rhwydwaith cymorth i ddeall pam maent wedi'u haflonyddu, yr effaith mae'r amgylchedd yn ei gael arnynt, a'r ffyrdd gorau i'w cadw'n ddiogel ac yn hapus.

Rydym wedi cefnogi rhai o'n haelodau staff sy'n ymdrin ag anableddau i fynychu hyfforddiant er mwyn ennill cymwysterau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol. Mae'r hyfforddiant trosolwg wedi cael ei lunio gan Gydlynydd a Rheolwr Tîm mewnol, ac mae wedi cael ei beilota gyda thîm o Weithwyr Cefnogaeth Sesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag anghenion cefnogaeth cymhleth.

Lluniwyd ffurflenni i alluogi'r gweithwyr cefnogi ysgrifennu adroddiadau yn ystod, neu ar ôl pob sesiwn cefnogaeth, gan alluogi dadansoddiad o ymddygiadau a nodi'r strategaethau i gefnogi'r unigolyn i deimlo'n dawelach yn ystod y dydd. Sefydlwyd gweithgor Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, sy'n cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, rheolwyr a Gweithwyr Cefnogi, sydd wedi dechrau casglu syniadau ar sut i fewnosod Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol ar draws y Gwasanaeth Anableddau cyfan.

I'r sawl sydd wedi cwblhau cymwysterau a hyfforddiant, dechreuwyd defnyddio Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol fel ymarfer bob dydd i wella bywydau'r sawl sy'n derbyn gwasanaethau. Bellach rydym yn:

- Cynnal cyfarfodydd tîm wythnosol sy'n canolbwyntio ar un unigolyn, gan nodi beth sy'n mynd yn dda, beth sydd angen newid, a chyfleoedd newydd
- Adnabod dangosyddion cynnar bod unigolyn yn symud i ffwrdd o'u 'llinell sylfaen', ac yn gallu gweithredu strategaethau i leihau'r angen iddynt arddangos ymddygiadau i gyfathrebu eu hanghenion
- Rhoi mwy o ddewisiadau i'r sawl rydym yn eu cefnogi, mewn perthynas â'r gweithgareddau yr hoffant eu gwneud
- Cymryd risgiau cadarnhaol, sydd yn ei dro'n creu cyfleoedd newydd ac yn adeiladau sgiliau ar gyfer y bobl rydym yn eu cefnogi

O ganlyniad i weithredu'r Gefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, rydym wedi gweld:

- Gostyngiad mewn ffurflenni digwyddiadau
- Gwell cyfathrebu rhwng y gwasanaeth a theuluoedd
- Gwelliant i fywydau pobl ag anableddau
- Gostyngiad yn yr angen am leoliadau arbenigol tu allan i'r sir, gan alluogi pobl sy'n derbyn gwasanaethau i aros yn agos i deulu a ffrindiau
- Llai o alw am fewnbwn gan wasanaethau Iechyd
- Gwelliant i waith amlasiantaethol
- Gostyngiad i ddefnydd 'ymarfer cyfyngol'

## Beth oedd yr heriau?

Mae'r cymwysterau'n fanwl, ac yn gofyn bod aseiniadau a gwaith papur sy'n gysylltiedig â Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol yn cael eu cwblhau. Mae'n cynnwys sylwadau'r unigolyn, siarad â phawb sy'n ymwneud â hwy i gasglu gwybodaeth, rhoi'r addysg ar waith, a hyfforddi eraill i roi'r addysg ar waith. Mae hyn yn ychwanegol at brif swyddi aelodau staff, rheoli amser eu llwyth gwaith ac ymrwymiadau eraill.

Nid pawb sydd eisiau cymryd rhan yn y Gefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, efallai oherwydd diffyg dealltwriaeth am beth mae'n ei olygu, a pheidio gweld y newidiadau cadarnhaol all hyn ei wneud, a'r amser sydd ei angen i wneud y newidiadau cadarnhaol hynny.

Mae ymrwymiadau eraill o ran llwyth gwaith y gweithgor Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol yn lleihau'r amser sydd ganddynt i allu ymrwymo i'r fenter hon a symud y newidiadau ymlaen.

## Beth nesaf?

Rydym yn gobeithio cyflwyno'r cymhwyster Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol i staff rheng flaen, a datblygu hyfforddiant i nodi'r prif egwyddorion. Hoffwn ddatblygu hyfforddiant ar gyfer teuluoedd hefyd, i'w helpu i ddeall cynlluniau Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, y derminoleg gysylltiedig, a pha newidiadau all eu helpu yn eu cartrefi.

Byddwn yn cefnogi darparwyr cymorth i uwchsgilio eu gweithlu gydag ymarfer Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, ac yn ei dro, cynyddu cyfleoedd i bobl gydag anableddau sy'n byw yng Nghonwy.

Byddwn yn parhau i leihau'r angen am leoliadau tu allan i'r sir, a dychwelyd pobl i'r sir drwy ddatblygu llety sy'n addas i anghenion yr unigolyn.

## Adborth gan staff ar ôl mynychu cyrsiau a hyfforddiant

Mae'r Tîm Gweithlu a Datblygu wedi cwblhau gwerthusiad o gyrsiau hyfforddiant, sydd wedi amlygu rhwystrau sylweddol i weithwyr Gofal Cymdeithasol a gweithwyr sy'n derbyn hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth, ac ar-lein.

### Beth oedd yr heriau?

Mae cynyddu hygyrchedd i hyfforddiant ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi bod yn heriol. Yn ogystal â hynny, mae heriau mewn perthynas â recriwtio wedi effeithio ar allu cyflogwr yn y maes Gofal Cymdeithasol i ryddhau ei weithwyr i fynd i hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth.

Mae hyfforddiant ar-lein yn cynnig rhagor o gyfleoedd o ran mynediad, gan ei fod yn osgoi amser teithio i ystafell ddosbarth. Serch hynny, mae angen dyfais ddigidol addas ar weithwyr i gael mynediad i'r hyfforddiant. Mae angen sgiliau a hyder arnynt i ddefnyddio'r fath ddyfais hefyd.

### Beth nesaf?

Rydym yn gweithio ar fodel darparu hyfforddiant newydd i gynyddu hygyrchedd. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant craidd yn y gweithle. Yn ogystal â hynny, bydd yn cynyddu mynediad at addysg ar-lein drwy ddarpariaeth llechen ddigidol a chefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r dyfeisiau.

## Ymgynghori â'n staff rheng flaen

Rydym yn gofyn i'r staff sy'n gweithio yn ein timau cefnogaeth rheng flaen yn rheolaidd am eu barn am eu rolau, ac ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu ganddyn nhw a'u gwasanaethau. Rydym wedi nodi rhai o'r ymatebion a'r adborth isod.

### Gweithwyr gofal cartref sy'n helpu unigolion ag anableddau

- Roedd 100% o ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gyflawni eu rolau
- Roedd 96% yn cytuno, fel tîm, ein bod yn gwrando ar yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi ac yn sicrhau bod ganddynt hawliau ac yn gallu gwneud dewisiadau
- Roedd 100% yn teimlo, fel tîm, ein bod yn cefnogi unigolion i fyw bywydau llawn ac yn cefnogi eu hiechyd a'u lles
- Roedd 96% yn teimlo, fel tîm, ein bod yn helpu unigolion i amddiffyn eu hunain a chadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Sgoriodd pob ymatebwr berfformiad cyffredinol eu tîm yn dda iawn neu'n rhagorol

Gofynnwyd i gyfranogwyr am yr hyn y mae eu gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

> Mae'r gwasanaeth yn agor drysau i roi cyfleoedd i unigolion gyflawni / cyrraedd eu hamcanion, breuddwydion a dymuniadau. Mae'r gwasanaeth yn cynnig pecynnau gofal gwych ar gyfer unigolion ac yn trin pawb fel unigolyn ac yn gweithio'n galed i gyflawni'r gefnogaeth gywir ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

> Gwrando ar a gweithredu ar anghenion y plant / bobl ifanc yr ydym ni'n eu cefnogi. Cefnogi staff a gwneud iddynt deimlo'n werthfawr. Mynd yr ail filltir!

Gofynnont hefyd beth yw rhan orau eu swydd:

Pan fydd pethau'n llwyddo; sylwi ar newid mewn cyfathrebu, gweld y rhwystr hwnnw rhwng staff a'r unigolyn yn dod lawr wrth i'r ymddiriedolaeth gynyddu…

Gwybod eich bod wedi cael effaith gadarnhaol ar ddiwrnod rhywun.

Gweld pobl ifanc yn cyflawni rhywbeth, dim ots pa mor fach. Gweld pobl ifanc yn mwynhau gwneud rhywbeth. Ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r bobl ifanc yr ydw i'n eu cefnogi.

Gofynnom i bobl ifanc sy'n gweithio ar y cyd â'r timau anabledd mewnol am eu barn am ansawdd y gwasanaeth. Cawsom ymatebion gan y timau ymarferwyr sy'n gweithio gydag unigolion dan 25 oed, dros 25 oed ac yn y gwasanaethau dydd.

- Roedd 100% yn teimlo ein bod yn gwrando ar y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau am y gofal a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei gael a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.

Mae'r tîm yn canolbwyntio'n arw ar yr unigolyn a'r unigolyn sydd wrth wraidd y gofal a'r gefnogaeth. Maent yn meddwl yn greadigol a 'thu hwnt i'r ffiniau'. Mae hyn yn amlwg yn y tîm rheoli ac rydw i'n teimlo ei fod yn treiddio lawr i'r staff i gyd hefyd.

- Roedd 94% yn teimlo bod y tîm yn ymateb mewn ffordd amserol pan fyddant yn cysylltu â nhw gydag ymholiad
- Roedd 100% ohonynt yn teimlo bod y tîm yn ymateb ar unwaith i geisiadau pan fo pryderon am unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth yn codi.
- Roedd 100% ohonynt yn teimlo bod y tîm yn ymateb yn briodol i geisiadau pan fo pryderon am unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth yn codi.
- Mae 100% yn cytuno bod y gwasanaeth yn cefnogi unigolion i aros yn hapus ac yn iach.

Mae cefnogaeth gan y tîm yn galluogi teuluoedd a phlant i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd na fyddai ar gael iddynt fel arall, gan gynnig cyfnodau o seibiant i rieni, a chynnig perthnasau proffesiynol a gofalgar i'r plant.

- Roedd 100% yn teimlo bod y gwasanaeth yn helpu pobl ifanc i'w hamddiffyn eu hunain a chadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Roeddwn i'n rhan o achos penodol…lle aeth y tîm yr ail filltir wrth ddarparu gofal i'r plentyn. Fe wnaethant godi pryderon pan roeddent yn teimlo nad oedd asiantaethau eraill yn darparu'r gofal priodol.  Fe wnaethant drin y plentyn gyda pharch, trugaredd ac empathi.

- Roedd 100% yn teimlo bod y gwasanaeth yn hyblyg ac yn addasadwy er mwyn bodloni anghenion yr unigolyn a gynorthwyir.
- Ceisiwyd enghreifftiau o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, ac ymatebodd y cyfranogwyr gyda llawer o enghreifftiau, rhwng unigolion, timau mewnol, gwybodaeth a rhannu sgiliau a sefydliadau partner, megis Iechyd.

## Gweithwyr gofal gartref Pobl Hŷn

Fel rhan o'n cyfres o arolygon, gofynnom i weithwyr gofal gartref pobl hŷn am eu barn am y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu a'r gefnogaeth maen nhw'n gael gan y rheolwyr.

- Roedd 90% yn teimlo eu bod yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth oruchwyliol angenrheidiol gan eu rheolwr i wneud eu swyddi.
- Roedd 100% yn cytuno, fel tîm, eu bod yn gwrando ar yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi ac yn sicrhau bod ganddynt hawliau ac yn gallu gwneud dewisiadau
- Roedd 94% yn teimlo, fel tîm, eu bod yn cefnogi unigolion i fyw bywydau llawn ac yn cefnogi eu hiechyd a'u lles

Rydw i'n ymweld â'r rhai sy'n rhan o'm llwyth achosion yn ddyddiol neu'n wythnosol i'w monitro, eu cefnogi, eu helpu a'u cyfeirio i hwyluso eu hanghenion a gwrando arnynt a phawb o'u cwmpas.

Drwy annog unigolion i wneud gymaint ag y gallent eu hunain, datblygu eu hunan-barch a chodi eu hunan-hyder. Hefyd, annog unigolion i fynychu clybiau cinio a digwyddiadau cymdeithasol eraill fel y gallent ddatblygu cyfeillgarwch gyda'u grwpiau oedran eu hunain a chael pethau i edrych ymlaen atynt.

- Roedd 97% yn teimlo bod y gwasanaeth yn helpu unigolion i amddiffyn eu hunain a chadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Mae 54% yn rhoi sgôr o bump allan o pump a 34% yn rhoi sgôr o bedwar.

Rydw i'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr ydw i'n gweithio ynddo. Rydw i'n mwynhau cael mynediad agored a llawn i bob gwasanaeth sy'n fy ngalluogi i atgyfeirio unigolion ar garlam i'r cymorth a'r gofal

Yn yr amgylchedd yma sy'n gweithredu'n gyflym, rydw i'n gweld bod rhannu gwybodaeth yn beth da iawn a gwrandewir a gweithredir ar unrhyw bryderon / newidiadau ar unwaith.

Mae'r sylwadau ychwanegol yn awgrymu, er gwaethaf yr heriau cyfredol yn y maes gofal cymdeithasol, bod y timau'n parhau'n gadarnhaol ac yn benderfynol o ddarparu'r gofal gorau posib i bobl hŷn yng Nghonwy.

Holom gydweithwyr o'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymdeithasau Tai am eu barn am berfformiad y gwasanaeth hwn. Unwaith eto, roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda chydnabyddiaeth bod y galw ar y timau gofal gartref yn uchel.

- Roedd 100% yn teimlo ein bod yn gwrando ar yr unigolion rydym ni'n eu cefnogi, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau am y gofal a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei gael a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw
- Roedd 96% yn teimlo ein bod yn ymateb mewn modd amserol i ymholiadau ac mae 100% yn teimlo ein bod yn ymateb yn brydlon ac yn briodol i bryderon am unigolion yn cael mynediad at y gwasanaeth.
- Mae 100% yn teimlo ein bod yn cefnogi unigolion i aros yn hapus ac yn iach.
- Roedd 100% yn teimlo bod y gwasanaeth yn helpu unigolion i'w hamddiffyn eu hunain a chadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Mae 91% yn teimlo bod y gwasanaeth yn hyblyg ac yn gallu addasu er mwyn bodloni anghenion yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi, gyda sylwadau ychwanegol sy'n gwerthfawrogi bod hyn yn digwydd pan fo pwysau o ran staffio a gallu ac amser yn codi.

Rydw i wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r Tîm Ail-alluogi sawl gwaith ac rydw i'n ystyried eu staff yn gefnogol ac maent yn ymgysylltu'n dda gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.  Maen nhw'n darparu gwasanaeth lefel uchel o ansawdd, maen nhw'n gallu ymdrin ag argyfyngau pan fyddant yn codi, ac [maen nhw'n] adnodd gwych yn y gymuned.

Yn ystod un o'r streiciau ambiwlansys, ni wnaeth un o'r uwch ofalwyr betruso dim rhag fy nghefnogi gyda defnyddiwr gwasanaeth. Yn ystod Covid, y gofalwyr oedd ein llygaid a'n clustiau ac os oedd ganddyn nhw bryderon am ddefnyddiwr gwasanaeth, roeddent yn rhoi gwybod i mi ar unwaith.

# Atal

Safon Ansawdd 3: Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl.

## Rhoi unigolion wrth galon ein gwasanaethau Pobl Hŷn

Mae ein prosiect Gofal Cartref Pobl Hŷn yn mynd rhagddo, gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, ac yn hyrwyddo'r egwyddor o lais, dewis a rheolaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym eisiau cefnogi ac adeiladu gwasanaeth cartref mwy cadarn ar gyfer y dyfodol hefyd, a galluogi dull o weithio sy'n cynnwys rhagor o integreiddio a chefnogaeth gyda'n darparwyr. Felly, rydym yn symud i ffwrdd o wasanaethau comisiynu sy'n canolbwyntio ar amser a thasgau, i wasanaethau comisiynu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r unigolyn.

Er mwyn cefnogi ein timau, rydym wedi llunio dogfen canllaw i staff er mwyn esbonio a chefnogi darpariaeth y model newydd, yn ogystal â pholisi newydd mewn perthynas â chymryd risgiau cadarnhaol, sy'n nodi ein dull o weithio tuag at ymarfer sy'n canolbwyntio ar gryfderau a'r unigolyn.

Trefnwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant ar y cyd i staff comisiynu mewnol a darparwyr gofal allanol i gynyddu a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o ddull gweithio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym wedi cynnal adolygiad o'n prosesau mewnol i gyd hefyd, o atgyfeirio i safonau ansawdd a sicrwydd. O ganlyniad, rydym wedi gwneud gwelliannau i'n prosesau system gwybodaeth cleientiaid, gan eu gwneud yn fwy effeithiol, darbodus ac yn addas i'r diben.



Bydd y model comisiynu newydd hwn yn cael ei gyflwyno ar draws ein holl Dimau Adnoddau Cymunedol fesul un. Dyrennir grŵp o ddarparwyr dewisol i bob ardal, a fydd yn cael eu talu ar sail contract bloc, yn hytrach na chontractau yn y fan a'r lle. Bydd maint y contractau bloc yn seiliedig ar weithgarwch comisiynu presennol a byddant yn cael eu cynyddu neu eu gostwng fel bo'r angen. Cafodd dogfen newydd wedi'i

mireinio o Fanyleb y Gwasanaeth ei llunio mewn ymgynghoriad gyda'r darparwyr a fydd yn rhan hanfodol o'r Tîm Adnoddau Cymunedol. Bydd ganddynt fynediad i'r tîm amlddisgyblaethol i drafod achosion, a cheisio cefnogaeth pan mae problemau neu faterion yn codi, i atal eu huwchgyfeirio. Mae'r broses anfonebu nawr wedi cael ei symleiddio, gan fod darparwyr ond angen anfon un anfoneb yn wythnosol neu'n fisol ar gyfer cyfanswm, nid sawl anfoneb ar gyfer pob cleient.

Gan fod cam cyntaf cyflwyno'r prosiect ond wedi digwydd ar 29 Ionawr, 2023, mae'n rhy gynnar i adrodd ar astudiaethau achos penodol, ond bydd cynnydd y cyflwyniad cyntaf yn destun monitro ac adolygiadau cyson a chadarn.

### Beth oedd yr heriau?

Mae'r pwysau staffio presennol ar draws yr holl sector gofal wedi gwneud y prosiect hwn yn heriol iawn, ac mae'r dyddiad 'mynd yn fyw' ar gyfer y newidiadau arfaethedig wedi newid sawl gwaith o ganlyniad i hynny.

Er bod llawer o gefnogaeth a brwdfrydedd ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r sector gofal cartref yn lleol, mae'n deg dweud, er gwaethaf honiadau pawb eu bod eisoes yn gweithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, bydd rhoi'r theori ar waith yn heriol, i staff comisiynu a darparwyr.

### Beth nesaf?

Fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, y cynllun yw cyflwyno'r model mewn dull fesul cam, ar sail bob Tîm Adnoddau Cymunedol unigol. Aeth Tîm Adnoddau Cymunedol Abergele'n fyw ar 29 Ionawr, 2023 a bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n gyson. Unwaith sefydlwyd y model, yna byddwn yn symud ymlaen i ardal y Tîm Adnoddau Cymunedol nesaf.

## Gwaith atal o fewn ein Gwasanaeth Lles Cymunedol

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys nifer o dimau sy'n gweithio gydag unigolion ar gam cynnar i'w helpu i barhau i fod yn annibynnol, manteisio ar wasanaethau a gweithgareddau cymunedol a chadw'n ddiogel yn eu cartrefi.

Mae ein Tîm Derbyn Therapi Galwedigaethol wedi parhau i ymweld â phobl sydd ag anghenion llai dwys gartref, i ddarparu cyfarpar a mân addasiadau, fel canllawiau. Mae'r eitemau hyn yn helpu i atal codymau ac yn cefnogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol gartref, gan leihau'r tebygolrwydd y byddant yn dibynnu ar wasanaethau hirdymor.

Mae'r gwasanaeth Teleofal bellach yn darparu ffurflen ar-lein i bobl allu cofrestru i gael y gwasanaeth yn hawdd a chyflym. Mae gwasanaeth Teleofal sydd wedi'i gysylltu â'r gwasanaeth monitro, Galw Gofal, yn rhoi tawelwch meddwl i bobl, a'u teuluoedd, eu bod yn gallu galw am help os oes angen.

Yn sgil yr argyfwng costau byw, mae'r Tîm Hawliau Lles wedi bod mewn digwyddiadau Croeso Cynnes ac wedi bod yn gweithio i gynghori pobl ynglŷn â thaliadau tanwydd y gaeaf a budd-daliadau eraill er mwyn ceisio helpu pobl i achub y blaen a chael cymaint o incwm ag y gallant. Mae'r tîm hefyd wedi helpu pobl â cheisiadau grant gofalwyr di-dâl, yn enwedig rhai sy'n methu mynd ar y we pan mai ceisiadau ar-lein oedd yr unig ddewis. Mae'r tîm yn parhau i gynorthwyo trigolion Conwy i gael cymaint o incwm ag y gallant trwy sicrhau eu bod yn hawlio'r budd-daliadau lles mae ganddynt hawl iddynt.

Mae'r Tîm Lles Cymunedol wedi parhau i weithio yn ein cymunedau i sicrhau bod ein preswylwyr sydd dros 65 oed yn gallu lleisio barn am y gwaith o ddatblygu gweithgareddau sydd ar gael yn eu hardal nhw. Mae'r tîm yn parhau i gynorthwyo pobl i wneud mwy o weithgareddau a chyfarfod â phobl yn fwy aml, sy'n eu galluogi i fyw'n fwy hapus ac iach.

Mae'r Storfeydd Cyfarpar Cymunedol wedi parhau i ddarparu gwasanaeth pum diwrnod yr wythnos i breswylwyr Conwy, gan gynnwys trwy gydol y pandemig, sydd wedi helpu i leihau neu ohirio achosion o orfod mynd i'r ysbyty a galluogi pobl i adael yr ysbyty. Mae hon yn un o brif swyddogaethau'r tîm i sicrhau bod yr Awdurdod yn ymateb i bwysau rhanbarthol ar wasanaethau ysbyty, gwasanaethau iechyd ehangach a gwasanaethau ambiwlans.

Mae ein Tîm Un Pwynt Mynediad yn parhau i ddarparu gwasanaeth drws ffrynt ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae prosesau'n cael eu harfarnu a'u haddasu drwy'r amser i ddiwallu gofynion ar draws nifer o ffynonellau atgyfeirio. Eleni, mae'r rhain wedi cynnwys newid i sut mae ceisiadau am asesiadau gofalwyr yn cael eu rheoli i leihau'r pwysau ar ein Tîm Gofalwyr mewnol. Rydym hefyd wedi treulio amser yn asesu'r tasgau dyddiol hanfodol o fewn y tîm i leihau'r perygl o waith yn pentyrru yn unrhyw faes gwaith penodol. Rydym wedi addasu ein rota dyddiol i sicrhau bod gweithwyr ar gyfer pob tasg a phennu pa dasgau i'w blaenoriaethu pan mae capasiti staffio yn is na'r isafswm angenrheidiol. Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at allu rheoli'r cyfrif e-bost a'r llinellau ffôn yn well.

## Beth oedd yr heriau?

Mae'r galw ar ein gwasanaeth a'n timau yn aml yn fwy na'r hyn y gallwn ei ddarparu. Pan mae rhestr aros o bobl sy'n dymuno defnyddio ein gwasanaethau, rydym bob amser yn blaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn.

Mae capasiti staffio yn yr adain oherwydd absenoldebau hirdymor a byrdymor wedi rhoi pwysau sylweddol ar staff a rheolwyr oedd yn parhau i weithio, ac rydym wedi cynyddu'r gefnogaeth gan reolwyr atebol ac adnoddau dynol yn ystod y cyfnod.

Mae contractau cyfnod penodol o ganlyniad i gyllid grant yn achosi straen ar staff sy'n disgwyl am ganlyniad penderfyniadau am gyllid yn y dyfodol. Mae hyn yn peri risg i staff adael i fynd i swyddi parhaol.

Mae cyflwyno trefn gweithio'n hybrid, lle mae staff yn gweithio gartref yn rhannol ac yn y swyddfa'n rhannol, wedi rhoi pwysau ar reolwyr sy'n ymdrin â staff sy'n anfodlon dychwelyd i'r swyddfa am gyfran o'u hwythnos waith. Rydym yn parhau i weithio gyda'r aelodau staff hyn i'w hannog i ddychwelyd.

## Beth nesaf?

Byddwn yn edrych ar integreiddio ein swyddogaethau Derbyn Therapi Galwedigaethol a Theleofal ymhellach i ddatblygu mwy o wytnwch at adegau lle mae staff yn gadael, neu pan mae swyddi gwag.

Byddwn yn adolygu timau eraill o fewn ein hadain Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac yn dynodi meysydd i'w gwella, yn enwedig o ran gwytnwch.

Byddwn yn parhau i gefnogi staff i reoli absenoldebau a chychwyn gweithio o'r swyddfa eto.

**Os ydych angen gwybodaeth bellach, cyngor neu gymorth, ewch i'n tudalennau gwe.**

## Diweddaru ein hoffer Teleofal

Mae'r Gwasanaeth Teleofal wedi gweithio'n agos â Storfeydd Cyfarpar Cymunedol i ddatblygu'r ddarpariaeth o unedau monitro digidol i gwsmeriaid sydd â chysylltiadau ffôn digidol newydd. Rydym wedi parhau i ddarparu rhywfaint o gyfarpar 'clyfar' ac arbenigol i gynorthwyo â chefnogi pobl gartref wrth ddefnyddio technoleg. Er enghraifft, gall dyfeisiau GPS helpu pobl gyda dementia cynnar, a gall larymau epilepsi roi tawelwch meddwl i bobl sy'n byw gyda'r cyflwr. Mewn nifer o achosion, gall y dyfeisiau hyn roi annibyniaeth i bobl, a'r hyder i barhau i fyw gartref a chael mynediad at eu cymunedau.

## Beth oedd yr heriau?

Rydym wedi wynebu rhai heriau gyda diffyg staff yn ein timau gweinyddol a'n timau gosod, ond rydym wedi parhau i flaenoriaethu atgyfeiriadau brys a namau i'r bobl sydd fwyaf mewn perygl.

Rydym angen deall sut bydd y rhaglen ddigidol yn cael ei gweithredu'n llawn yng Nghonwy. Mae trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu cynnal mewn perthynas â logisteg ac arian.

## Beth nesaf?

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd Tîm Teleofal Conwy yn parhau i dreiglo’r unedau monitro digidol mewn modd wedi’i reoli ac fesul cam, gan gadw llygaid barcud ar unrhyw faterion sy’n codi er mwyn darparu offer priodol yn unol ag anghenion pobl, yn unol ag arfer gorau.
Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu fflat asesu gyda’r Tîm Atal ac Ymyrraeth Gynnar a fydd, yn y pendraw, yn fan lle gall defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gweld technoleg Teleofal a Chlyfar yn cael ei arddangos mewn amgylchedd ‘tebyg i gartref’. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl brofi’r offer a gweld a fyddai’r offer yn eu helpu nhw gartref; mewn gwirionedd, dull ‘profi cyn prynu’.

## Helpu pobl gydag anableddau dysgu i fyw’n annibynnol

Yn 2017, fe wnaethom lansio prosiect dilyniant, wedi’i ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig, i roi asesiad therapi galwedigaethol arbenigol i unigolion ag anableddau dysgu. Roedd y pwyslais ar gefnogaeth gyda datblygu sgiliau a datblygu tuag at fyw’n fwy annibynnol a hunan-werth, gartref ac yn y gymuned. Yr amcan oedd helpu i ostwng dibynadwyedd tymor hir ar wasanaethau gofal traddodiadol a/neu ofalwyr teulu, ac ymgorffori dull sy’n canolbwyntio ar ddilyniant a chefnogi’r unigolyn i oresgyn rhwystrau wrth gwblhau tasgau maen nhw eisiau eu gwneud, mor annibynnol â phosib.

Roedd yn golygu bod yr unigolyn a’u rhwydwaith gefnogi yn cymryd cyfrifoldeb dros eu canlyniadau eu hunain, o fewn amserlen a gytunwyd arni, ac mewn rhai achosion, ar gyfer datblygu eu hyder gyda chymryd risg cadarnhaol.

Roedd y prosiect yn cefnogi unigolion i sylweddoli eu llawn botensial, datblygu eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain, a dod yn fwy annibynnol ac yn weithgar yn eu cymunedau. Mewn sawl achos, fe wnaeth y prosiect alluogi unigolion i symud i fyw yn fwy annibynnol gyda’r gofal a’r gefnogaeth gywir. Mae hyn wedi golygu bod dinasyddion wedi datblygu eu hyder wrth fyw yn annibynnol a chael mwy o reolaeth dros sut maen nhw’n byw eu bywydau, gan ddefnyddio technoleg cynorthwyol ac offer ac addasiadau eraill i reoli risgiau.

## Beth oedd yr heriau?

Weithiau, roedd hi’n anodd cynnal canolbwynt ar ddilyniant unwaith roedd y Therapydd Galwedigaethol wedi cwblhau eu hasesiad a’r cynllun gofal a chefnogaeth. Oherwydd pandemig Covid-19, roedd yn golygu nad oeddem yn gallu cynnig asesiadau wyneb yn wyneb bellach, ac fe wnaeth newid pwysau’r gwasanaeth yn sylweddol, gan olygu bod y gwasanaeth dilyniant wedi dod i ben ar ddechrau’r pandemig.

## Beth nesaf?

Rydym yn falch o ddweud ein bod yn ail-lansio’r Gwasanaeth Dilyniant, a fydd bellach yn cael ei ariannu o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae swydd Cynorthwy-ydd Therapi Galwedigaethol wedi cael ei chyflwyno i hwyluso’r gwaith o fonitro cynnydd ar ôl asesiad, ac i ddatblygu arbenigedd yn y gwasanaeth.

Mae’r prosiect yn symud ymaith o wasanaethau tymor hir, sy’n canolbwyntio ar gefnogaeth. Byddwn yn canolbwyntio ar ymyriadau tymor byr, yn cadw at gynllun manwl, ac yn cefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau newydd i gyflawni canlyniadau a gytunwyd ymlaen llaw.

Mae lleoliad newydd wedi cael ei nodi lle gellir cynnal asesiadau gweithredol am fyw bob dydd mewn amgylchedd addas. Bydd offer arbenigol ar gael i gefnogi dinasyddion ddatblygu cynllun a sut i gyflawni eu canlyniadau personol mor annibynnol â phosib. Rydym yn bwriadu hyrwyddo’r defnydd o dechnoleg gynorthwyol fodern i fodloni amcanion personol, hyrwyddo annibyniaeth a rheoli risgiau yn y cartref.

Bydd arddangos y defnydd o offer modern a thechnoleg gynorthwyol yn helpu hysbysu dinasyddion a gweithwyr proffesiynol am ffyrdd arloesol o fodloni canlyniadau a rheoli risgiau, mewn ffordd sy’n manteisio i’r eithaf ar gryfderau unigolion, sy’n gostwng y ddibyniaeth ar gefnogaeth anffurfiol a chefnogaeth â thâl, a phan fo angen cefnogaeth tymor hir, bydd yn hysbysu’r asesiadau er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo’r gefnogaeth ar y lefel gywir.

## Datblygu ein Tîm Unigolion Cysylltiedig

Yn ystod 2022, rydym wedi ehangu ein Tîm Unigolion Cysylltiedig, gyda phump o unigolion wedi cael eu penodi, eu sefydlu, eu hyfforddi a'u huwchsgilio i ddarparu ar gyfer anghenion gofalwyr unigolion cysylltiedig. Yn ystod pandemig Covid-19, hwyluswyd grwpiau cefnogi unigolion cysylltiedig gan elusen annibynnol a unodd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn â'i gilydd. Yn dilyn adborth gan ofalwyr maeth sy'n gysylltiedig â Chonwy, fe wnaethom sefydlu grŵp ar gyfer Conwy yn unig, gyda chymorth rheolwr tîm newydd, a sefydlwyd Grŵp Cydnabod a Pherthnasau.

Gwarcheidwaid Arbennig yw unigolion sy'n gallu gwneud cais i ofalu am blentyn pan na allant fyw gyda'u rhieni biolegol ac na fyddai mabwysiadu yn addas ar eu cyfer. Yng Nghonwy, mae ein cynnig Gwarcheidwaeth Arbennig yn parhau i ffynnu gyda chefnogaeth gan gydlynydd penodol sy'n monitro Cynllun Gweithredu Gwarcheidwaeth Arbennig. Gyda pherthynas wedi'i sefydlu bellach, maen nhw'n gallu darparu cefnogaeth ymyrraeth gynnar, cynlluniau cefnogi adolygiadau a thaliadau adolygiad, sy'n helpu i atal toriad mewn trefniadau ac sy'n cryfhau'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig drwy Warcheidwaeth Arbennig.

Mae Unigolion Cysylltiedig yn elfen o'r rhaglen 'dileu elw' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd. Drwy gryfhau'r gwasanaeth maethu Unigolion Cysylltiedig a darparu cefnogaeth effeithiol o ran Gwarcheidwaeth Arbennig, rydym yn hwyluso cynllun symud ymlaen llwyddiannus a realistig o ofal maeth i Gwarcheidwaeth Arbennig. Yn ein cais am grant, fe wnaethom nodi y byddai Cydlynydd Gwarcheidwaeth Arbennig yn cefnogi'r rhaglen 'cael gwared ar elw', y Gwarchodwyr Arbennig eu hunain, ac yn cryfhau'r cynnig craidd yn rhagweithiol i gynlluniau'r Gwarcheidwaeth Arbennig.

### Beth oedd yr heriau?

Roedd yn gyfnod heriol gan fod bob un o'r pum aelod staff wedi cychwyn gweithio yn yr un mis.

### Beth nesaf?


Mae hyfforddiant Unigolion Cysylltiedig wedi cael ei ddatblygu, ac mae angen rhannu hwn gyda'r timau gofal plant ehangach er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o'r broses asesu, rhannu gwybodaeth a sgiliau a sicrhau ymwybyddiaeth well o'r gefnogaeth Gwarcheidwaeth Arbennig a ddarparwyd. Bydd hyn i gyd yn cryfhau ein cynnig am gefnogaeth.
Byddwn hefyd yn recriwtio i'r swydd Cydlynydd Unigolion Cysylltiedig newydd.



## Mynd yn ôl i'r awyr agored

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a hyder oedolion hŷn gan adael nifer ohonynt yn profi cynnydd mewn arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn yng Nghonwy, mae'r tîm Lles Cymunedol wedi cynnig cefnogaeth i helpu unigolion ailgysylltu gyda'u cymunedau gyda hyder drwy drefnu amrywiaeth o weithgareddau awyr agored fel teithiau cerdded gyda themâu a rhai cymdeithasol.

Bu'r sesiynau hyn yn llwyddiannus iawn, a rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2022, fe gynhaliom 17 taith gerdded wahanol ledled y sir. Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau, oherwydd mae'r adborth rydym ni wedi'i gael yn dangos bod unigolion yn ystyried bod y sesiynau cerdded hyn yn fuddiol iawn ac yn awyddus iddynt barhau bob mis.



## Bws Teithiol yn rhoi Profiad Rhithiol o Ddementia

Ym mis Awst 2022, cynhaliodd ein Tîm Cadw'n Iach daith Bws Dementia Rhithiol yng Nghanolfan Fusnes Conwy. Drwy ddarparu dull sydd wedi'i brofi o roi profiad i unigolyn sydd â meddwl iach o'r teimlad o fod yn dioddef â dementia, mae'r profiad yn gadael i gyfranogwyr dreiddio mewn i fyd yr unigolyn, a deall pa newidiadau syml ellir eu gwneud i'w harferion a'u hamgylchedd i wella bywydau pobl â dementia. Cafodd 36 o gyfranogwyr yr hyfforddiant a chawsom adborth gwych ar ôl y sesiynau.

> Byddwn yn argymell yr hyfforddiant hwn i unrhyw un sydd ag aelod o'r teulu â dementia, felly rydw i'n falch fy mod wedi dod heddiw.

Diolch i chi gyd am drefnu'r hyfforddiant hwn, roedd o'n wych, rydw i wedi dysgu gymaint.

## Beth nesaf?

Rydym wedi trefnu bod y bws yn dychwelyd ym mis Mawrth 2023 i ddarparu'r Daith Dementia Rhithiol 'cynhwysol' newydd. Mae hyn yn cynnwys symud drwy'r daith arferol i amgylchedd newydd. Yma, mae darparwr yr hyfforddiant yn arddangos sut allai bywyd fod petai'r holl newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd mor gyfforddus â phosib i'r person sy'n byw gyda dementia.

Byddwn yn cynnal dwy sesiwn; un yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd ag anwylyd yn byw â dementia, ac un ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol, a fydd yn cael ei gynnal yng nghartref preswyl Llys Elian.

## Tîm Cryfhau Teuluoedd a Chefnogaeth Cyn Geni

Mae gan y Tîm Cryfhau Teuluoedd adnoddau penodol i ddarparu cefnogaeth cyn geni i rieni sy'n cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Plant ac sydd mewn perygl mawr o weld eu babanod yn cael eu tynnu o'u gofal. Yn aml iawn mae'r rhieni yma eisoes wedi profi achosion gofal a gweld eu plant yn cael eu tynnu o'u gofal. Mae'r merched beichiog yma'n ddiamddiffyn am amryw o resymau; er enghraifft, oherwydd cyflwr iechyd meddwl, oherwydd eu bod yn rhieni yn eu harddegau, wedi dioddef trais domestig, tlodi neu ddigartrefedd, yn camddefnyddio sylweddau neu oherwydd eu bod wedi bod mewn gofal eu hunain.

Gan ddefnyddio'r model cymorth cyn geni nod ymyrraeth cyn geni Cryfhau Teuluoedd yw:

- Gweithio gyda rhieni cyn gynted ag y mae'r atgyfeiriad yn ein cyrraedd a phan fo'r babi yn y groth yn destun asesiad cyn geni
- Helpu rhieni i fynd i'r afael â'r pryderon sydd wedi arwain at yr asesiad cyn geni
- Meithrin perthynas gadarnhaol sy'n ganolog i ganlyniadau llwyddiannus
- Darparu cymorth gydag asesiadau gwaith cymdeithasol, gan gynnig cyngor ac arweiniad
- Atgyfeirio unigolion yn gynnar at wasanaethau cefnogaeth, er enghraifft gwasanaethau amenedigol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Atgyfeirio unigolion at Gynadledda Grŵp er mwyn nodi cefnogaeth briodol
- Darparu ymyraethau i rieni i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fagu plant yn llwyddiannus



Mae ymyraethau yn aml yn seiliedig ar nodi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, cefnogaeth i ddeall effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a datblygu gwytnwch personol a sgiliau ymdopi. Hefyd, mae ymyraethau sydd wedi'u llywio gan drawma yn helpu i wella iechyd a lles y rhieni, sy'n gallu effeithio ar eu gallu i roi gofal.

## Coleg Adfer

Pwrpas Coleg Adfer yw cefnogi hunan-reolaeth pobl o anawsterau iechyd meddwl drwy addysg a dysgu. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn cael eu cyd-ddylunio gan bobl sydd â phrofiadau bywyd a phobl gydag arbenigedd proffesiynol.

Mae'r Tîm Lles Meddyliol wedi cyflwyno cais llwyddiannus i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, sydd wedi bod yn gyfle i gynnal prosiectau tymor byr fel cam cyntaf gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Sefydlwyd y prosiect er mwyn ymgynghori a chanfod partneriaid a buddiolwyr i helpu i greu coleg adfer yng Nghonwy. Ein gweledigaeth yw:

Coleg adfer wedi'i greu ar y cyd ar gyfer sir Conwy, sy'n galluogi pobl i adfer gobaith, meithrin gwytnwch, cysylltu a chreu cymuned, a chynnal eu hunain i gael bywyd bodlon a bwriadol.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai a digwyddiadau gyda'n partneriaid yn Mind Conwy i gyflwyno'r syniad o Goleg Adfer a chyd-ddylunio, a arweiniodd at sesiwn gynllunio i fapio'r camau nesaf. Mae'r llun ar y dudalen nesaf wedi'i greu gan artist graffig mewn amser real, gan adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd ar y diwrnod (Saesneg yn unig).

## Beth oedd yr heriau?

Yr her fwyaf oedd recriwtio Cydlynydd i'r coleg, a fyddai wedi gallu canolbwyntio'n benodol ar y prosiect. Gan na lwyddwyd i recriwtio cydlynydd roedd yn rhaid rheoli'r prosiect ar dop gwaith arferol, a gafodd effaith ar nifer y gweithdai yr oedd modd i ni eu cynnal.

Roedd yna hefyd heriau o ran cyfnod byr y cyllid. Un wers a ddysgwyd oedd bod meithrin perthynas gyda phobl a phartneriaid yn cymryd amser ond mae'n hollbwysig er mwyn cael sylfeini cryf i'r dyfodol.

Roedd darparu sesiynau wyneb yn wyneb ar ôl y pandemig hefyd yn anodd, gan fod rhai pobl heb fagu hyder i fynd i ddigwyddiad wyneb yn wyneb a COVID yn dal yn effeithio ar gapasiti.

Felly penderfynwyd cynnal arolwg ar-lein, er mwyn i bobl allu mynegi eu barn. Roedd 88% yn teimlo y byddai coleg adfer yn fuddiol i gefnogi eu hiechyd meddwl, a nodwyd cyfres o gyrsiau a ffefrir ar gyfer eu datblygu a'u cynnal fel rhan o'r coleg.

## Beth nesaf?

Rydym ni wedi cyflwyno cais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, sef ail ran y cyllid gan Lywodraeth y DU, i'n galluogi ni i recriwtio i swyddi i helpu i ddatblygu'r coleg. Rydym ni hefyd yn bwriadu cyflwyno cais am gyllid i'r Loteri Fawr er mwyn comisiynu amrywiaeth o bartneriaid trydydd sector i ni allu agor y coleg.

Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Llyfrgell i ailwampio llawr cyntaf Llyfrgell Bae Colwyn i greu lle diogel a chroesawgar i ni ddechrau darparu cyrsiau adfer a sesiynau lles, fel Cofnodi Creadigol a Darllen ar y Cyd.



## Gwasanaeth Rhandiroedd

Mae'r Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn yn parhau i reoli'r rhandiroedd sy'n darparu gofod therapiwtig a diogel i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn gobeithio eu datblygu ymhellach, ac mae rhan o'r gwaith yn cynnwys agor y rhandiroedd i bob unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sy'n Gadael Gofal a'r Gwasanaeth Lles Meddyliol.



### Beth oedd yr heriau?

Mae annog presenoldeb a chyfranogiad wedi bod yn heriol.

### Beth nesaf?

Byddwn yn ymgynghori gyda'r rheiny sy'n defnyddio'r rhandiroedd ar hyn o bryd o ran y gwasanaeth maen nhw'n gael a'r hyn y mae modd ei wella. Byddwn yn cysgodi staff sy'n rheoli'r rhandiroedd fel ein bod yn deall y gwasanaeth. Byddwn yn hyrwyddo'r rhandiroedd i bob un o ddefnyddwyr y Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn.

## Haf o Hwyl 2022

Un o raglenni adfer ar ôl Covid-19 Llywodraeth Cymru yw Haf o Hwyl, ac mae'r gweithgareddau'n cael eu hariannu er mwyn rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ailgysylltu gyda ffrindiau ac eraill i hyrwyddo sgiliau cymdeithasu, lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwella iechyd meddwl a lles yn dilyn y pandemig.

Eleni fe ddyrannwyd dros £186,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen Haf o Hwyl Conwy. Cefnogwyd cyfanswm o 27 prosiect, yn cynnwys gwirfoddolwyr a busnesau lleol. Fe ddarparodd hyn dros 870 o sesiynau gweithgareddau am ddim dros 13 wythnos o 1 Gorffennaf i 30 Medi 2022. Daeth dros 10,000 o bobl i'r sesiynau yn ystod y cyfnod hwn. Daeth dros 1,500 o blant ac 850 o oedolion i'r diwrnod chwarae ym Mharc Eirias ym mis Awst 2022 a chafodd y digwyddiad hefyd ei gynnwys ar raglen ITV News am 6pm! Un o'r prosiectau cyffrous a ddatblygwyd ar gyfer Haf o Hwyl oedd ffilm gafodd ei chreu o'r gweithgareddau Haf o Hwyl:



## Beth oedd yr heriau?

Roedd y ceisiadau a gafwyd gan grwpiau a sefydliadau i ddarparu gweithgareddau yn fwy na'r arian oedd ar gael. Cynhaliwyd panel i asesu'r ceisiadau a rhannu'r arian mor gyfartal â phosib ledled y sir, yn unol â lleoliad a'r mathau gwahanol o weithgareddau fel diwylliant, chwarae, chwaraeon a chreadigrwydd. Cafodd rhai ceisiadau lai o arian am lai o sesiynau oherwydd faint o arian oedd ar gael.

## Beth nesaf?

Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys os bydd arian Haf o Hwyl ar gael yn 2023. Ar hyn o bryd, nid oes dyraniad ar ei gyfer o'r wybodaeth a ryddhawyd am gyllideb Llywodraeth Cymru. Petai arian ar gael, byddem yn parhau â'r un prosesau yr ydym wedi'u datblygu a'u defnyddio dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn dyrannu arian a gwahodd ceisiadau gan amrywiaeth o bartneriaid allanol a mewnol i ddarparu gweithgareddau.

## Datblygiadau yn ein Canolfannau Teuluoedd

Mae bob un o'n pum Tîm Cefnogi Teuluoedd, sy'n gweithio yn ein Canolfannau Teuluoedd, yn parhau i weithio gyda theuluoedd i ddarparu cymorth cynnar, ac er mwyn datblygu gweithgareddau a mentrau i fodloni anghenion y cymunedau lleol. Eleni rydym wedi bod yn:

- Gweithio gydag ymchwilydd o Brifysgol Bangor i ddatblygu llwybr o gefnogaeth, pecyn gwaith o ymyriadau, a hyfforddiant ar gamdriniaeth plentyn-rhiant/gofalwr o'r enw 'Pennod Newydd'
- Sefydlu pum Gweithiwr Teulu Anableddau; un ym mhob ardal leol
- Ymateb i batrwm o ymddygiadau rhywiol niweidiol mewn cymuned drwy gynnal sesiwn Prosiect Rhieni gyda'r Lucy Faithful Foundation
- Gweithio gydag ysgolion a gwasanaethau cefnogi ieuenctid i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth am gamfanteisio, diwylliant gangiau a diogelwch ar y rhyngrwyd

Mae Canolfan Ffordd Douglas ym Mae Colwyn wedi bod ar agor ers blwyddyn ac mae nifer fawr o ddatblygiadau cyffrous wedi bod, ac agorodd Canolfan Teuluoedd Eryl Wen yn Llandudno ei drysau ar ôl gwaith adnewyddu eleni hefyd. Ceir rhagor am hynny isod.

## Adnewyddu Eryl Wen

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2019-20, fe wnaethom ddefnyddio Arian Nawdd Cyfalaf Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu ein Canolfan Teuluoedd yn ardal y gogledd, sef Eryl Wen yn Llandudno.

Caeodd y drysau ym mis Chwefror 2022 ac ailagor i'r cyhoedd ym mis Hydref 2022. Erbyn hyn, mae gennym fwy o le i groesawu teuluoedd, gan gynnwys:

- Ardal groesawu
- Ystafelloedd un i un
- Ystafell Chwarae
- Cegin ar gyfer gweithgareddau coginio i'r teulu
- Ystafelloedd cyfarfod aml-asiantaeth
- Ystafelloedd hyfforddi
- Ardal wych i chwarae'r tu allan
- Gardd hyfryd gyda choed ffrwythau
- Maes parcio



Fe wnaethom gynnwys nodweddion er mwyn gostwng y costau cynnal a chadw a gostwng ein hôl-troed carbon, fel inswleiddio o safon uchel, system wresogi effeithlon o ran ynni a golau sy'n arbed ynni.




## Beth oedd yr heriau?

Cymerodd y gwaith adnewyddu fwy o amser nag a ddisgwyliwyd oherwydd problemau gyda'r gadwyn gyflenwi ac anawsterau yn cael contractwyr i wneud y gwaith.

Roedd hi'n anodd annog teuluoedd yn ôl i'r ganolfan ar gyfer gweithgareddau grŵp, yn dilyn cyfyngiadau Covid-19. Dechreuom ein grwpiau gyda llai yn bresennol i godi hyder, a chan bod teuluoedd yn fwy hyderus bellach, mae'r nifer sy'n mynychu'n cynyddu.

## Beth nesaf?

Byddwn yn cysylltu gyda'r gymuned leol i ganfod yr hyn sydd ei angen ar deuluoedd. Yna, fe wnawn weithio gyda phartneriaid lleol i ddatblygu sesiynau i deuluoedd, yn seiliedig ar yr hyn wnaethon nhw ei ddweud wrthym.

Rydym yn bwriadu datblygu ardal rhandir fechan i dyfu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain er mwyn eu rhannu a'u coginio gyda theuluoedd.

# Cefnogaeth i Ofalwyr

Un o flaenoriaethau strategaeth Llywodraeth Cymru i ofalwyr di-dâl yw gwella asesiadau gofalwyr, yn arbennig er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu asesiadau statudol yn effeithiol ac ar amser sy'n ymateb i anghenion unigol gofalwyr di-dâl.

Mae cynllun "Ymwybodol o Ofalwyr" cenedlaethol Gofalwyr Cymru wedi darparu cyfle gwerthfawr i weithio gyda staff ar bobl lefel o'r systemau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ledled Cymru i greu newid diwylliannol ystyrlon i elwa gofalwyr di-dâl yng Nghymru.  Hyd yma mae 17 o staff Conwy wedi cymryd rhan yn eu sesiynau hyfforddiant.  Mae gan y cynllun gyllid ar gyfer dwy flynedd arall ac felly'n parhau i ddylanwadu'n gadarnhaol ar staff i roi cefnogaeth fwy effeithiol i ofalwyr.

Yn wahanol i awdurdodau eraill mae gan Gonwy Dîm o Ofalwyr yn fewnol sy'n gallu cyflawni asesiadau gofalwyr mewn achosion lle gall fod yn fuddiol i rywun arall ei wneud yn hytrach na'r Gweithiwr Cymdeithasol

sydd wedi cael ei benodi ar gyfer y person sy'n derbyn y gofal. Mae'r system hon wedi bod yn fanteisiol yng Nghonwy, ac yn cael ei gydnabod gan bartneriaid trydydd sector sy'n gweithio ar draws y rhanbarth i fod yn gryfder penodol o fewn Conwy o ran y gefnogaeth sy'n cael ei roi i ofalwyr. Rydym hefyd yn comisiynu Hafal (sydd bellach yn rhan o Adferiad) i gyflawni asesiadau gofalwyr ac i ddarparu cefnogaeth o ran lles meddyliol, a Credu i wneud yr asesiadau ac i ddarparu cefnogaeth i ofalwyr ifanc.

Fodd bynnag, mae galw wedi bod yn cynyddu'n raddol ac mae ein tîm mewnol yn rheoli'n ofalus y rhestr aros sy'n tyfu ers pandemig Covid-19 , ac wedi dechrau cynllun peilota i weithio'n fwy agos gyda'r Timau Adnoddau Cymunedol aml-asiantaeth. Bydd hyn yn cynyddu'r pwysigrwydd o gefnogi gofalwyr, a darparu ymateb mwy cyfannol. Mae darganfyddiadau yn y lle cyntaf yn gadarnhaol, ac mae ystod ehangach o staff cymwys bellach yn cyflawni mwy o asesiadau gofalwyr, mae ein tîm Lles Cymunedol yn cefnogi drwy roi cefnogaeth lefel is a chyfeirio at y gefnogaeth briodol, ac yn sgil hynny mae'r rhestr aros wedi lleihau i fod yn un rhan o dair mewn dim ond ychydig fisoedd.

Cyn y pandemig roedd dadansoddi yn dangos fod mwy o ofalwyr ar gyfartaledd yn gwrthod y cynnig o asesiad na'r rheiny oedd yn derbyn y cynnig. Yn aml y rheswm dros hynny yw'r anhawster sydd gan bobl o weld eu hunain fel gofalwyr yn y lle cyntaf, mi fyddan nhw'n hytrach yn syml yn gweld eu hunain fel aelod o'r teulu ac yn cyflawni'r disgwyliadau o 'ddyletswydd' fel gwraig neu ŵr, mab neu ferch ayb. Mae'n ymddangos fod hynny wedi newid rhywfaint ac yn ystod 2022 cafodd 330 o asesiadau eu cwblhau gyda dim ond 198 yn cael eu gwrthod. Mae'n debyg fod y galw ar ôl y pandemig wedi cam-ystumio'r duedd i ryw raddau.

Mae cael asesiad gofalwr yn gallu eich helpu i drafod y cymorth sydd ei angen arnoch fel gofalwr ac arwain at gefnogaeth ychwanegol ar eich cyfer.

## Darganfod mwy am sut i gael asesiad gofalwr

### Ymgynghoriad gyda gofalwyr ynghylch cefnogaeth i'r rheiny sy'n byw gyda dementia

Mae gan Gonwy Fforwm Dementia sydd ag aelodau allweddol o Ofal Cymdeithasol, Iechyd a phartneriaid trydydd sector. Yn ddiweddar mae'r grŵp wedi dechrau cyfres o gyfarfodydd rheolaidd gyda grŵp o ofalwyr, mewn perthynas i'w profiadau o ofalu am rywun yn byw gyda dementia. Un o'r problemau wnaeth y grŵp dynnu sylw ato yn ein cyfarfod cyntaf oedd y gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu ar ôl diagnosis o ddementia. Mae'r problemau hyn yn cael eu harchwilio a'u defnyddio i ddylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau (yn lleol a rhanbarthol) yn cael eu cyflawni, gyda'r gobaith o gael y balans cywir rhwng darparu'r wybodaeth gywir ar yr amser cywir, a hynny mewn ffordd sy'n teimlo'n iawn ar gyfer bob gofalwr unigol.

### Cynhwysiant digidol o fewn rhwydweithiau cefnogi anabledd

Datblygwyd y Strategaeth Technoleg a Digidol Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd yn 2021 ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth. Mae'r strategaeth yn adnabod y rhwystrau i gynhwysiant digidol a'r camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny. Yn fyr, mae cynhwysiant digidol yn cael ei effeithio gan fynediad i offer a chysylltedd, mynediad i gefnogaeth i ddefnyddio offer, a lefelau isel o hyder ymysg y rheiny sy'n cefnogi pobl gydag anableddau dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae Paul Mazurek, Swyddog Cynllunio a Datblygu wedi gweithio gyda Cyswllt Conwy (sydd wedi cael ei ariannu trwy wasanaethau gweithredol a thrwy'r rhaglen) i hyrwyddo defnydd o dechnoleg a mynediad i ddulliau technolegol. Mae o wedi gweithio gyda Chyswllt Conwy i roi benthyg cyfarpar i unigolion neu maent wedi eu cael fel rhodd ar sail un-i-un i ddatblygu sgiliau a magu hyder, a chefnogi unigolion i gael mynediad at adnoddau a gweithgareddau ar-lein.

Mae Paul yn y broses o weithio gyda Thîm Datblygu Gweithlu Conwy i gyflwyno hyfforddiant sy'n mynd i'r afael, er enghraifft: â phobl ddiamddiffyn ar-lein, radicaleiddio. Mae'r mater hwn wedi cael ei adnabod fel problem a phryder ar draws y rhanbarth. Mae'n dechrau ym mis Mawrth yn Sir y Fflint a bydd yn cael ei gyflwyno i bawb arall yn fuan wedi hynny. Mi fyddan nhw'n edrych ar greu hyfforddiant pellach o ganlyniad i'r gyfres hon o sesiynau.

Nod y gweithdy 'Niwed, Meithrin Perthynas Amhriodol, Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth' yw codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein (yn enwedig meithrin perthynas amhriodol) o ran pobl gydag anableddau dysgu ac awtistiaeth. Bydd yn edrych ar sut i ymyrryd a chefnogi pobl mewn risg o niwed. Mae modiwlau ar-lein yn cael eu cyflwyno ar Zoom gyda thiwtor profiadol. Mae'r sesiynau ar-lein yn rhyngweithiol iawn ac yn cynnwys mewnbwn tiwtor, trafodaethau, astudiaethau achos, pleidleisiau, gweithio mewn grwpiau bychain ac adlewyrchu ar aseiniadau.

Mae Prosiect Pontio Cyswllt Conwy wedi gweithio gydag unigolion drwy gyflwyno:

- Dau sesiwn clwb ieuenctid hybrid y mis i annog cynhwysiant digidol
- Chwech o sesiynau gwybodaeth ar-lein gyda phobl broffesiynol yn trafod pynciau pontio
- Hyfforddiant Stop it Now gan y Lucy Faithfull Foundation, yn edrych ar gadernid digidol ar gyfer rhieni a gofalwyr
- Mae dau reolwr anabledd wedi hyfforddi ar apiau Cefnogaeth Weithgar ac wedi trafod eu bod nhw gyflwyno nhw i ddau brosiect.

## Beth oedd yr heriau?

Mae pobl yn awyddus i gymryd rhan ond o fewn gwasanaethau yn arbennig mae staff yn ei chael yn anodd cael digon o amser a chymhwysedd i ddatblygu sgiliau a hyder. Mae pwysau ar y gweithlu yn golygu fod gweithwyr, yn ddealladwy, yn gorfod blaenoriaethu tasgau gofal uniongyrchol sy'n golygu bod datblygiad technegol yn mynd i lawr y rhestr o'r tasgau sydd angen eu gwneud. Mae cyrraedd a chael mynediad i staff a rhwydweithiau cefnogi yn her oherwydd lleoliadau gwasgaredig. Mae'n cael effaith ar ymrwymiad a gallu pobl i wneud y mwyaf ac i ddefnyddio technoleg gan na fyddan nhw bob tro yn ymwybodol o'r rhaglen a'i adnoddau. Mynediad cynyddol i dechnoleg yn golygu risg o ymddygiad amhriodol ar-lein a chynnydd mewn cam-fanteisio a radicaleiddio unigolion diamddiffyn, ac felly'r angen am yr hyfforddiant a amlygir uchod.

Unwaith y bydd mynediad digidol yn cael ei ddarparu, mae angen cynnig cefnogaeth yn barhaus i helpu unigolion i gadw i fyny gyda'r defnydd o dechnoleg. Bydd offer yn cael ei roi fel rhodd neu'n cael ei osod. Y tro cyntaf y bydd yn stopio gweithio mae yna berygl o ddadymgysylltu.

## Beth nesaf?

Mae'r rhaglen yn peilota cyfres o gyfleoedd hyfforddiant i unigolion, teuluoedd ac i gefnogi'r gweithlu. Bydd hynny'n cael ei gyflwyno yng Nghonwy'r flwyddyn nesaf.

Bydd Paul yn ail-ymweld â'r syniad o sefydlu grŵp digidol yng Nghonwy. Mae Cyswllt Conwy wedi dod o hyd i unigolyn i wneud y gwaith technoleg ar gyfer y prosiect pontio (wedi'i ariannu gan y rhaglen). Mae Cyswllt Conwy yn alluogwr allweddol i gael y gwaith hwn wedi'i wneud oherwydd eu cysylltiad cymunedol.

# Partneriaethau ac Integreiddio

Safon Ansawdd 5: Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu deilliannau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl

## Cefnogi a monitro ein cartrefi preswyl

Yn Sir Conwy, mae gennym y nifer uchaf o gartrefi gofal yng Ngogledd Cymru ac mae angen rhaglen fonitro barhaus i sicrhau ansawdd y gofal a chefnogi'r ddarpariaeth. Mae ein Gwasanaeth Monitro wedi ailgychwyn rhaglen o ymweliadau â chartrefi gofal, asiantaethau gofal yn y cartref a phrosiectau byw â chymorth cymunedol, sydd wedi bod yn cael cefnogaeth reolaidd gennym dros y ffôn. Mae'r ymweliadau monitro'n canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth gofal a chymorth yn y cartrefi. Gallant hefyd dynnu sylw at unrhyw bryderon sydd yn y cartref, a gwneud argymhellion i wella'r sefyllfa.

### Beth oedd yr heriau?

Yn anffodus, rydym ni'n dal i weld ôl-effeithiau'r pandemig Covid-19 yn y sector hwn, sydd yn waeth oherwydd yr argyfwng costau byw, costau uwch a heriau recriwtio parhaus.

Rydym yn cydnabod bod gennym rôl i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad ymarferol i gartrefi yng Nghonwy yn barhaus er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau o ansawdd dan amgylchiadau heriol. Fe welwch fwy o wybodaeth am bethau rydym wedi'u gwneud i helpu mwy arnynt yn yr adroddiad hwn.

### Beth nesaf?

Yn ogystal ag ymweliadau monitro ddwywaith y flwyddyn, rydym yn parhau i gael cyfarfodydd rheolaidd ar-lein yn fisol gyda rheolwyr cartrefi gofal Conwy i rannu gwybodaeth a thrafod materion, yn cynnwys datblygu'r gweithlu. Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth dros y ffôn i'r cartrefi bob pythefnos.

## Y Panel Trais Domestig

Prosiect peilot oedd y Panel Trais Domestig i ddechrau, oedd yn ceisio sefydlu partneriaeth amlasiantaeth i ddarparu cyngor, cefnogaeth ac ymyraethau therapiwtig i ddioddefwyr trais domestig sydd fwyaf mewn perygl i'w plant fynd i'r system ofal.

Roedd y Panel Trais Domestig yn beilot tri mis o hyd a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2021 yn sgil y Fforwm Trais Domestig a sefydlwyd gan y Tîm Pobl Ddiamddiffyn. O ganlyniad i'r fforwm, dechreuodd yr Uned Diogelwch Trais Teuluol a'r Tîm Cryfhau Teuluoedd gynnal trafodaethau am gydweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig o safbwyntiau sy'n deall trawma ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan integreiddio'r model Safe and Together a'i egwyddorion. Ers y peilot cychwynnol hwn, mae'r panel wedi parhau i gyfarfod pob deufis ac mae'n darparu sesiynau ymgynghori gyda'r Uned Diogelwch Trais Teuluol i rannu gwybodaeth am y dioddefwyr hynny sydd yn y perygl mwyaf, y plant a'r troseddwyr a gwneud cynlluniau i wella diogelwch.

Mae'r cydweithio hwn gyda'r Uned Diogelwch Trais Teuluol wedi helpu i integreiddio arbenigeddau o'r Gwasanaethau Plant, yr Uned ei hun, y Bont ac aelodau Canolfannau Teuluoedd i ddatblygu cynlluniau ymyrraeth yn seiliedig ar ganlyniadau i rai dioddefwyr a'u plant. O'r panel hwn, mae'r Tîm Cryfhau Teuluoedd wedi darparu cefnogaeth therapiwtig i rai sy'n cam-drin, i helpu i newid ymddygiad a gwella diogelwch i ddioddefwyr a'u plant.

Ers mis Chwefror 2023, mae cynrychiolwyr o dîm yr Uned Diogelwch Trais Teuluol wedi bod yn gweithio o'n swyddfeydd ym Mae Colwyn unwaith bob pythefnos, yn y gwasanaethau Plant, Oedolion a Diogelu. Maent ar gael i roi cyngor cyffredinol os yw neu os gallai cam-drin domestig fod yn broblem i unigolion a theuluoedd rydym yn eu cefnogi.

## Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol

Rydym wedi sôn am dîm ein Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol mewn adroddiadau blaenorol a gallwn bellach gadarnhau ei fod yn ail gam y peilot. Rydym wedi gwahodd asiantaethau ychwanegol i fod yn rhan o'r Ganolfan, yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Addysg. Rydym wedi gweld bod cael asiantaethau ychwanegol wrth y bwrdd wedi rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau'n well.

Mae gwaith wedi'i gwblhau gyda Heddlu Gogledd Cymru i edrych ar y broses CID16 ac i wella'r cynnwys o fewn yr adroddiadau hyn. Mae adborth wedi'i roi i swyddogion am y wybodaeth y dylid ei chofnodi pan maent yn llenwi CID16. O ganlyniad, mae'r adroddiadau wedi gwella ac mae tystiolaeth bod staff yr Heddlu'n datblygu gwell dealltwriaeth o ddiffiniad Oedolyn mewn Perygl, Amddiffyn Plant a Chymorth Cynnar.

Rydym wedi gweld mwy o Weithwyr Cymdeithasol yn dod i gyfarfodydd dyddiol y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol i drafod pryderon diogelu, cael cyngor a chael eglurhad ar gamau gweithredu i reoli pryderon.

Rydym wedi gweithio'n agos gydag ein Tîm Asesu a Chefnogi mewnol a thimau eraill i reoli'r garfan o unigolion a gyrhaeddodd westy'r Hilton i sicrhau bod ymdriniaeth ac ymateb priodol i bob pryder diogelu.

Yn ddiweddar, rydym wedi cymryd rhan mewn adolygiad annibynnol a wnaed gan Brifysgol John Moore Lerpwl. Roedd yr adolygiad yn ceisio edrych ar ddarpariaeth 'drws ffrynt' ar hyd a lled Cymru, ac rydym yn disgwyl am adborth ffurfiol yn benodol i Gonwy.

Mae gwaith yn cael ei wneud i wella ymatebion i rai sy'n gwneud adroddiadau (yn unol â'r gweithdrefnau). Bydd hyn yn sicrhau bod pob un sy'n gwneud adroddiadau'n deall canlyniadau'r adroddiadau diogelu sy'n cael eu cyflwyno.

### Beth oedd yr heriau?

Gan ein bod yn dal i weithredu yn y cyfnod peilot, nid ydym wedi gallu ehangu'r tîm i ymdopi â'r galw presennol. Roedd hefyd yn rhaid i ni ryddhau ein Hymchwilydd Heddlu ym mis Ebrill 2023 ac, ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau i gael un arall.

### Beth nesaf?

- Rydym yn gobeithio ehangu ein tîm drwy recriwtio i swyddi ychwanegol, a chynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ryw adeg yn y dyfodol
- Byddwn yn gwneud mwy o welliannau i brosesau
- Mae gennym gynlluniau i ddatblygu tudalen we benodol ar gyfer y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol, yn ogystal â rhif uniongyrchol a chyfeiriad e-bost, fel bod modd rheoli a chadw'r holl ymholiadau diogelu o fewn y ganolfan.

## Llwybrau Cyflogaeth Gwasanaeth Anableddau Conwy

Mae Planhigfa Bryn Euryn wedi gweithredu o'r safle yn Dinerth Road am tua 30 mlynedd. Mae ailddatblygu'r safle i ddarparu caffi, siop ac ardal blanhigfa newydd wedi ein hysgogi i ailgynllunio ein cynnig, i ddatblygu uchelgais pobl a'u cefnogi i gael gwaith cyflogedig. Mae'r Cyngor wrthi'n tendro'r caffi i sefydliad trydydd sector a fydd yn rhoi cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau ddeall beth yr hoffent ei wneud mewn perthynas â gwaith a meithrin sgiliau a phrofiad yn y gweithle. Bydd darpariaeth gwasanaeth ar draws y caffi, Planhigfa Bryn Euryn, Tan Lan a'r gerddi ac ati yn alinio modelau cefnogi i ganolbwyntio ar alluogi pobl sydd bellaf oddi wrth y farchnad waith i gael gwaith cyflogedig lle bo modd.

Rheolwr y Gwasanaeth Anableddau sy'n cadeirio grŵp llywio'r strategaeth cyflogaeth â chymorth ranbarthol, sy'n goruchwylio gwaith o gyd-gynhyrchu strategaeth cyflogaeth â chymorth ranbarthol i bobl sydd ag anableddau dysgu. Mae'r strategaeth yn cynnig bod gwasanaethau anableddau dysgu'r chwe Chyngor Sir yn cyflwyno gwasanaeth cyflogaeth â chymorth er mwyn galluogi mwy o bobl sydd ag anableddau dysgu i gael gwaith cyflogedig, gan gynnwys arian ar gyfer hyfforddiant swydd arbenigol. Y gyfradd gyflogaeth

bresennol i bobl sydd ag anableddau dysgu y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn gwybod amdanynt yw 4.8%.

Rydym ni'n gobeithio cael cyllid o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer y tair blynedd nesaf i weithredu'r model hwn ar draws y rhanbarth. I baratoi at y drefn newydd, mae'r rhaglen drawsnewid wedi ariannu sesiynau 'Cyflwyniad i Gyflogaeth â Chymorth' i'r holl dimau gweithredol. Cwblhaodd saith aelod o dîm Conwy yr hyfforddiant, gan roi adborth da. Yn dilyn hynny, mae'r rhaglen drawsnewid yn ariannu cwrs 'Technegau Cyflogaeth â Chymorth' sy'n darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol i fod yn hyfforddwr swydd a bydd pum aelod o staff o Dîm Cyfleoedd Gwaith Conwy'n mynd ar y cwrs. Mae'r rhaglen drawsnewid hefyd wedi darparu cyllid i gyflogi Cydlynydd Cyflogadwyedd mewnol i arwain y gwaith hwn. Mae'r penodiad ar y gweill.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i gyflwyno dull 'gwaith yn gyntaf' o fewn y gwasanaeth. Mae gan staff well dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i helpu pobl sydd ag anableddau dysgu ddod o hyd i swydd, ei chael, dysgu sut i'w gwneud a'i chadw drwy'r model cyflogaeth â chymorth. Bydd cyllid ychwanegol drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn galluogi'r gwasanaeth i chwyddo'r dull hwn a chyflwyno llwybrau â sicrwydd ansawdd fel bod pobl yn gallu bod mewn gwaith cyflogedig os ydynt yn dymuno. Mae'r Gwasanaeth Anableddau hefyd yn ymgeisio am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi ein model darparu cyffredinol.

Bydd y gwaith rhanbarthol hwn yn ategu ac yn gwella cynnig y Gwasanaeth Anableddau yn seiliedig ar ddatblygiadau Bryn Euryn, Tan Lan a'r gerddi ac ati, gan ddarparu llwybr allweddol i gyflogaeth i'r rhai sy'n cael eu cefnogi yn y gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth Anableddau hefyd wedi datblygu perthynas waith agosach gyda Chanolbwynt Cyflogadwyedd Conwy ac maent wedi comisiynu interniaethau â chymorth Project Search ar y cyd â Sir Ddinbych.

Y weledigaeth yw darparu amrywiaeth o lwybrau i bobl sydd ag anableddau, gan na fydd un llwybr yn gweddu i bawb. Mae'r Cydlynydd Llwybrau Cyflogadwyedd yn allweddol i lwyddiant ailfodelu gwasanaethau.

## Beth oedd yr heriau?

Bu oedi ar gwblhau'r safle a bu pwysau cyllidebol. Mae'n debygol bod diffyg ymgysylltu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd mewn perthynas â chamau cychwynnol datblygu'r strategaeth oherwydd bod amserlen y prosiect yn ystod y pandemig Covid-19.

Un her allweddol fu recriwtio Cydlynydd Cyflogadwyedd mewnol i arwain y gwaith hwn, ond mae cynnydd ar hyn bellach. Mae bwrw ymlaen â'r trawsnewid i ddiwylliant ac agweddau gan hefyd gydlynu mynediad at y gwasanaeth cefnogi cyflogaeth mwyaf priodol (yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth Conwy) yn gofyn am ffocws ac arweinydd penodol, oherwydd pwysau gweithredol ar y tîm.

## Beth nesaf?

Gweithdy i'r grŵp llywio rhanbarthol adolygu'r Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth ddrafft a chyfrannu at y cynllun gweithredu. Y tîm trawsnewid rhanbarthol sy'n arwain ar hyn a byddant yn gweithio gyda Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i wneud hyn gyda dinasyddion.

Ar ôl y gweithdy, byddwn yn gwybod a fydd adnoddau ychwanegol ar gael drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer y model gwasanaeth cyflogaeth â chymorth ai peidio. Os yw'n llwyddiannus, y nod yw i'r model Cyflogaeth â Chymorth fod ar waith o fis Medi 2023 ymlaen a chael ei werthuso'n annibynnol.

Mewn perthynas â Bryn Euryn, Tan Lan a'r gerddi ac ati, byddwn yn cynnal peilot ar gyfer y Cydlynydd Llwybrau Cyflogaeth, gan gynnal adolygiad o'r disgrifiadau swydd presennol, ac ailstrwythuro'r gwasanaeth i ddarparu ein model newydd cyffredinol.

Rydym ni'n cyfrif darparu cyfleoedd i bobl ifanc sydd ag anableddau i gael swyddi dydd Sadwrn â chyflog yn agwedd allweddol i ddatblygu uchelgeisiau. O ganlyniad, byddwn yn cynnal peilot o hyn yn y caffi ac ym Mhlanhigfa Bryn Euryn ar ôl i'r gwasanaeth gael ei sefydlu.

## Canolfan Seibiant Bron y Nant

Mae dwy elfen i'r prosiect ar y safle hwn, sef adeilad seibiant yn Bron y Nant, a'r blanhigfa, siop a chaffi yn Bryn Euryn. Mae Bron y Nant yn datblygu'n dda, ond mae wedi bod ychydig yn fwy araf na'r disgwyl ac rydym yn disgwyl cael y goriadau yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill, bum mis yn hwyrach na'r bwriad.

Yn Bryn Euryn, mae'r safle wedi bod ar gael i dîm Planhigfa Bryn Euryn er mwyn iddynt baratoi i agor i'r cyhoedd yn y gwanwyn. Byddant yn rhedeg y siop a'r ganolfan arddio pan maent ar agor, ac rydym ni'n gweithio ar hyn o bryd ar osod y silffoedd, y cownter a'r peiriant arian. Bydd y caffi'n cael ei dendro yn dilyn digwyddiad 'cwrdd â'r prynwr' llwyddiannus.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yn yr amlosgfa a'r fynwent i greu mynedfa ar y cyd â Phlanhigfa Bryn Euryn, ac rydym yn falch o ddweud bod y blanhigfa wedi'i throsglwyddo i'r tîm ddechrau mis Mawrth 2023.

## Maethu Cymru Conwy

Ym mis Medi 2021, lansiwyd Maethu Cymru; undeb y 22 Awdurdod Lleol yn cydweithio, yn rhannu gwybodaeth ac yn recriwtio gofalwyr maeth lleol i ofalu am blant yn lleol. Mae'r flwyddyn gyntaf wedi canolbwyntio ar addysgu a darparu gwybodaeth i unrhyw rai sy'n ystyried bod yn ofalwyr maeth ynglŷn â pham mae maethu i'ch Awdurdod Lleol o fantais i blant a phobl ifanc. Rydym ni wedi bod yn rhannu negeseuon lleol a negeseuon Maethu Cymru ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.




Mae gwaith recriwtio wyneb yn wyneb wedi ailgychwyn, ac mae angen ymgysylltu â'r gymuned eto ar ôl y gwaith ail-frandio. Mae'r digwyddiadau recriwtio cymunedol hyn wedi bod yn llwyddiannus i ymgysylltu â'r cyhoedd, hyrwyddo cefnogaeth gymunedol a chael pobl i siarad am Faethu Cymru Conwy.

Mae dal gafael ar ofalwyr maeth yr un mor bwysig, gan mai'r ffordd orau o recriwtio o hyd yw lledaenu'r neges ar lafar. Mae ein digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi ailgychwyn dros y flwyddyn ddiwethaf ac roedd croeso mawr i hynny, ac mae llawer yn dod i'n grŵp cefnogi bob deufis i ofalwyr maeth cyffredinol. Mae'r rhain yn gyfle i gynnig cefnogaeth anffurfiol, datblygu cefnogaeth rhwng y naill a'r llall a rhwydweithio gyda

chydweithwyr eraill, fel Cydlynwyr Addysg ac Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal, y Prif Seicolegydd a'r Tîm Dysgu a Datblygu'r Gweithlu.

Ym mis Hydref 2022, cynhaliom ein Diwrnod Gwerthfawrogi cyntaf erioed i gydnabod cyflawniadau a chyfraniadau ein gofalwyr maeth ar ddiwrnod i adlewyrchu a dathlu. Roedd y Cynghorydd Liz Roberts, Aelod Cabinet Plant, Teuluoedd a Diogelu, yn bresennol i ddiolch i'r gofalwyr maeth am eu hymroddiad a'u gofal i blant a phobl ifanc Conwy.




Mae Maethu Cymru wedi datblygu Fframwaith Dysgu a Datblygu, ac yn 2022, fe wnaeth ein swyddogion gweithlu ddyfeisio cynllun dysgu i gefnogi gofalwyr maeth i gyflawni'r fframwaith. Mae gofalwyr maeth Conwy'n cael cynllun trylwyr sy'n darparu ar gyfer yr 16 maes dysgu craidd mae Maethu Cymru wedi'u pennu. Mae gofalwyr maeth yn parhau i gael eu cefnogi drwy sesiynau goruchwylio bob wyth wythnos, a fydd yn cael eu cynnal dros y we ac wyneb yn wyneb ar ôl cael adborth gan y gofalwyr maeth eu hunain. Mae ymweliadau cefnogi ychwanegol yn cael eu darparu wyneb yn wyneb ar gais.

Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n fawr ar ein gofalwyr maeth. Gwneir pob ymgais i gael adnoddau ychwanegol i'w helpu, boed hynny ar ffurf tocynnau rhatach i Venue Cymru, tocynnau am ddim i gyngherddau neu docynnau i gemau rygbi dan 20 y Chwe Gwlad. Mae gofalwyr maeth yn parhau i gael cerdyn Hamdden Ffit, cerdyn gostyngiadau Max (yn benodol ar gyfer plant maeth neu blant ag anabledd), ac aelodaeth CADW, ac mae pob un yn amhrisiadwy yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn.

Yn 2022, rhannodd Llywodraeth Cymru eu hagenda 'dileu elw' ac fe wnaethom ni lunio Strategaeth Lleoli a Chomisiynu yn ymateb i hynny. Mae un elfen yn trafod recriwtio a chadw gofalwyr maeth, gan ganolbwyntio ar dargedau a chanlyniadau sydd eu hangen erbyn 2026. Mae'r agenda 'dileu elw' wedi creu cyfle am gyllid grant i gyflawni ein strategaeth, gan na fyddai hyn yn bosib' heb gymorth ariannol ychwanegol.

## Beth oedd yr heriau?

Yr her fwyaf sydd wedi bod eleni yw'r argyfwng costau byw. Mae gofalwyr maeth wedi lleisio eu barn am yr effaith mae wedi'i gael ar eu bywydau bob dydd, ac wedi gofyn am fwy o gefnogaeth ariannol. Mae rheoli'r adborth wedi bod yn dra heriol, ac mae'r sefyllfa wedi effeithio ar ysbryd gofalwyr maeth yn ystod grwpiau cefnogi, eu hawydd i fynd ar hyfforddiant, a'r negeseuon maent yn eu rhannu ar lafar i recriwtio gofalwyr maeth newydd. Mae cynnal cefnogaeth gyson ac undod gan y staff wedi bod yn hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn.

## Beth nesaf?

Mae cyflwyno'r cyllid grant 'dileu elw' i ymateb i agenda Llywodraeth Cymru wedi ein galluogi i ystyried cynnydd i ffioedd gofalwyr maeth. Mae'r Taliad Uwch newydd yn caniatáu i Faethu Cymru Conwy fod yn ddewis amgen go iawn i'r asiantaethau maethu annibynnol sy'n ceisio gwneud elw.

Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu mewn ymateb i'n model talu gwell a'r agenda 'dileu elw'.

Byddwn yn parhau â'n strategaethau cefnogi, dysgu a chadw gofalwyr cyson i ddal gafael ar y gofalwyr maeth sydd gennym.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – gweithio mewn partneriaeth

Mae Bwrdd Rheoli Lleol yn craffu ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rheolaidd. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys Prif Swyddogion pob sefydliad a'r cadeirydd yw Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol Conwy. Mae dau aelod etholedig ar y Bwrdd Rheoli Lleol, sef arweinwyr cynrychioladol Plant a Diogelu o Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych.

Bwrdd Rheoli Conwy a Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o adnoddau gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'i fod yn gallu bodloni gofynion statudol yr awdurdod lleol a'n huchelgeisiau i gefnogi plant a phobl ifanc yn y ddwy sir i gyflawni eu potensial a byw bywydau di-drosedd.

Mae cyllid ar gyfer Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych yn cynnwys cyfraniadau gan bartneriaid statudol, Gwasanaethau Plant, y Gwasanaeth Prawf, y GIG, yr Heddlu, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Chronfa Diogelwch Cymunedol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae adnoddau'r Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu a'r GIG yn cael eu dyrannu mewn egwyddor, ar sail staff sydd wedi'u secondio i'r gwasanaeth. Mae telerau ac amodau grant Ymarfer Effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chyllid Llywodraeth Cymru'n pennu'n glir sut mae disgwyl i'r dyraniad gael ei ddefnyddio.

Safon Ansawdd 6: Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal

## Fforymau Plant ac Oedolion

Mae Rhwydwaith Cyfranogiad Oedolion Conwy bellach wedi ailddechrau cynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb yn dilyn pandemig Covid-19. Mae'r aelodaeth yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith Adran Gofal Cymdeithasol Conwy ac a fyddai'n hoffi rhannu eu barn eu hunain neu farn unrhyw grŵp cymunedol neu gymdeithasau.

Ailgychwynnodd y Grŵp Loud Voices ar gyfer plant ieuengach sy'n derbyn gofal yn ystod haf 2022, a hwyluswyd gan y Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol, WCVSC a'r Tîm Safonau Ansawdd. Trefnir cyfarfodydd fesul tymor neu hanner tymor ac maent yn cynnig gweithgareddau yn ogystal ag amser i ymgynghori gyda phlant am destunau fel cyflwyno ap Mind of My Own, a Beth sy'n Gwneud i Mi Deimlo'n Ddiogel yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu.



Ni chynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb y Grŵp Siapio'r Dyfodol ar gyfer oedolion ifanc yn ystod y pandemig ac ar hyn o bryd, mae Tîm Pobl Ddiamddiffyn Conwy yn cydlynu ymgysylltiad gyda'r rhai sy'n gadael gofal drwy:

- Ddefnyddio Ap Mind of my Own
- Wythnos i'r rhai sy'n gadael gofal gyda phobl ifanc ym mis Hydref
- Gwefan newydd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal: Camau Bach Dyfodol Disglair

## Beth oedd yr heriau?

Y prif her oedd hwyluso cyfarfodydd wyneb yn wyneb unwaith eto, ac annog oedolion, plant a phobl ifanc i fynychu ar ôl cyfnod estynedig heb unrhyw gyfarfodydd.

## Beth nesaf?

Yn ystod 2023, rydym yn bwriadu adolygu ein Strategaeth Gyfranogi ac Ymgysylltu gan gynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac sy'n mynychu ein fforymau'n rheolaidd.

# Gwefan Camau Bach Dyfodol Disglair

Mae'r wefan Camau Bach Dyfodol Disglair ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yng Nghonwy wedi parhau i dyfu a datblygu. Hyd yma mae 1,779 o ymweliadau â thudalennau, 778 o ymweliadau a 571 o ymwelwyr â'r safle. Mae pobl ifanc yn awr yn gallu gwneud cais i'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi drwy'r wefan, sy'n rhoi mwy o ymreolaeth a hyblygrwydd iddynt. Mae yna hefyd nodwedd i bobl ifanc allu rhoi sylwadau ar bob erthygl a thudalen ar y wefan.

Yn y Tîm Ymgynghorwyr Personol, fe wnaethom lunio prosiect ar gyfer y myfyriwr yn y tîm i gasglu barn y rhai sy'n Gadael Gofal am ddatblygu'r safle ymhellach, syniadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer Wythnos Gadael Gofal a sut maen nhw'n dymuno cysylltu gyda'u Ymgynghorydd Personol. Bu'r wybodaeth a barn y bobl ifanc a gasglwyd yn hynod werthfawr ac mae'n dylanwadu ar sut mae'r tîm yn gweithio.

## Beth oedd yr heriau?

Yr her yw dod o hyd i ffyrdd i barhau i ymgysylltu gyda phobl ifanc a chadw eu diddordeb wrth weithredu gwelliannau - heb eu mewnbwn nhw, byddai'n anodd iawn i ni ddatblygu'r gwasanaeth.

## Beth nesaf?

Mae gweithio ar y cyd â phobl ifanc yn ymarfer parhaus, yn fuan, byddwn yn anfon arolwg at bobl ifanc mewn perthynas â:

- Beth fyddai pobl yn hoffi ei weld ar y wefan
- Diddordeb mewn cerdded neu weithgareddau eraill mewn grŵp
- Sut mae pobl eisiau dathlu wythnos gadael gofal eleni

# Wythnos i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Mae Wythnos Genedlaethol y Rhai sy'n Gadael Gofal yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir ym mis Hydref, sy'n cynnig cyfle, nid yn unig i amlygu a chanolbwyntio ar yr heriau parhaus sy'n wynebu pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal, ond i arddangos eu cyflawniadau gwych ac i helpu i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Roedd yr wythnos yn llwyddiannus dros ben gydag oddeutu chwarter o'r bobl ifanc rydym yn eu cefnogi yn galw heibio neu'n cyfrannu i'r digwyddiad.


## Beth sydd wedi cael ei wneud?

Eleni, penderfynom gynnal digwyddiad drwy'r wythnos yng Nghoed Pella oedd yn rhoi cyfle i'n pobl ifanc i arddangos eu sgiliau a'u talentau. Fe wnaethant gynnal arddangosfa o waith celf, arddangosfa o Ddawnsio Morris a chyflwyniad dyddiol am hanes lleol. Daeth amrywiaeth eang o asiantaethau ynghyd gyda stondinau gwybodaeth, gan roi amrywiaeth o gefnogaeth i bobl ifanc, fel cyflogaeth, hyfforddiant, iechyd meddwl a gwirfoddoli, i enwi rhai pethau'n unig, ac yn y broses, fe wnaethom ostwng y stigma sydd ynghlwm â bod mewn gofal. Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â Voel Coaches wnaeth gynnig talebau i'r rhai sy'n gadael gofal i archebu taith o'u dewis, gan roi cyfle i bobl ifanc fwynhau teithiau arbennig gyda ffrindiau a theuluoedd, yn aml, nid ydynt wedi cael profiad o'r fath o'r blaen. Yn ogystal â hyn, lluniodd un dyn ifanc gyflwyniadau PowerPoint am hanes Tramffordd y Gogarth, Pier Bae Colwyn a'i daith ei hun drwy ofal. Lluniodd merch ifanc arall gyflwyniad oedd yn dangos ei llwyddiannau a sut mae hi'n 'rhoi'n ôl', er enghraifft drwy ei gwaith gyda Child Line.

## Pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud?

Drwy gydol yr wythnos, siaradodd y bobl ifanc gyda ni am sut beth yw bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol a'r stigma a'r gwahaniaethu y maent wedi'u profi. Bydd eu hadborth yn awr yn cael ei ddefnyddio i'n helpu ni i wella darpariaeth y gwasanaethau rydym yn eu cynnig.

Roedd yr wythnos yn llawn llwyddiant a chawsom adborth cadarnhaol iawn gan y bobl ifanc, eu teuluoedd a'r gwasanaethau a fynychodd y digwyddiad.




## Datblygu gwasanaethau seibiant Bron y Nant

Gyda'r ganolfan seibiant newydd yn agor ym Mron y Nant eleni, cysylltom gyda theuluoedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau egwyliau byr i ofyn am eu barn am sut ddylai'r ddarpariaeth weithredu yn y dyfodol, a'r hyn ddylid ei gynnwys yn y llyfryn sydd ei angen yn unol ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Gofynnom i deuluoedd, pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a rhieni a gofalwyr i fod yn rhan o'r broses gyfweld ar gyfer staff newydd sy'n cael eu recriwtio i'r gwasanaeth.

### Beth oedd yr heriau?

Roedd hi'n anodd cysylltu gyda rhai teuluoedd, ac nid oedd eraill eisiau rhoi gwybodaeth gan nad oes modd cynnig gwasanaeth iddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn fodlon helpu gyda'r ymgynghoriad a'r broses gyfweld ar gyfer staff.

### Beth nesaf?

Pan fydd y broses recriwtio wedi'i chwblhau, bydd llyfryn gwasanaeth yn cael ei greu, gan gynnwys lluniau o'r adeilad newydd a disgrifiad o'r gwasanaethau fydd ar gael yno.

## Cartref Preswyl Llys Elian: Casglu barn aelodau'r teulu

Ym mis Mawrth, cynhaliom arolwg gyda theulu a ffrindiau yr unigolion sy'n byw yng nghartref preswyl Llys Elian. Gofynnom gwestiynau am ansawdd y gefnogaeth yr oedd eu hanwyliaid yn ei chael yn y cartref, a faint

o ran yr oeddent yn ei chwarae wrth gynllunio a darparu gofal a chefnogaeth. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn, gyda 100% o'r ymatebwyr yn cytuno:

- Bod rheolwyr a staff Llys Elian yn gwrando arnynt, ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau am y gofal a'r gefnogaeth a roddir a'r cyfleoedd sydd ar gael i'w hanwyliaid
- Mae eu hanwyliaid yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn Llys Elian petaen nhw'n dymuno hefyd
- Mae eu hanwyliaid yn hapus ac yn cael cefnogaeth gyda'u hiechyd a'u lles cyffredinol ac mae ganddynt fynediad i wasanaethau iechyd a phrydau bwyd maethlon
- Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Mae'r gwasanaeth yn cynnal preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd eu preswylwyr
- Mae Llys Elian yn amgylchedd cyfforddus lle gall preswylwyr roi eu heitemau eu hunain yn eu gofod eu hunain
- Pan fo ffrindiau a theuluoedd yn ymweld â'u hanwyliaid yn Llys Elian, maent yn cael eu croesawu yno
- Mae ffrindiau a theuluoedd yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at ofal a chefnogaeth eu hanwyliaid.

Mae sylwadau ychwanegol a wnaed gan ymatebwyr yn dangos eu bod yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth o ansawdd uchel y mae Llys Elian yn ei roi i ffrindiau a theuluoedd

Mae Llys Elian yn sefydliad ardderchog gyda staff anhygoel sy'n rhoi 100% i ofalu.

Mae'r staff mor glên a gofalgar bob amser, rydym yn ddiolchgar iawn am yr hyn maen nhw'n ei wneud i mam. Mae'n amlwg nad ydyn nhw'n ystyried mam fel 'defnyddiwr gwasanaeth' yn unig, ac mae hynny'n golygu rhywbeth i ni gyd.

Yn fy marn i, ni allwn ofyn am le gwell i fy nhad.
Mae nhw fel teulu ac yn ei drin felly hefyd. Rydw i mor ddiolchgar iddyn nhw.

## Cael adborth am y Gwasanaeth Lles Meddyliol

Eleni, cynhaliodd ein Tîm Lles Meddyliol arolwg o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan eu dewis ar hap i roi adborth iddynt am y gefnogaeth maen nhw'n ei gael. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn a rhoddwyd y cyfle i gyfranogwyr ateb neu beidio. Roedd y lefel o gyswllt oedd ganddynt gyda'r tîm yn amrywio, gyda rhai wedi cael gweithiwr cymdeithasol, ac eraill wedi cael gweithiwr ymyrryd.

O'r 13 unigolyn wnaethon ni gysylltu â nhw, cytunodd 11 i roi adborth. Ar y cyfan roedd eu sylwadau yn gadarnhaol ac yn llawn canmoliaeth.

Mae o wedi fy helpu i i gyflawni gymaint. Gallaf wneud yr hyn ydw i eisiau ei wneud, o'i herwydd.

Wel, mae hi'n dda iawn i fod yn onest. Mae hi'n fy nghefnogi, ac mae hi bob amser yno i mi gael siarad â hi.

Mae fy mywyd wedi newid. Yn syml, rydw i'n byw bywyd arferol. Mae o cystal â hynny. Siaradais gyda [fy ngweithiwr achos] yn ddiweddar a dywedais wrthi nad oeddwn ei hangen hi bellach. Gall helpu rhywun arall rŵan.

### Cael adborth am ymyriadau ein Canolfannau Teuluoedd

Rydym yn cynnal arolwg parhaus, sy'n gofyn i bobl sydd wedi cael cefnogaeth gan y pum Canolfan Teuluoedd rannu eu profiadau a'r barn. Mae'r cwestiynau yn gysylltiedig â'n Safonau Cefnogi Teuluoedd ac rydym yn annog cyfranogwyr i helpu i lunio ein gwasanaethau. Dyma rywfaint o'r adborth a gawsom eleni:

Cytunodd 88% ein bod yn cysylltu â phobl sydd angen cefnogaeth gennym o fewn wythnos o'r cyswllt cyntaf. Mae adborth yn awgrymu, hyd yn oed os nad ydym yn gallu pennu Gweithiwr Teulu ar unwaith, ein bod yn cadw mewn cysylltiad â theuluoedd i wirio eu lles, nes ein bod yn gallu eu cysylltu â gweithiwr penodol.

Dywedodd 98% ein bod yn gyfeillgar, yn onest, yn barchus ac yn broffesiynol:

Mae hi'n hawdd i siarad â hi ac yn gyfeillgar iawn ond yn 100% proffesiynol.

Mae pawb mor gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Maen nhw i weld fel petaent yn gofalu amdanaf i a'm merch.

Teimlai 90% o'r ymatebwyr bod eu llais yn bwysig, ein bod yn gwrando arnynt, ac yn gallu ystyried gwahanol feysydd o'u bywyd teuluol gyda'u Gweithiwr Teulu

I fod yn onest, yn y dechrau, roeddwn i ar goll, ac nid oeddwn yn gwybod beth ddylwn i ei wneud er gorau. Ond unwaith wnes i siarad â'm gweithiwr cefnogi, roedd hi'n fy sicrhau fy mod yn gwneud y peth cywir, ac mae hi'n fy helpu i adeiladu pontydd a rheoli fy mywyd.

Roedd 95% yn cytuno, pan fyddant yn teimlo fel bod ganddynt reolaeth dros bethau, ein bod yn eu helpu i symud ymlaen gyda'u bywyd teuluol

Rydw i'n teimlo ein bod ar y trywydd cywir, ac mae gennym dipyn i fynd, ond gan edrych ar yr ochr gadarnhaol yn hytrach na'r negyddol.

Ni fyddwn yn meddwl ddwywaith cyn cysylltu â'r gwasanaeth petawn i angen gwneud hynny. Maen deimlad braf gwybod y gallaf gael y gefnogaeth yma eto.

Mae'n amlwg o'r sylwadau ychwanegol bod y Canolfannau Teuluoedd yn parhau i gynnig cefnogaeth werthfawr i deuluoedd yng Nghonwy sy'n ei chael hi'n anodd. Byddwn yn parhau i ofyn am adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau er mwyn ceisio bodloni ein safonau uchel, ac yn datblygu gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth ystyrlon.

Mewn byd lle mae'n rhaid i chi sgrechian i gael eich clywed, rydw i'n ddiolchgar bod systemau cefnogi fel hyn ar gael, lle maen nhw'n sgrechian gyda chi ac yn eich helpu i ddatrys y broblem yn well ac yn gynt. Diolch yn fawr iawn!

## Gweithgareddau grŵp anffurfiol

Mae ein Canolfannau Teuluoedd wedi bod yn cynnal gweithgareddau grŵp anffurfiol ym mhob ardal, gan gynnwys grwpiau chwarae, maethu, panad a sgwrs a grwpiau babanod. Maen nhw wedi gofyn i gyfranogwyr roi gwybod i ni pa sesiynau maen nhw wedi'u mynychu a sgorio eu profiadau.

Hyd yn hyn, mae 100% o gyfranogwyr wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau, ac yn y sylwadau ychwanegol a gafwyd, cafwyd clod brwdfrydig iawn i drefnwyr a hwyluswyr y digwyddiadau.

> Beth allaf i ei ddweud? Mae'r tîm yn y ganolfan yn wych ym mhob ffordd. Mae'r gefnogaeth a'r cymorth maen nhw wedi'i roi i mi a'm mab, yn ogystal â'r teuluoedd eraill yn anhygoel, ac maen nhw'n gwneud gymaint o weithgareddau i deuluoedd gael cymryd rhan ynddynt ac mae gallu codi'r ffôn neu alw mewn am sgwrs sydyn yn wych. Tîm hollol wych.



Nododd 71% bod y grŵp wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd eu teulu, gyda 26% pellach yn nodi ei fod wedi cael effaith gadarnhaol. I rai rhieni, mae'r gweithgareddau grŵp yn eu helpu i deimlo'n llai unig, ac mae eraill wedi gwneud ffrindiau yn y sesiynau.

Mae hi wedi bod mor ddefnyddiol cael rhywle i fynd gyda rhieni eraill sy'n deall eich bywyd bob dydd.

Mae mynychwyr wedi rhoi rhai syniadau ar gyfer gweithgareddau grŵp i'r dyfodol i ni hefyd a byddwn yn ystyried y rheiny y flwyddyn nesaf.

## Cael adborth am ein Gwasanaeth Ail-alluogi

Mae ein Gwasanaeth Ail-alluogi yn darparu cyfnodau byr o gefnogaeth dwys i bobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac angen cymorth i godi hyder, sgiliau ac annibyniaeth yn eu cartrefi. Ar ddiwedd bob cyfnod o ail-alluogi, rydym yn gofyn i unigolion yr ydym ni wedi'u cefnogi am eu barn a'u profiadau. Mae hyn yn ein helpu ni i sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i'r diben ac yn parhau i fodloni canlyniadau personol pobl.

Dyma flas o'r canlyniadau o 2022-23.

- Cytunai 91% eu bod nhw, eu teulu, eu ffrindiau a'u gweithiwr cymdeithasol yn rhan o'r drafodaeth i gynllunio a chytuno ar eu cefnogaeth.
- Teimlai 99% y bodlonwyd eu disgwyliadau o'r gwasanaeth
- Dywedodd 91% eu bod wedi cytuno ar eu canlyniadau personol gyda nhw ar gychwyn y gwasanaeth.
- Teimlai 92% eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau a bennwyd erbyn diwedd y cyfnod ymyrraeth
- Teimlai 97% o bobl oedd â dymuniadau diwylliannol neu grefyddol bod hynny wedi'i ystyried a bod y gwasanaeth wedi darparu ar eu cyfer yn ystod yr ymyrraeth
- Teimlai 95% bod y gefnogaeth a gawsant yn hyblyg, e.e. amseroedd ymweld a'u hyd
- Teimlai 94% bod y gefnogaeth a gawsant yn gyson, h.y. fe wnaeth yr un tîm o weithwyr cefnogi ymweld â nhw
- Teimlai 99% fod y cymorth a gawsant wedi'u galluogi i wneud cymaint ag y gallent drostynt eu hunain
- Roedd 100% yn cytuno fod ein staff yn ddymunol, yn garedig ac yn gwrtais

Yn ogystal â'r sgoriau cadarnhaol, cawsom lawer o sylwadau llawn anogaeth am y gwasanaeth ail-alluogi:

Ni allwn fod yn hapusach nac yn fwy balch. Fe wnaeth y staff wneud byd o wahaniaeth i mi, roedden nhw bob amser yn ddefnyddiol ac ar gael.

Roedd y gefnogaeth yn y bore yn ddefnyddiol, gan fy ngalluogi i gryfhau wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaenau.

Roedden nhw i gyd mor glên, yn enwedig yn ystod y diwrnodau cyntaf pan roedd angen llawer o gymorth arnaf.

# Lles

Safon Ansawdd 7: Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed

## Y Dull Gweithredu *Safe and Together*

Mae'r dull gweithredu *Safe and Together* wedi'i gyflwyno yng Nghonwy dan arweiniad y tîm Pobl Ddiamddiffyn. Mae'n ddull ymarfer sydd â'r nod o wella'r ffordd y mae systemau lles plant ac ymarferwyr yn ymateb i gam-drin domestig. Mae'r dull yn ymdrin ag achosion o gam-drin domestig sy'n cynnwys plant ar sail patrymau ymddygiad troseddwyr, ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ymddygiad y camdriniwr yn hytrach na dilyn y patrwm arferol o weld y dioddefwr fel rhywun na fedr amddiffyn eu plentyn.

Cyflwynodd y *Safe and Together Institute* orolwg o'r dull *Safe and Together* dros ddeuddydd ym mis Mawrth 2022. Rhoddwyd gwybodaeth i gyfranogwyr am greu system lles plant sy'n ymwybodol o drais domestig, ac esboniwyd egwyddorion a chydrannau'r dull gweithredu. Rhoddwyd rhagflas hefyd o'r fframwaith ar gyfer meithrin cymhwysedd ym maes trais domestig. Bu nifer o asiantaethau partner yn bresennol yn y sesiynau hynny, gan gynnwys yr Heddlu, Addysg, Iechyd a'r Uned Diogelwch Trais Teuluol. Daeth cyfanswm o 110 o bobl. Cafwyd ymateb cadarnhaol dros ben a gofynnodd nifer o asiantaethau partner am gael mynd ymlaen i'r cam nesaf o'r hyfforddiant (Hyfforddiant Craidd). Rhoddwyd blaenoriaeth i ddarparu'r elfen hon o'r hyfforddiant i Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Ymyriadau, a gwnaed hynny ar-lein rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022.

Mae'r Tîm Cryfhau Teuluoedd wedi defnyddio'r dull ymarfer a'r technegau i gyflawni canlyniadau da i blant. Maent wedi ymgysylltu â throseddwyr, dod i ddeall eu patrymau ymddygiad camdriniol ac effaith yr ymddygiad ar blant.

## Fforwm Amlasiantaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol

Mae Fforwm Amlasiantaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol Conwy yn dal i dyfu. Gydol y flwyddyn rydym wedi gallu croesawu mwy o weithwyr proffesiynol o dimau amrywiol i'r Fforwm, megis y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid.

### Beth sydd wedi cael ei wneud?

Mae ein prif waith yn canolbwyntio ar gynllun gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol Llywodraeth Cymru a chreu Llwybr Ymddygiad Rhywiol Niweidiol i bob asiantaeth gael mynediad ato yng Nghonwy. Rydym wrthi'n ceisio sicrhau bod ein gwe-dudalennau a'r fewnrwyd yn cynnig adnoddau effeithiol i weithwyr proffesiynol yn ogystal â rhieni a gofalwyr. Byddwn hefyd yn ymgynghori'n gyson â staff sydd angen cymorth ag achosion cymhleth sydd ag elfennau o gam-drin plant yn rhywiol.

### Pa wahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud?

Bu modd inni sefydlu grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n cynorthwyo â'r cynllun gweithredu cenedlaethol. Mae'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen ar y wefan yn golygu fod gan weithwyr proffesiynol a rhieni adnodd ar-lein yn rhad ac am ddim. Mae'r staff wedi magu hyder a chael cefnogaeth wrth gymryd rhan mewn ymgyngoriadau ynghylch achosion cymhleth o gam-drin plant yn rhywiol.

### Beth oedd yr heriau?

Mae gan holl aelodau'r Fforwm ddyletswyddau beunyddiol eraill a gall fod yn anodd sicrhau presenoldeb pawb mewn cyfarfodydd. Bu'n heriol hyrwyddo'r Fforwm. Er inni ddefnyddio amryw gyfryngau cyfathrebu fel newyddlenni a siarad mewn cynadleddau mawr, rhaid oedd gwneud hyn hefyd ar ben ein prif ddyletswyddau.

## Beth nesaf?

Byddwn yn gweithio ar fwy o hyfforddiant a hyrwyddo ein gwaith drwy amryw gyfryngau.  Byddwn hefyd yn gweithredu'r Llwybr Ymddygiad Rhywiol Niweidiol.

# Mynd i'r afael â chamfanteisio mewn partneriaethau

Yn ystod y pandemig gwelsom gynnydd mawr yn nifer y plant y camfanteisiwyd arnynt yn droseddol ac yn rhywiol, neu a wynebodd fygythiad o hynny. Gweithiodd ein Canolfannau i Deuluoedd gydag Addysg, Heddlu Gogledd Cymru, Cyfiawnder Ieuenctid a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sefydlu gweithgor bach i fynd i'r afael â'r cynnydd hwn.

- Lluniom fap o'r sir i ddangos ym mha ardaloedd y gwelwyd problemau mynych, gan gyfuno gwybodaeth gan amryw asiantaethau i greu darlun cyflawn.
- Cynhaliom gyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd yng nghyd-destun camfanteisio ar blant, er mwyn rhannu gwybodaeth a hysbysu gwasanaethau o'r datblygiadau diweddaraf.
- Cynhaliom sesiynau ar-lein ym mis Medi 2022 ar gyfer rhieni, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn sôn am ddiwylliant gangiau a llinellau sirol, yng nghwmni Matthew o *1 Message*. Bu Matthew'n sôn am ei brofiad o gael ei fagu mewn diwylliant o gangiau a llinellau sirol a sut lwyddodd i gefnu ar y bywyd hwnnw a dechrau cefnogi pobl ifanc eraill i beidio ag ymhél yn yr un diwylliant, neu drawsnewid eu bywydau.
- Ym mis Hydref 2022 bu Matthew'n ymweld â phedair o ysgolion uwchradd i siarad â phobl ifanc, dweud ei hanes ac ateb unrhyw gwestiynau. Rhannodd nifer o bobl ifanc eu profiadau mewn ymateb i hyn, ac maent bellach yn derbyn cefnogaeth.
- Ym mis Hydref hefyd cynhaliom weithdy diogelu ar-lein i rieni. Roedd hynny'n ategu'r sesiynau a ddarparwyd mewn ysgolion, ac rydym yn bwriadu dal i gynnig y sesiynau i rieni yn y dyfodol.
- Hwylusodd Heddlu Gogledd Cymru sesiynau ynglŷn â chamfanteisio mewn Canolfannau i Deuluoedd ledled Conwy er mwyn helpu cymunedau i ddeall yr arwyddion i gadw golwg amdanynt a sut i roi gwybod am unrhyw beth sy'n ymddangos yn rhyfedd neu'n amheus. Byddwn yn dal i ddarparu'r sesiynau hyn mewn cymunedau.

## Beth oedd yr heriau?

Fe gymerodd amser i ddod â'r asiantaethau iawn ynghyd, er eu bod oll yn gefnogol ac yn awyddus i gydweithio er mwyn gwneud gwahaniaeth. Bu'n fuddiol canolbwyntio ar graidd bychan o gyfranogwyr wrth gynnal gweithgorau'n gyson, a gwahodd asiantaethau sy'n arbenigo yn y maes dan sylw i bob cyfarfod. Fe'i cawsom yn anodd hefyd i chwalu'r mythau, sicrhau bod y wybodaeth iawn yn cyrraedd cymunedau a'r plant a phobl ifanc mwyaf diamddiffyn.

## Beth nesaf?

Byddwn yn dal i gwrdd fel grŵp amlasiantaethol bach i drafod dulliau newydd o fodloni anghenion pobl ifanc yn ein cymunedau, a byddwn yn llunio cynllun ar gyfer darparu'r wybodaeth briodol iddynt. Byddwn yn gofyn i bobl ifanc a'u teuluoedd pa bethau y dymunant wybod mwy amdanynt, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cyngor penodol a pherthnasol.

Byddwn yn ystyried a fyddai ymgyrch debyg i '*Ask for Angela*' yn addas i blant a phobl ifanc, lle byddant yn gallu galw am help mewn sefyllfaoedd anodd.

Byddwn yn ymgynghori â chymunedau lleol, gan fod ymagwedd gymunedol tuag at atal camfanteisio yn allweddol.

# Proses Pryderon Cynnar ac Uwchgyfeirio Pryderon

Cynhaliodd ein Tîm Safonau Ansawdd dros 100 o ymweliadau monitro i gartrefi gofal, darparwyr gofal cartref a sefydliadau byw â chymorth dros y deuddeg mis diwethaf. Cynhaliwyd rhai o'r ymweliadau hyn ar y cyd gyda'n partneriaid ar Fwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr ac eraill gyda'n timau gwaith cymdeithasol. Pwrpas yr ymweliadau yw adolygu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gan roi ystyriaeth i faterion megis

staffio, hyfforddiant, diogelu, lles personol ac ansawdd yr amgylchedd. Mae canlyniadau'r ymweliadau monitro hyn yn cael eu rhannu gyda'r darparwr a gyda'n gilydd, os oes angen, rydym yn cytuno ar gynllun gweithredu priodol.

Pob mis rydym yn cynnal cyfarfod 'cylch ansawdd' lle bo swyddogion o'n Gwasanaethau Safonau Ansawdd a Diogelu a Gweithwyr Cymdeithasol yn cyfarfod â phartneriaid o BIPBC, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfagos i rannu gwybodaeth am y gwahanol ddarparwyr yr ydym ni i gyd yn eu comisiynu ac er mwyn cydlynu ein gweithgarwch a'n hymyriadau.

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi cefnogi pedwar cartref gofal gwahanol drwy'r broses Pryderon Cynyddol. Gweithdrefn ledled Gogledd Cymru yw hon sy'n galluogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i weithio gyda darparwyr gofal a gomisiynwyd i ymdrin â meysydd pryder cynyddol ac arwyddocaol. Bu'r tîm Safonau Ansawdd yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr hyn, ynghyd â'n partneriaid yn BIPBC ac AGC i sicrhau bod y meysydd pryder yn cael eu datrys a'r safonau'n gwella.

Ynghyd â hyn, mae'r Tîm Datblygu'r Gweithlu a Dysgu wedi parhau i gefnogi'r sector cartrefi gofal a'r sector gofal gartref er mwyn cael hyfforddiant hanfodol, ac yn enwedig dros y deuddeg mis diwethaf, wedi'u cefnogi nhw gyda chofrestru gweithwyr cartrefi gofal preswyl oedolion gyda Gofal Cymdeithasol Cymru drwy aelod penodol o staff.

### Beth oedd yr heriau?

Rydym yn parhau i weld ôl-effeithiau pandemig Covid, sy'n cael eu dwysau gan y sefyllfa economaidd fyd-eang a'r argyfwng costau byw. Mae darparwyr gofal yn parhau i frwydro gyda recriwtio a chadw staff, gyda nifer fechan o ddarparwyr yn dibynnu'n sylweddol ar weithwyr asiantaeth, sy'n gallu bod yn gostus iawn ac hefyd, nid ydynt yn darparu'r gofal cyson sydd ei angen. Mae'r argyfwng costau byw wedi golygu cynnydd sylweddol yng nghostau bwyd, gwasanaethau a thanwydd y darparwyr gofal. Ar ôl cael cynrychiolaeth gan y sector gofal gartref am effaith chwyddiant sy'n codi, fe wnaethom y penderfyniad i gynnal adolygiad canol blwyddyn o'n lefelau ffioedd ac fe wnaethom ymgorffori cynnydd bychan yn ein ffioedd cartrefi gofal i gydnabod y chwyddiant ar lefel uwch o 10.1%. Fe wnaethom adolygu ein ffioedd sy'n cael eu talu i ddarparwyr gofal gartref hefyd a defnyddiom arian Llywodraeth Cymru i roi £1 yr awr yn ychwanegol i gefnogi costau tanwydd a staffio cynyddol sy'n effeithio ar y sector hwn.

### Beth nesaf?

Rydym yn falch iawn gyda'r ffordd y mae'r prosesau hyn yn gweithio yng Nghonwy a'r bartneriaeth waith sydd gennym gyda BIPBC, AGC a'r darparwyr gofal annibynnol.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal ymgynghoriad ystyrlon ac ymgysylltu gyda phreswylwyr cartrefi gofal a'u teuluoedd yn barhaus. Rydym wedi cychwyn cynllunio prosiect therapi atgofion newydd ar gyfer 2023, gyda Cyngor Sir Ddinbych a bookofyou.co.uk a fydd yn cynnwys mwy o wirfoddolwyr, preswylwyr a'u teuluoedd wrth greu straeon bywyd gan ddefnyddio geiriau, lluniau, cerddoriaeth a ffilm.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Diogelu

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi mabwysiadu Dull Graddedig gyda phob achos er mwyn gwneud yn siŵr bod ymyriadau yn cael eu teilwra i'r unigolyn, ac yn seiliedig ar asesiad o'u risgiau a'u anghenion.  Y canlyniadau arfaethedig yw gostwng y tebygolrwydd o'r unigolyn ifanc yn aildroseddu drwy deilwra dwysedd yr ymyriad yn yr asesiad, a rheoli'r risg o niwed difrifol iddyn nhw eu hunain ac eraill.

## Pennod Newydd

Eleni, sefydlwyd ymyrraeth newydd yng Nghonwy i gefnogi teuluoedd sy'n profi ymddygiad ymosodol gan eu plant.  Mae camdriniaeth rhwng plentyn a rhiant / gofalwr yn fater sy'n cynyddu, ac er ei fod yn parhau i gael ei guddio ac yn llawn stigma, mae mwy o deuluoedd yn ceisio cymorth.

Buom yn gweithio gyda Dr Ceryl Davies o Brifysgol Bangor i addasu ei rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Conwy.  Erbyn hyn, mae gennym becyn gwaith gyda llwybr pendant ar gyfer cael cefnogaeth, teclyn sgrinio, templed cynllun diogelwch a rhaglen naw wythnos o ymyriadau sy'n gallu cael ei ddarparu mewn

grŵp neu un i un.  Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, mae mwy nag 80 o staff yng Nghonwy wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno’r ymyriadau gyda rhieni a gofalwyr, a chyda phobl ifanc.  Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol aml-asiantaeth bellach yn gallu cyflwyno’r ymyriadau, gan gynnwys Gweithwyr Teuluoedd, Gweithwyr Cymdeithasol, Gweithwyr Therapiwtig, Gweithwyr Ieuenctid, y Tîm TRAC, Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Cam-drin Domestig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Swyddogion Addysg a mwy.

Enw’r rhaglen yw ‘Pennod Newydd’ i adlewyrchu’r cychwyn cadarnhaol newydd i’r teuluoedd hyn. Cychwynnodd yr ymyrraeth grŵp cyntaf ym mis Mawrth ar gyfer grŵp o rieni a gofalwyr a grŵp o bobl ifanc ar wahân.   Mae digonedd o gefnogaeth ar gael i ymarferwyr sy’n defnyddio’r ymyraethau, gyda sesiynau myfyrio rheolaidd gyda Dr Ceryl Davies.



## Wythnos Ddiogelu 2022


Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Diogelu rhwng 14 a 18 Tachwedd 2022 ac unwaith eto fe wnaethom gydlynu gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion a phlant dan fygythiad. Fe wnaethom ddefnydd penodol o sesiynau briffio 7 munud Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, a ddosbarthwyd i staff ar draws holl wasanaethau'r Cyngor bob dydd yn ystod yr wythnos. Bob dydd fe aethom ati i archwilio themâu newydd, megis diogelu mewn chwaraeon, bwlio ar-lein, chwilfrydedd proffesiynol a rheolaeth drwy orfodaeth.

**Rydym yn credu bod diogelu yn fusnes i bawb, felly os oes gennych bryderon am unigolyn, rhowch wybod i ni.**

## Sesiynau a Grwpiau Cymunedol

Mae ein Tîm Cadw'n Iach yn trefnu ac yn hyrwyddo gweithgareddau yn y gymuned ledled Sir Conwy er mwyn i bobl hŷn wella eu lles corfforol a meddyliol. Caiff unigolion eu hannog i gysylltu gyda'u cymunedau a dysgu sgiliau newydd. Eleni, fe wnaethom nodi bod angen nifer o sesiynau gweithgareddau newydd, ac mae'r rhain bellach wedi'u sefydlu ac yn hunangynaliadwy:

- Sesiynau canu llawn hwyl yn Llanrwst, mewn partneriaeth gyda Chartrefi Conwy
- Sesiwn ymarfer corff o'ch sedd yn Llandrillo-yn-Rhos,, gyda darparwr lleol - Matt Freeman
- Sesiynau natur a mynd am dro ym Mae Colwyn, mewn partneriaeth gyda Coed Lleol.
- Prynhawn llawn celf yn Llandudno, mewn partneriaeth gydag Oriel Gelf Mostyn



Un o'n prif amcanion eleni oedd hyrwyddo ein darpariaeth gyfredol felly fe wnaethom ail-lansio ein hamserlenni a byddwn yn parhau i'w diweddaru bob chwarter. Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2022 fe gynhaliom 74 o sesiynau gwahanol a fynychwyd gan 682 o bobl. Cynigom ystod o ddigwyddiadau cymdeithasol, teithiau cerdded addysgol, sesiynau celf a chrefft, sesiynau yn ymwneud yn benodol â dementia, sesiynau rhwng cenedlaethau a sesiynau i ofalwyr, i enwi ond rhai.

Rydym yn gofyn am adborth gan bobl sy'n mynychu ein sesiynau, ac ar gyfer y rheiny a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr:

- Dywedodd 55% ohonynt eu bod yn fwy egnïol o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 97% eu bod wedi cysylltu ag eraill o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 75% ohonynt eu bod yn fwy tebygol o roi amser i eraill o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni

- Dywedodd 93% eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 85% eu bod wedi cymryd fwy o sylw o'u hunain, ac eraill o'u cwmpas, o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 75% eu bod wedi gwella eu lles cyffredinol o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 53% eu bod wedi gwella cyflwr eu hiechyd o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 32% ohonynt eu bod yn teimlo'n llai unig o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 81% eu bod wedi cyflawni'r hyn sydd wirioneddol yn bwysig iddynt o ganlyniad i fynychu un o'n rhaglenni
- Dywedodd 98% y byddent yn argymell ein gwasanaeth i eraill

### Beth oedd yr heriau?

Roedd gennym ddiffyg staff wrth ddisgwyl am ganlyniad cynigion nawdd i recriwtio i swyddi gweigion. Gostyngodd gallu ein tîm o 59% am dros chwe mis wnaeth gael effaith fawr ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion a'n nodau a llesteiriodd ein gallu i wneud cynlluniau tymor hir.

### Beth nesaf?

Erbyn hyn, mae gennym dri Swyddog Lles llawn amser sydd wedi cael eu dyrannu i'w hardaloedd canolbwynt newydd sef Bae Cinmel a Thowyn, Llandrillo-yn-Rhos a Dwygyfylchi a Phenmaenmawr. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn yn yr ardaloedd hyn ac rydyn yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar gyflawni sesiynau ymgynghori anffurfiol, fel boreau lles, stondinau ymwybyddiaeth a theithiau cerdded. Bydd y sesiynau hyn yn ein galluogi ni i hyrwyddo ein darpariaeth gyfredol a chysylltu â phobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd hyn er mwyn gweld a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Yna, rydym yn gobeithio cefnogi sefydlu gweithgareddau newydd, cynaliadwy i gefnogi iechyd a lles oedolion hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.

## Cynllun peilot incwm sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal

Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Gynllun Peilot Incwm Sylfaenol'. Cynllun yw hwn ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, sy'n troi'n 18 oed mewn cyfnod penodol o amser. Mae'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol yn darparu £1600 bob mis am gyfnod o ddwy flynedd. Mae'n cael ei drethu ar y dechrau ac mae'n cael ei dalu yn lle budd-daliadau.

Yng Nghonwy, mae gennym naw o bobl ifanc sy'n gymwys ar gyfer y cynllun. Ar hyn o bryd, roedd pedwar o bobl ifanc yn gymwys i gofrestru ar gyfer y cynllun ac fe wnaeth tri ohonynt dderbyn y cyfle. Mae un ohonynt wedi gallu canolbwyntio ar ddechrau busnes, sydd wedi bod yn gam cadarnhaol.

### Beth oedd yr heriau?

Cyfnod lansio byr iawn oedd yna ar gyfer y cynllun peilot ac fe wnaeth hynny effeithio ar ein gallu i gynllunio i weithredu'r cynllun.

Oherwydd yr ansicrwydd o ran yr argyfwng economaidd, nid oes unrhyw warant y bydd hyn yn parhau tu hwnt i'r cyfnod peilot cychwynnol.

### Beth nesaf?

Bydd pobl ifanc yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ymchwil i ystyried effeithiolrwydd y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol.

## Cronfa Dydd Gŵyl Dewi

Mae Cronfa Dydd Gŵyl Dewi yn nawdd cymharol fechan, £33,205 y flwyddyn, sy'n anelu at gefnogi plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal rhwng 16 a 25 oed.

Pwrpas y grant yw rhoi cefnogaeth ychwanegol tuag at fyw'n annibynnol, gan ganolbwyntio ar feysydd fel:

- Helpu gyda chyflogaeth, er enghraifft gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, teithio, trwyddedau.
- Hyfforddiant ac addysg; er enghraifft, gliniaduron a llyfrau cwrs.
- Anghenion llety fel nwyddau'r tŷ a chefnogaeth gyda blaendaliadau a symud tŷ.
- Iechyd a lles cyffredinol fel dillad a byw'n iach.

Yn ogystal â chefnogi rhaglenni unigol, defnyddiwyd cronfa Dydd Gŵyl Dewi i ddatblygu gwefan yn benodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yng Nghonwy, o'r enw Camau Bach Dyfodol Disglair. Hyd yn hyn, rydym wedi cael 53 cais drwy'r wefan ar gyfer cronfa Dydd Gŵyl Dewi.

## Beth oedd yr heriau?

Yr her parhaus ac allweddol wrth reoli'r grant yw sicrhau ein bod cyn deced â phosib a bod y nawdd yn cael ei ddefnyddio i roi'r budd gorau i bob unigolyn. Mae gennym banel wythnosol, sy'n cynnwys unigolyn ifanc, fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym a bod bob cais yn cael ei adolygu yn unol â'i rinweddau ac yng nghyd-destun ceisiadau blaenorol. Roeddem ni'n falch iawn o gael sicrwydd uchel yn ystod yr arolwg archwilio diwethaf.

## Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i reoli'r gronfa grantiau mor effeithiol ac effeithlon â phosib, ac ar yr pryd yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Rydym wedi gwneud cysylltiadau gyda Can Cook, elusen benodol ar gyfer cefnogi pobl i fwyta'n dda ac o hyn ymlaen, bydd yn cynnig cwrs popty araf i'r rhai sy'n gadael gofal fel y gallent ddysgu sut i fwyta'n iach ac yn gost-effeithiol.



## Cynyddu gallu ar 'ddrws ffrynt' ein plant

Er mwyn cynyddu ein gallu i brosesu achosion o fewn ein Tîm Asesu a Chymorth, rydym wedi datblygu rôl Asesydd a Gweithiwr Cefnogi newydd i asesu, cynllunio, adolygu a darparu cynlluniau gofal a chymorth. Roedd hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr heb gymwysterau Gweithiwr Cymdeithasol i ddatblygu eu sgiliau, ac yn ei hanfod, yn disodli swyddi gwag am Weithiwr Cymdeithasol a oeddem yn cael anhawster yn eu llenwi.

Rŵan, ar ôl pedwar mis o'r cynllun peilot, gallwn weld bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda. Mae deiliaid y swyddi yn symud achosion yn effeithiol o dîm drws ffrynt gwasanaethau plant i gefnogaeth gyffredinol, neu ofal a chefnogaeth tymor hwy gan ein timau gwaith cymdeithasol. Mae'r sgiliau a gynhigiwyd gan yr ymgeiswyr hyn o swyddi Ymyrraeth Deuluol blaenorol wedi bod yn werthfawr, ac mae eu mewnbwn wedi galluogi i Weithwyr Cymdeithasol Cymwys ganolbwyntio ar waith gofal a chefnogaeth, a diogelu ar lefel uwch.

## Beth oedd yr heriau?

Roedd y mwyafrif o heriau yn dod yn sgil yr elfen adnoddau dynol, gan gynnwys newid mewn diwylliant a dull rheoli, y swm o waith oedd i'w wneud wrth greu swyddi newydd sbon, ac echdynnu a dyrannu'r gwaith, sy'n addas i'w graddfa, i weddill y tîm. Mae recriwtio i'n swyddi parhaol yn parhau i fod yn her, ac mae hyn yn rhannol yn arwain at ein penderfyniad i geisio rhywbeth newydd gyda'r sgiliau sydd eisoes gennym yn ein gweithlu.

Mae'r newid wedi bod yn digwydd mewn cyfnod pan dderbyniodd y sir nifer o Blant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches, sy'n gofyn am fewnbwn gan Weithwyr Cymdeithasol Cymwys. Felly, nid oedd modd i'r Asesydd a'r Gweithiwr Cefnogi ddarparu'r arbenigedd angenrheidiol i brosesu'r achosion penodol hyn.

## Beth nesaf?

Rydym yn bwriadu gwneud swydd yr Asesydd a'r Gweithiwr Cefnogi'n un barhaol, a'i chyfuno i swydd ymarferydd gofal cymdeithasol ehangach. Mae angen i ni ystyried a fyddant yn disodli'r Gweithwyr Cymdeithasol Cymwys yn barhaol, felly byddwn yn parhau i fonitro'r galw ar y tîm yn ei gyfanrwydd er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw.

## Darparu llety addas i blant a phobl ifanc ag anableddau

Rydym wedi ymrwymo i alluogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol i barhau i fyw yng Nghonwy mewn llety addas gyda'r gefnogaeth iawn.  Gweledigaeth y Gwasanaeth Anableddau yw bod darpariaeth llety a gofal yn ddi-dôr yn ystod y cyfnod pontio i fod yn oedolyn. O ganlyniad, rydym wedi gweithio gyda Thai First Choice i ganfod eiddo sy'n hyblyg, ac a fydd yn ein caniatáu i ddarparu llety parhaus ar ôl 18 mlwydd oed drwy ddadgofrestru a chreu gwasanaethau Byw â Chymorth wrth i bob person ifanc ddod yn oedolyn.

Mae Cymdeithas Tai First Choice wedi canfod, a chwblhau'r broses gaffael ar eiddo yn Llandudno ar gyfer tri o blant ag anableddau sy'n byw mewn lleoliadau preswyl tu allan i'r sir ar hyn o bryd.  Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid i Dai gyda Gofal i werth o £741,048 ar gyfer costau caffael ac adeiladu, a chyllid preifat FCH o £399,027.

Mae cynlluniau pensaernïol wedi cael eu llunio, gan wneud y mwyaf o'r gofod yn yr eiddo i letya tri rhandy ar wahân, ardal staffio a gofod addas tu allan ar gyfer chwarae synhwyraidd.  Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Adran Gynllunio, ac mae cynlluniau terfynol wedi cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

Mae dogfen 'Cynllunio Fy Nghartref' wedi cael ei chwblhau erbyn hyn sy'n dangos sut edrychiad ddylai'r rhandai gael, sy'n bwrpasol ar gyfer pob plentyn sy'n byw yno, ac mae ymholiadau wedi cael eu cadarnhau ar gyfer y pensaer i roi'r fanyleb allan i dendr er mwyn i gontractwr gwblhau'r gwaith. Mae'r gwaith o lunio dogfennau prosiect yn mynd rhagddo, ac mae'r bwrdd prosiect a'r grwpiau wedi cael eu nodi.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cadarnhau y bydd angen cofrestru'r eiddo fel cartref preswyl plant, ac wrth i bob plentyn droi'n 18 oed, gellir dadgofrestru ac ailgofrestru'r eiddo fel lleoliad gofal cartref, gan ganiatáu i'r plentyn neu berson ifanc cael tenantiaeth ar eu rhandy.

Ymgynghorwyd gyda phob teulu, ac maent i gyd yn cytuno i'r plant ddychwelyd i Gonwy.  Ymgynghorwyd â darparwyr preswyl presennol hefyd; maent yn cefnogi'r camau gweithredu a byddant yn cymryd rhan mewn nodi a gweithredu cynlluniau pontio. Mae ymgysylltiad â'r adran Addysg yn nhermau darpariaeth lleoedd ysgol ar gyfer y tri phlentyn ar ôl iddynt ddychwelyd i'r Sir.

## Beth oedd yr heriau?

- Cychwyn y prosiect, gan nad oedd Rheolwr Prosiect penodol i arwain ar hyn.  Mae'r Rheolwr Prosiect a gafwyd yn ddiweddarach yn rheoli hyn yn ychwanegol i'w swydd bresennol.
- Roedd angen i benseiri fod yn greadigol i wneud y mwyaf o'r gofod yn yr eiddo, i ddarparu ar gyfer anghenion gofynnol y plant, ond yn yr un modd, mae rhai cyfaddawdau wedi cael eu gwneud rhwng y Rhestr o'r pethau Dymunol a'r Rhestr o bethau Angenrheidiol.
- Mae terfynau amser yn dynn ar gyfer cwblhau rhai o'r ffrydiau gwaith i sicrhau bod y cartrefi'n llwyr weithredol erbyn mis Ionawr 2024.

## Beth nesaf?

Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol fel blaenoriaeth:

- Cwblhau gwerthusiad dewis i benderfynu a ddylai'r darparwr cefnogi fod yn fewnol neu'n allanol
- Aros i'r Adran Gynllunio gymeradwyo cynlluniau ar gyfer y gwaith adeiladu
- Dyfarnu'r gwaith adeiladu i gontractwr yn dilyn proses dendr
- Nodi cynlluniau pontio ar gyfer pob plentyn
- Ymgynghori gyda phob budd-ddeiliad allweddol nad ydynt yn rhan o'r Bwrdd Prosiect neu'r grwpiau'r prosiect


Rydym yn anelu at gael y llety'n weithredol o fis Ionawr 2024, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn ein hadroddiad nesaf.



# Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

## Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:




Mae Cod Ymarfer yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud yn erbyn eu dyletswyddau dan y Ddeddf fel cyfanwaith. Mae'r broses hon hefyd yn ein galluogi i wella ein gwasanaethau'n barhaus. Fel y nodir yn y Cod Ymarfer, mae gennym drefniadau mewn grym ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata am fesuryddion perfformiad statudol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Caiff perfformiad ei fesur yn unol â phob un o'r safonau ansawdd sy'n canolbwyntio ar bobl, atal, partneriaethau ac integreiddio a lles.

Mae gan Gonwy drefniadau llywodraethu mewn grym i gefnogi dulliau rheoli effeithiol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae gan y Cyngor Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a phenododd ddau Ddeilydd Portffolio i gynrychioli Plant, Teuluoedd a Diogelu, a Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig. Rydym yn cyflwyno amrywiol adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu a'u herio ac mae gennym broses fewnol gadarn ar gyfer herio perfformiad a chael trosolwg ohono. Cynhelir cyfarfodydd gyda'n harolygiaeth drwy gydol y flwyddyn ac rydym yn mynd ati i adolygu ein harferion ein hunain yn rheolaidd fel mater o drefn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru yn amlinellu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu penderfyniadau. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ganolog i'r penderfyniadau a wneir.

Yng Nghonwy, rydym yn ymgorffori'r amcanion hyn yn ein Cynllun Corfforaethol newydd a fydd yn bodoli rhwng 2022 a 2027. Mae ein cynllun yn nodi ein dyheadau i wneud gwahaniaeth i Bobl Conwy dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn bodloni ein canlyniadau hirdymor ar gyfer ein dinasyddion.

- Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd
- Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus gyda diwylliant yn gaolog iddi
- Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus
- Mae gan pobl yng Ngonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd
- Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae pobl yng Nghonwy yn iach
- Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg
- Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn

Fel gwasanaeth, rydym yn myfyrio ar y modd yr ydym yn cyfrannu at y blaenoriaethau hyn drwy ein proses Adolygu Perfformiad y Gwasanaeth bob chwe mis.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 and Codau Ymarfer yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud yn erbyn eu dyletswyddau dan y Ddeddf fel cyfanwaith. Mae'r broses hon hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i wella'u gwasanaethau'n barhaus. Fel y nodir yn y Cod Ymarfer, mae gennym drefniadau cadarn mewn grym ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata am fesuryddion perfformiad statudol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Caiff perfformiad ei fesur yn unol â phob un o'r safonau ansawdd sy'n canolbwyntio ar bobl, partneriaethau ac integreiddio ac atal.

Mae gan Gonwy drefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi dulliau rheoli effeithiol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi penodi dau Ddeiliad Portffolio sy'n cynrychioli Gofal Cymdeithasol Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Hamdden. Rydym hefyd yn cyflwyno amrywiol adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu i'w hadolygu a'u herio. Yn ogystal, mae gennym broses fewnol gadarn i oruchwylio a herio perfformiad. Cynhelir cyfarfodydd gyda'n harolygiaeth drwy gydol y flwyddyn ac rydym yn mynd ati i adolygu ein harferion ein hunain yn rheolaidd fel mater o drefn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein gwasanaeth.

## Prosiect Cyfrifoldebau Unigolyn Cyfrifol (UC) Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA)

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi ansawdd gwasanaethau a gwelliant wrth wraidd rheoleiddio. Mae'n gwella trefniadau diogelu ar gyfer y rhai sydd ei angen, ac yn sefydlu system reoliadol sy'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac yn creu system reoliadol sy'n canolbwyntio ar y bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r prosiect cysylltiedig yn cynnal gwerthusiad dewis i argymell newidiadau / trefniadau sefydliadol parhaol i weithredu dyletswyddau "Unigolyn Cyfrifol" RISCA. Mae hyn ar gyfer darpariaeth gwasanaeth mewnol cyfredol ac ar y gweill mewn perthynas â gofal gartref, maethu a lleoliadau preswyl ar draws Gofal Cymdeithasol i gyd. Mae dyletswyddau'r Unigolyn Cyfrifol yn cael eu nodi yn Arweiniad RISCA statudol Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â bodloni rheoliadau safonol gwasanaeth. Yn syml, mae cyflwyniad y rôl "Unigolyn Cyfrifol" uwch yn ddatblygiad pwysig iawn o ran hyrwyddo, monitro a gwella ansawdd gwasanaeth.

### Beth oedd yr heriau?

Drwy ein hamrywiol brosiectau a'r datblygiadau gwasanaeth i ddarparu 'gofal yn nes at adref', sy'n cynnwys cynyddu ein darpariaeth mewnol lleol o ran byw â chymorth, tai gofal ychwanegol, seibiant a darpariaeth preswyl plant, rydym angen cynyddu ein gallu i gyflawni dyletswyddau swyddogaethau uwch yr Unigolyn Cyfrifol hefyd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i hyrwyddo cynnydd a monitro parhaus a gwella ansawdd y gwasanaeth ar gyfer bob datblygiad cyfredol, sydd ar y gweill ac a fydd yn digwydd yn y dyfodol ar draws Gwasanaethau Plant, Anableddau a Phobl Hŷn.

## Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa pum mlynedd i gyflawni rhaglen o newid o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2027. Mae'n adeiladu ar y ddysg a'r cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig flaenorol ac yn ceisio gwneud newid cynaliadwy i'r system drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Y nod erbyn 2027 yw ein bod wedi sefydlu a phrif-ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig er mwyn i bobl yng Nghonwy, a ledled Cymru, allu bod yn sicr o wasanaeth effeithiol a di-dor, mewn perthynas â:

- Gofal yn y gymuned
- Iechyd a lles emosiynol
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal
- Gwasanaeth gartref o'r ysbyty
- Atebion yn seiliedig ar lety

Bydd defnyddio'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn alinio'n agos gyda deddfwriaeth a rhaglenni, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Cymru Iachach.

Yng Nghonwy, rydym wedi cael £3.2 miliwn o arian nawdd a byddwn yn ei ddefnyddio i gefnogi 21 gwahanol prosiect ledled ein meysydd gwasanaeth mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canolfan Asesu Breswyl Plant Bwythyn y Ddôl
- Tîm Cryfhau Teuluoedd
- Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT)
- Tîm Un Pwynt Mynediad Conwy
- Tîm Lles Cymunedol
- Gweithwyr Cefnogi Anableddau
- Timau Cefnogi Dementia
- Tîm Adnoddau Cymunedol
- Gweithio, Byw, Gwneud: cefnogi pobl gydag anableddau cymhleth
- Camu i fyny / camu i lawr - gwelyau i gefnogi pobl hŷn
- Uwch fodel gofal maeth camu i fyny / camu i lawr.
- Grantiau Trydydd Sector drwy CGGC
- Prosiectau Trydydd Sector sy'n cefnogi plant gydag anableddau

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

### Cartref Preswyl Llys Elian:

Ym mis Awst 2022, cynhaliodd AGC archwiliad o gartref preswyl Llys Elian, sef cartref preswyl ar gyfer henoed â salwch meddwl, ym Mae Colwyn. Fe wnaeth yr adroddiad amlygu bod y staff yn hapus yn eu gwaith, yn mwynhau eu swyddi ac yn falch o weithio yn y cartref. Fe wnaethant nodi nad yw'r gofal yn cael ei ruthro, ei fod yn ddigynnwrf ac yn barchus. Mae'r gweithgareddau yn amrywiol ac yn cael eu trefnu bob dydd. Mae staff gofal yn cael digon o hyfforddiant ym maes gofal dementia ac maent yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli sy'n rhagweithiol wrth ddod o hyd i ffyrdd i wella'r gwasanaeth. Roeddem ni'n falch iawn o glywed nad oedd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn arolwg Llys Elian.

Roedd canfyddiadau arolwg AGC yn gadarnhaol iawn, ac roedd yn adlewyrchu'r ymatebion a gawsom i arolwg staff Llys Elian a gynhaliom ym mis Mawrth 2023. Roedd y sgoriau a'r sylwadau'n cadarnhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac wedi'u hyfforddi'n briodol i wneud eu swyddogaethau, ac fel tîm eu bod yn cefnogi preswylwyr i fyw bywydau cyflawn mewn amgylchedd diogel a pharchus. Fe wnaeth yr ymatebwyr i gyd roi sgôr uchel i Lys Elian o ran perfformiad a rhoddodd nifer ohonynt enghreifftiau o sut mae hyn yn cael ei gyflawni.

Mae Llys Elian yn llwyddo mewn sawl ffordd. Mae cryfder y rheolwyr yn sicrhau bod bob mater sy'n codi yn cael ei ddatrys yn gyflym. Mae'r ffordd y maen nhw'n gofalu am unigolion a'u staff wedi arwain ataf [i'n] rhoi sgôr pum seren iddynt. Mae'r ffaith bod y preswylwyr yn mynd i'r swyddfa am sgwrs gyda nhw yn dweud y cyfan.

Rydw i'n meddwl bod Llys Elian yn gwneud gwaith anhygoel wrth gefnogi preswylwyr i wneud eu dewisiadau eu hunain.

Cafodd arolwg tebyg ei anfon at gydweithwyr yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd er mwyn cael eu barn am weithio gyda thîm Llys Elian. Roedden nhw hefyd yn cytuno bod y cartref preswyl yn darparu lefel wych o wasanaeth i'w preswylwyr, gan fynd "y filltir ychwanegol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol y preswylwyr i gyd". Roedden nhw i gyd yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y preswylwyr yn cael eu parchu, maent yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac mae'r tîm rheoli yn darparu gwybodaeth gywir ac amserol i fudd-ddeiliaid.

Nid wyf wedi gweld cartref yr un fath erioed, mae o'n anhygoel ym mhob ffordd. Mae'r amgylchedd yn gartref oddi cartref ac yn gyfforddus.

Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi ar gyfer arolwg thematig gan AGC am gynllunio gofal a chefnogaeth yn ein Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu. Bydd yr arolwg yn mesur cynnydd ac ansawdd arferion mewn perthynas â chynllunio gofal a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn amodol ar gyn-drafodion yn unol ag Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

## Llety Llys Gogarth i blant a phobl ifanc ag anableddau

Ym mis Mehefin 2022, cynhaliodd AGC archwiliad o Lys Gogarth yn Llandudno, sy'n darparu llety, gofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc. Roedd yr adroddiad am yr archwiliad yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

- Mae'r cyfleuster yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ac i wneud cynnydd.
- Caiff pobl ifanc eu hannog i wneud dewisiadau, i fod yn weithgar ac iach ac i fod yn annibynnol pan fo'n bosibl.
- Mae staff gofal yn frwdfrydig ac yn brofiadol ac yn glir am sut i ofalu am y bobl ifanc maen nhw'n eu cefnogi.
- Mae'r berthynas weithio agos gyda'r ysgol ar y safle yn golygu bod anghenion pobl ifanc yn cael eu hasesu'n drylwyr cyn iddynt gael eu derbyn.
- Mae'n lleoliad croesawgar ac mae yna ddigon o ofod y tu mewn a thu allan i fodloni anghenion pobl ifanc.
- Mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu safon uchel o lywodraethu a chyfeiriad i'r gwasanaeth, ac o ganlyniad, mae'r canlyniadau i bobl ifanc yn gadarnhaol ac mae staff cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae'r adroddiad llawn yn manylu ar feysydd o arfer da, megis gwaith amlasiantaeth, gweithdrefnau diogelu effeithiol, staff a rheolwyr wedi'u hyfforddi'n dda, a diwylliant cadarnhaol o sicrhau fod pobl ifanc yn ganolog i bopeth a wnawn o fewn y gwasanaeth. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Adborth gan staff a budd-ddeiliaid

Ym mis Chwefror, gofynnom i staff sy'n gweithio yn Llys Gogarth a staff o dimau CBSC eraill ac Iechyd am eu hadborth am y cyfleuster, ac ansawdd y gwasanaethau a gyflwynir.

Gan adlewyrchu ar yr adborth gan AGC, roedd yr ymatebion cyffredinol yn gadarnhaol iawn. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant i wneud eu swyddi, ac maent yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd gyda rheolwyr atebol i drafod eu lles, eu hiechyd a'u llwyth achosion. Roedd bob aelod o staff wnaeth lenwi'r arolwg yn cytuno eu bod, fel tîm:

- yn gwrando ar blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, gan sicrhau bod ganddynt hawliau a dewisiadau
- yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu a chefnogi eu lles a'u hiechyd
- yn cefnogi plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Fe wnaeth yr ymatebwyr i gyd nodi bod y gwasanaeth yn Llys Gogarth yn bedwar neu bump allan o bump, ac roedd y sylwadau cefnogol yn dangos faint o feddwl oedd gan staff o'u cydweithwyr a'r amgylchedd. Mae yna deimlad bod Llys Gogarth ar y trywydd iawn i adfer, ar ôl Covid, a bod cyfle newydd i wella a datblygu'r gwasanaeth ymhellach fel tîm.

> Rydym i gyd yn frwdfrydig am ein swyddi ac mae gennym angerdd gwirioneddol am y plant sydd yn ein gofal. Rydym yn ceisio rhoi 100% iddyn nhw bob amser.

> [Mae'r plant a phobl ifanc] yn cael prydau bwyd iach…… maen nhw'n mynd am dro hyfryd ac yn cyfrannu mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.

Roedd budd-ddeiliaid o'r Tîm Anabledd Dan 25 oed a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno'n unfrydol bod Llys Gogarth:

- yn gwrando ar y bobl ifanc mae'n nhw'n eu cefnogi, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau am y gofal a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei gael a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw
- yn ymateb mewn modd amserol pan fo budd-ddeiliaid yn cysylltu â nhw gydag ymholiad
- yn ymateb ar unwaith pan fo pryderon yn cael eu codi am y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- yn cefnogi pobl ifanc i gadw'n hapus ac yn iach
- yn cefnogi pobl ifanc i gadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- yn hyblyg ac yn gallu addasu i fodloni anghenion y bobl ifanc y maen nhw'n eu cefnogi
- yn cynnig amgylchedd diogel ac addas i'r plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- yn trin y plant a phobl ifanc gydag urddas a pharch
- yn cyflogi staff sy'n broffesiynol ac sy'n hawdd mynd atynt gyda phryderon neu ymholiadau

Roedd 44% yn nodi bod Llys Gogarth yn dda iawn am fodloni deilliannau i bobl ifanc ac fe wnaeth 56% ei nodi fel da.

> Rydw i'n teimlo'n gryf bod Llys Gogarth yn gwrando ar y bobl ifanc yn eu gofal a'u galluogi i ddweud eu dweud am y ffordd y gofalir amdanynt. Maent hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc lesio barn am y math o weithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud.

## Mwy Na Geiriau: Darparu'r 'Cynnig Gweithredol'

Daeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 yn gyfraith a rhoddodd hyn statws swyddogol i'r Gymraeg ac mae'n tanategu Fframwaith Mwy na Geiriau.

Mae'r Fframwaith Mwy Na Geiriau yn gynllun pum mlynedd rhwng 2022 a 2027. Mae'r fframwaith yn pwysleisio bod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd, a'n bod yn cydnabod cysyniad o anghenion ieithyddol. Dylai bod derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig pan rydym yn ddiamddiffyn, fod yn gydran annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae safonau proffesiynol gyda gwasanaethau iechyd a gofal yn nodi bod cyfathrebu effeithiol yn allweddol, gan amlygu'r angen i gynnal parch ac urddas. Felly, dylai mabwysiadu a chyflawni Mwy Na Geiriau helpu i wella ansawdd y gofal ar gyfer unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog.

Cymraeg

Gweledigaeth gyffredinol y fframwaith yw: "Mae Mwy Na Geiriau yn anelu at gael y Gymraeg yn perthyn ac wedi'i ymgorffori mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd ledled Cymru fel bod unigolion yn derbyn

y gofal sy'n bodloni eu hanghenion ieithyddol, gan arwain at well canlyniadau, heb orfod gofyn amdano. Bydd y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn gwerthfawrogi bod ganddynt ran weithgar i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hon."

Mae'r fframwaith yn nodi sut y byddwn yn gwireddu cynnydd o dan themâu penodol, sef cynllunio'r Gymraeg, cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg gyda'r gweithlu cyfredol a'r dyfodol a rhannu arfer gorau a dull gweithredu sy'n galluogi.

Mae grŵp llywio wedi cael ei sefydlu ar gyfer paratoi ar gyfer lansio'r fframwaith a bydd yn asesu sefyllfa'r gofal cymdeithasol yn erbyn 7 amcan allweddol, mae rhai ohonynt yn cynnwys hyrwyddo a Chymraeg yn y gweithle.

## Beth oedd yr heriau?

Yr her oedd sicrhau bod y gweithlu cyfan, yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynir, yn cael y cyfle i siapio ein cynllun gweithredu.

## Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i weithredu cynllun pum mlynedd Mwy Na Geiriau. Ein nod yw sicrhau bod ein cynllun gweithredu yn parhau i ddatblygu a bod y gwasanaethau a'r gweithlu yn ei weithredu.

## Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

Mae adroddiad Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru yn asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Y bwriad oedd cael gwell dealltwriaeth o'n poblogaeth a sut y gallai newid dros y blynyddoedd nesaf er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell yn yr ardal. Wedi'u creu gan Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru, maen nhw'n adolygu ystadegau, siarad gyda chymunedau a defnyddio ystod eang o wybodaeth a gesglir gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, anabledd iechyd a chorfforol, anabledd dysgu, awtistiaeth, iechyd meddwl, gofalwyr di-dâl a grwpiau eraill, gan ddarparu negeseuon allweddol ac argymhellion mewn perthynas â bob testun yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd.

Gallwch ddarllen yr adroddiadau diweddaraf a'r rhai blaenorol, yma.



## Adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yng Ngogledd Cymru

Mae Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru (2022) yn cynnwys gwybodaeth am argaeledd gofal a chefnogaeth ar draws y rhanbarth ac yn argymell ffyrdd o wneud yn siŵr bod digon o gefnogaeth ar

gael yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cartrefi gofal, gofal cartref, cartrefi plant, maethu, mabwysiadu, eirioli a chymorth i ofalwyr di-dâl.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad partneriaid ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth, gofalwyr a phlant. Ei ddiben yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Defnyddio adnoddau sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chefnogaeth effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) yn anelu i 'weithio gyda'n gilydd i wella lles pobl a chymunedau' yn yr ardal, ac mae'n cynnwys cydweithwyr o'r awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, y Bwrdd Iechyd a sefydliadau'r Trydydd Sector. Cewch fwy o wybodaeth am waith BPRhGC yma.

## Strategaeth Gomisiynu Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n derbyn Gofal

Yn 2022, fe wnaethom greu strategaeth i nodi sut y byddwn yn darparu lleoliadau digonol ac o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion amrywiol ac unigol y plant yn ein gofal. Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn anelu i leihau ein dibyniaeth ar gomisiynu lleoliadau annibynnol, ac yn hytrach buddsoddi canran o'r arian yr ydym yn ei arbed er mwyn cynyddu nifer yr adnoddau lleol a mewnol. Bydd hyn o fudd i'r plant sy'n derbyn gofal drwy eu cadw yn yr ardal leol, eu lleoli nhw'n briodol, a'u cysylltu gyda gofalwyr sy'n gallu bodloni eu anghenion, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i fod yn oedolyn.

Rydym yn anelu i ostwng nifer y plant yng Nghonwy sy'n derbyn gofal, ac yn unol â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2022-2027, gael gwared ar elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Yng Nghonwy, rydym wedi cytuno y byddwn yn:

- Siapio ein gwasanaethau mewnol i wella buddion darpariaeth y sector cyhoeddus o ran ansawdd, gwerth am arian, a gweithredu a monitro cynllun gofal.
- Gweithio ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus ledled y rhanbarth, pan fo hyn yn cynnig manteision penodol.
- Cynyddu'r nifer a'r dewis o leoliadau sydd ar gael i sicrhau bod opsiynau ar gael bob amser sy'n addas i anghenion y plant.
- Cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau gan gydnabod bod amrywiaeth o wahanol ddulliau ar gyfer comisiynu strategol gyda nifer o bartneriaid sy'n gallu bod yn gwmnïau cydweithredol, elusennau neu bartneriaid masnachol.

Canlyniad trosfwaol dymunol y strategaeth hon yw cyflawni canlyniadau gwell i'r plant sy'n derbyn gofal gan Gonwy, a chyflawni arferion gorau ein swyddogaethau Rhianta Corfforaethol, gan ddarparu lleoliadau o ansawdd uchel i blant, sy'n cynnig gwerth am arian, ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo eu lles, yn hyrwyddo gwytnwch ac yn galluogi perthnasoedd cadarnhaol.

- Fe ddylai'r broses o wneud penderfyniadau gynnwys plant yn hytrach na'u drysu
- Fe ddylai cyfnodau mewn llety fod yn brofiad cadarnhaol i blant
- Ni ddylai plant fod dan anfantais yn sgil y gofal y maent yn ei dderbyn

- Fe ddylai plant adael gofal gyda'r un cyfleoedd â'r boblogaeth gyffredinol

Bwriad ac egwyddor y strategaeth yw datblygu digon o adnoddau lleoliad i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r plentyn. Mae paru lleoliadau a chynnig dewis o leoliadau'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r nod hwn.

## Dim Drws Anghywir

Mae'r Comisiynydd Plant wedi creu'r dull Dim Drws Anghywir i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth lywio'r hyn a ganfyddir fel system gymhleth wrth geisio cefnogaeth. Mae'r Comisiynydd yn credu y dylai gwasanaethau fod yn ofal estynedig i deuluoedd a chynnig cymorth yn gynnar i atal gwaethygu i wasanaethau. O fewn y Gwasanaethau Plant yng Nghonwy rydym wedi creu ein gweledigaeth ar egwyddorion y dull Dim Drws Anghywir. Bydd hwn yn ddull cydweithredol, gan weithio gyda phartneriaid i symud ymlaen â gweithredu strategaeth "Dim Drws Anghywir" Gogledd Cymru.

## Beth nesaf?

Mae bob Is-Grŵp Ardal Plant Integredig yn paratoi "Cynllun Gwaith Arfaethedig", a allai gynnwys ehangu prosiectau neu ganfod prosiectau newydd, i sicrhau bod trefniadau mynediad sengl effeithiol a chanolfannau canolbwynt yn gweithredu yn eu hardal leol, gan gefnogi siwrnai plentyn at wasanaethau.

Byddwch yn rhannu eich profiadau o sut mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ac yn rhyngweithio gyda gwasanaethau a'r sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

## Rheoli'r gyllideb a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid ac yn amlinellu rhai o'r problemau ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Mae cyflawni'r strategaeth yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael drwy setliadau Llywodraeth Cymru ac ar lwyddiant y Cyngor wrth alinio adnoddau â'i nodau a blaenoriaethau.

Yn 2022-23, rhagamcanir y bydd y sefyllfa derfynol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dangos gorwariant o £3,097,831. Ar gyfer 2022-23, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflwyno cais llwyddiannus, drwy'r broses achosion busnes, am arian ychwanegol ar gyfer cynnydd mewn costau a ragwelwyd yn ymwneud â Ffioedd Gofal (£2,730k), Gofal Cartref (£2,070k), Taliadau Uniongyrchol (£285k), Byw â Chymorth (£620k) a Phlant Sy'n Derbyn Gofal (£2,990). Mae'r adran hefyd wedi gorfod dod o hyd i arbedion o £1,919k.

## Llwybr Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol

Mae Gofalwn.Cymru Conwy (gwasanaeth cefnogaeth cyflogaeth) yn parhau i hyrwyddo Gofal Cymdeithasol fel llwybr gyrfa y gellir ei ddewis. Maent yn cynnal ffeiriau swyddi ar-lein ac mae pob digwyddiad yn canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer Gofal Cymdeithasol a'r rolau sydd ar gael o fewn y sector. Mae cyfranogwyr yn cwrdd â'n Mentor Cyflogaeth Gymunedol ac yn clywed am y gefnogaeth y gallant ei chynnig i unigolion sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol.

Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus o ran cefnogi unigolion drwy'r broses gyflogaeth. Mae cyfranogwyr wedi croesawu cefnogaeth un-i-un y mentor, sy'n teilwra'r gefnogaeth yn ôl anghenion y cyfranogwr. Rydym wedi cael adborth gadarnhaol gan ein cyfranogwyr.

> Ar ôl cyfarfod gyda'm Mentor Cyflogaeth dros rai wythnosau, fe wnaeth hi fy helpu a'm harwain i wneud cais llwyddiannus gyda'r Tîm Anableddau, o lenwi'r ffurflen gais, i gynnal cyfweliadau a rhoi cefnogaeth barhaus a chyson. Ni allaf ddiolch iddi ddigon, mae hi bob amser ar ochr arall y ffôn gyda chefnogaeth ac arweiniad.

Roedd y broses gyfan o ymgeisio am swydd newydd yn llai poenus o lawer oherwydd y ffordd y cefais fy helpu a'm cefnogi.  Ar ôl penderfynu ymgeisio, fe wnaeth fy Mentor Cyflogaeth fy helpu gyda fy nghais gydag awgrymiadau a'r wybodaeth orau i amlygu fy nghryfderau a'm galluoedd yn fy swyddogaeth ofal fy hun, wnaeth fy helpu i'n arw iawn. Fe wnaeth y pethau bychain helpu'n arw hefyd - pethau fel neges lwc dda ar gyfer fy nghyfweliad a'm llongyfarch ar ôl i mi gael cynnig y swydd.

Rydw i'n sylweddoli ar ôl siarad â chi nad yw fy ffurflen gais yn cynnwys hanner digon o fanylion a'i fod yn rhy anffurfiol. Mae'r cyngor rydych chi wedi'i roi i mi yn onest ac yn amhrisiadwy, rydw i'n meddwl y gallaf lwyddo gyda hyn, gyda'ch


CV

# Fframwaith Rheoli Perfformiad

Gweithredwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020, sy'n cynnwys set newydd o dargedau a mesurau perfformiad. Mae'r mesurau hyn yn tanategu pob agwedd o'r gwaith rydym yn ei wneud, drwy hysbysu ein timau rheoli o gynnydd, arferion da a thueddiadau newydd. Nid yn unig yw'r mesurau a'r targedau hyn, ar lefel leol a chenedlaethol, yn monitro perfformiad, maent hefyd yn caniatáu i ni gynllunio darpariaeth ein gwasanaethau yn y dyfodol. O ganlyniad, gallwn reoli unrhyw faterion posibl yn rhagweithiol, lliniaru yn erbyn risgiau a defnyddio'r wybodaeth i gymell ein gwasanaethau yn y dyfodol.

| **Safon Ansawdd 1 - Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw** | | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r Dangosydd Perfformiad** | **2021-2022** | **2022-2023** |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | 749 | 609 |
| Nifer y cysylltiadau newydd i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn | 5,571 | 5,275 |
| **Safon Ansawdd 2 – Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys ac sy'n derbyn cefnogaeth yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir.** | | |
| Nifer y swyddi gwag a hysbyswyd yn ystod y flwyddyn | 258 | 215 |
| Nifer y swyddi gwag a gafodd eu llenwi'n llwyddiannus | 183 | 144 |
| **Safon Ansawdd 3 – Mae'r angen am ofal a chefnogaeth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, tra'n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu sicrhau i bobl.** | | |
| Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn *(CH/045)* | 13 | 19 |
| Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn *(CH/043)* | 24 | 19 |
| Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol sydd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn *(CH/049)* | 12 | 30 |
| **Safon Ansawdd 4 - Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas** | | |
| Cyfanswm nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symud sy'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud tŷ) *(CH/044)* | 9 | 17 |
| **Safon Ansawdd 5 – Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu deilliannau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl** | | |
| Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth *(CH/015)* | 712 | 737 |
| Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ble fo anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth *(CH/016)* | 60 | 56 |
| Cyfanswm nifer y plant gyda chynllun gofal a chymorth ble fo anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth *(AD/013)* | 141 | 212 |
| **Safon Ansawdd 6 – Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a'u cefnogaeth fel partneriaid cyfartal** | | |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant am o leiaf 3 mis yn olynol yn y 12 mis ers gadael gofal *(CH/054a)* | 8 | 7 |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant am o leiaf 3 mis yn olynol yn y 12 mis ers gadael gofal *(CH/054a)* | 26 | 25 |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal sy'n cael profiad o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir yn Neddf Tai (Cymru) 2014) o fewn 12 mis o adael gofal *(CH/052)* | 25 | 26 |
| **Safon Ansawdd 7 – Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod o gael gwybod am yr honiad o gamdriniaeth *(AD/024)* | 746 | 701 |
| O’r plant hynny a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, y nifer sydd wedi bod ar y gofrestr o’r blaen o dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis diwethaf *(CH/024)* | 0 | 0 |
| Cyfnod cyfartalog o amser yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn *(PMC28)* | 225.45 diwrnod | 247.22 diwrnod |
| **Safon Ansawdd 8 – Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau hysbys eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw’n annibynnol am gymaint â phosibl.** | | |
| Nifer y bobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n symud i leoliad ‘Pan fydda i’n Barod’ *(CH/055)* | 2 | 1 |
| Cyfanswm nifer y bobl ifanc y cafodd ymgynghorydd personol ei neilltuo ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn - o fewn 3 mis os oedden nhw yng nghategori 1 neu 4, gweler y canllawiau *(CH/051)* | 10 | 10 |

# Edrych ymlaen at 2023-24 a thu hwnt

## Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn daliadau arian parod sy'n cael eu talu i unigolion er mwyn iddynt allu trefnu eu cefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion gofal cymdeithasol a aseswyd. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd, dewis a rheolaeth iddynt o ran sut mae eu gofal yn cael ei ddarparu.

Bydd gwaith ailstrwythuro'r adain Taliadau Uniongyrchol yn dod i ben yn 2023-2024. Bydd yr adran newydd yn gyfrifol am godi proffil Taliadau Uniongyrchol ymhlith yr holl ddinasyddion cymwys sy'n hysbys i Ofal Cymdeithasol sy'n dymuno rheoli sut mae eu cefnogaeth yn cael ei darparu. Gwneir hyn drwy ddatblygu tudalennau gwe, cyfryngau cymdeithasol, sgyrsiau cymunedol a sicrhau bod staff y rheng flaen yn meddu ar y sgiliau ac yn hyderus yn trafod buddion Taliadau Uniongyrchol gyda dinasyddion.

Bydd y tîm yn darparu gwasanaeth cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i'r rhai sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am y cynllun, rhai sy'n defnyddio'r cynllun, staff yr adran a chydweithwyr Iechyd sy'n ymwneud â'r broses. Byddant yn dysgu am yr agenda gwleidyddol cenedlaethol sy'n newid, gan sicrhau bod yr holl newidiadau'n cael eu hymgorffori yn natblygiadau'r cynllun.

## RISCA

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae gwaith wedi bod ar y gweill o ran cyflwyno rôl Unigolyn Cyfrifol uwch. Bydd y prosiect cysylltiol yn parhau yn 2023-24, yn casglu gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru ar fodelau gwahanol ac arferion gorau ar gyfer cyflawni dyletswyddau Unigolyn Cyfrifol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn ffurfio rhan o werthusiad dewisiadau, a fydd yn cael ei gynnal gyda sawl budd-ddeiliad, er mwyn asesu rhestr o fodelau i benderfynu ar y dewis a ffefrir. Gyda mwy o ganolbwyntio ar ddatblygu ein darpariaethau gofal mewnol, mae cyflwyniad y rôl Unigolyn Cyfrifol uwch yn ddatblygiad pwysig iawn o ran hyrwyddo, monitro a gwella ansawdd gwasanaeth.

## Trawsnewid lleoliadau preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc

Rhoddwyd cefnogaeth (drwy ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r Cabinet) i sefydlu rhaglen newydd o waith i drawsnewid sut yr ydym yn darparu lleoliadau preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae cartrefi gofal a lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni pan na allant fyw gyda'u teuluoedd eu hunain. Mae modd i blant a phobl ifanc breswylio mewn cartref gofal am gyfnodau byr, gan gynnwys gofal seibiant neu gyfnod byr, neu yn y tymor hwy, gyda'r bwriad i symud i fod yn oedolyn a byw'n fwy annibynnol. Maent yn lle i blant a phobl ifanc dderbyn cefnogaeth i ddatblygu a thyfu.

Ein nod yw cynyddu'r nifer o leoliadau lleol, i alluogi plant a phobl ifanc sydd tu allan i'r sir ar hyn o bryd i ddychwelyd i'r ardal, neu'n nes at adref, a'u galluogi i gadw eu gwreiddiau'n lleol, eu hysgolion, eu diwylliant, eu ffrindiau a'u rhwydweithiau cefnogi. Bydd hyn hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd i staff gefnogi plant a phobl ifanc yn lleol, er mwyn datblygu perthnasoedd gwell gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r rhaglen drawsnewid yn cefnogi darpariaeth ein 'Strategaeth Comisiynu Lleoliad 2022-2027', sydd â'r nod i "ddarparu lleoliadau digonol i fodloni anghenion unigol ac amrywiol plant sy'n derbyn gofal."

Rydym eisoes wedi dechrau ar ein taith drwy ddatblygiadau lleol sydd eisoes ar y gweill, megis Canolfan Asesu isranbarthol newydd - Bwthyn y Ddôl (menter ar y cyd rhwng Cyngor Conwy a Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), sy'n creu lleoliadau seibiant a gofal byr dymor wedi'i gynllunio, a chartref preswyl Sylva Gardens, yn creu fflatiau newydd a gwasanaeth cefnogi ar gyfer tri o blant ag anghenion gofal cymhleth. Mae cynigion wedi'u cefnogi'n ddiweddar hefyd i ailddatblygu ein darpariaeth breswyl fewnol, Glan yr Afon, i gynyddu capasiti i ddarparu llety ar gyfer hyd at 4 unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu cyfleuster pwrpasol.



Mae amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar y pwysau a'r heriau y mae ein gwasanaethau yn eu hwynebu, nad ydynt i'w gweld yng Nghonwy'n unig, ond yn genedlaethol:

- Mwy o alw am leoliadau
- Twf a chymhlethdod anghenion gofal
- Diffyg lleoliadau maeth mewnol a lleoliadau preswyl lleol
- Costau cynyddol fesul plentyn fesul wythnos yn y sector gofal annibynnol
- Targed arbedion adrannol
- Pwysau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid eraill, sydd wedi gwaethygu yn sgil pandemig Covid-19.

I gefnogi'r gwasanaeth gyda'r rhaglen waith sylweddol hon, rydym yn penodi Arweinydd y Rhaglen Drawsnewid (gyda chefnogaeth cyllid Llywodraeth Cymru). Y nod yw cael un rhaglen waith gydlynol i ddatblygu datblygiadau presennol ac ystyried modelau newydd a gwahanol ar gyfer darparu lleoliadau lleol. Bydd ymgysylltu ag ystod o fudd-ddeiliaid megis awdurdodau lleol eraill a sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau nad er elw, darparwyr annibynnol, a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn nodwedd allweddol i ddatblygu'r dewisiadau i ddiwallu'r heriau hyn.

## Cyfiawnder Ieuenctid: dull gweithredu plentyn yn gyntaf a nodi trawma

Byddwch wedi darllen am y gwaith rydym ni wedi'i wneud hyd yn hyn yn y maes hwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn adolygu'r strwythur staffio o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i greu swyddi arbenigol, er mwyn datblygu a symud ymlaen ag agweddau o'r gwaith ymhellach. Gallwn hefyd gynllunio i ganfod adeilad o fewn yr awdurdod i greu Canolbwynt Cymunedol lle gall plant a phobl ifanc:

- Alw i mewn i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol drwy brosiectau 'coginio a bwyta'
- Mynychu apwyntiadau gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac asiantaethau partner
- Mynychu cyfarfodydd ymyrraeth arbenigol yn unigol neu fel grŵp
- Cael lle diogel a chynnes i ymgynnull



# Cael rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol

Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr (blynyddoedd blaenorol)

https://conwysocialservicesannualreport.org.uk/cy/

Cynllun Corfforaethol 2022 - 2027

https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Corporate-Plan/Corporate-Plan-2022-2027.aspx

Sut rydym yn comisiynu gwasanaethau

http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/How-we-Commission-Services.aspx

Arolygiaeth Gofal Cymru

https://www.arolygiaethgofal.cymru/

Gofal Cymdeithasol Cymru

https://gofalcymdeithasol.cymru/

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

Canolfannau Deuluoedd Conwy

https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Children-and-families/Conwy-Family-Centres/Conwy-Family-Centres.aspx

Polisi Diogelu Corfforaethol

http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/Corporate-Safeguarding-Policy.aspx

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/

https://www.llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer

https://www.llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

https://www.diogelu.cymru

Cymru iachach

https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Maethu Cymru

https://fosterwales.secure.conwy.gov.uk/static/cy/



# Pryderon am unigolyn

Os ydych chi'n gwybod am oedolyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu'n cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r Heddlu.

Os bydd yr unigolyn mewn perygl ar unwaith, ffoniwch yr Heddlu'n syth ar 999. Os nad yw mewn perygl ar unwaith, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosibl i rannu eich pryderon.

**Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl**

Rhif Ffôn: 0300 456 1111

Rhif ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079

E-bost: lles@conwy.gov.uk

Ewch i'n gwefan: Rhoi gwybod am oedolyn mewn perygl

**Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl**

Os hoffech chi wneud ymholiad, neu os ydych chi'n bryderus am ddiogelwch plentyn, cysylltwch â ni:

Rhif Ffôn: 01492 575 111

Rhif ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079

Ewch i'n gwefan: Rhoi gwybod am blentyn mewn perygl

